Dogfen ir Cyhoedd

Mr Dylan Williams
Prif Weithredwr – Chief Executive

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | | NOTICE OF MEETING |
|---|---|---|
| **PWYLLGOR GWAITH** | | **THE EXECUTIVE** |
| **DYDD MAWRTH 25 HYDREF 2022 10.00 o'r gloch** | | **TUESDAY 25 OCTOBER 2022 10.00 am** |
| **CYFARFOD HYBRID – YN SIAMBR Y CYNGOR AC YN RHITHWIR** | | **HYBRID MEETING – VIRTUAL AND IN THE COUNCIL CHAMBER** |
| Swyddog Pwyllgor | **Ann Holmes 01248 752518** | Committee Officer |

**AELODAU/MEMBERS**

**Plaid Cymru/The Party of Wales**

Carwyn E Jones, Llinos Medi, Alun W Mummery, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Robin Wyn Williams

**Y Grŵp Annibynnol/The Independent Group**

Dafydd Rhys Thomas, Ieuan Williams

COPI ER GWYBODAETH / COPY FOR INFORMATION

I Aelodau'r Cyngor Sir / To the Members of the County Council

Bydd aelod sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith yn cael gwahoddiad i'r cyfarfod i siarad (ond nid i bleidleisio) os ydy o/hi wedi gofyn am gael rhoddi eitem ar y rhaglen dan Reolau Gweithdrefn y Pwyllgor Gwaith. Efallai bydd y Pwyllgor Gwaith yn ystyried ceisiadau gan aelodau sydd ddim ar y Pwyllgor Gwaith i siarad ar faterion eraill.

A non-Executive member will be invited to the meeting and may speak (but not vote) during the meeting, if he/she has requested the item to be placed on the agenda under the Executive Procedure Rules. Requests by non-Executive members to speak on other matters may be considered at the discretion of The Executive.

***Nodwch os gwelwch yn dda fod cyfarfodydd y Pwyllgor yn cael eu ffrydio ar gyfer eu darlledu'n fyw a'u darlledu ar wefan y Cyngor. Mae'r Awdudrod yn Rheolydd Data dan y Ddeddf Diogelu Data a bydd data a gesglir yn ystod y ffrydio byw hwn yn cael ei gadw'n unol â pholisi cytunedig yr Awdurdod***

**R H A G L E N**

1 **DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan Aelod neu Swyddog mewn perthynas ag unrhyw eitem o fusnes.

2 **MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG APWYNTIEDIG**

Dim materion brys ar adeg anfon y rhaglen hon.

3 **COFNODION** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno i'w cadarnhau, gofnodion drafft cyfarfod y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 27 Medi 2022.

4 **BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH** (Tudalennau 11 - 24)

Cyflwyno adroddiad gan y Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro).

5 **ADRODDIAD PERFFORMIAD BLYNYDDOL 2021/22** (Tudalennau 25 - 56)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Proffesiwn, AD a Thrawsnewid.

6 **CYNLLUN GWEITHREDU ÔL-AROLWG** (Tudalennau 57 - 94)

Cyflwyno adroddiad gan y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc.

7 **RHAGLEN ARFOR 2** (Tudalennau 95 - 104)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

8 **CAIS AM BORTHLADD RHYDD** (Tudalennau 105 - 124)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd.

9 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 125 - 126)

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig."

10 **DATBLYGIAD TAI AR SAFLE CYN YSGOL NIWBWRCH** (Tudalennau 127 -

132)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

11 **CAU ALLAN Y WASG A'R CYHOEDD** (Tudalennau 133 - 134)

Ystyried mabwysiadu'r isod:-

"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeëdig."

12 **DATBLYGIAD AR SAFLE YSGOL PARCH THOMAS ELLIS, CAERGYBI** (Tudalennau 135 - 142)

Cyflwyno adroddiad gan y Pennaeth Gwasanaethau Tai.

This page is intentionally left blank

# PWYLLGOR GWAITH

## Cofnodion y cyfarfod hybrid a gynhaliwyd ar 27 Medi 2022

| | |
|---|---|
| **PRESENNOL:** | Y Cynghorydd Ieuan Williams (Yn y Gadair ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig)<br><br>Y Cynghorwyr Alun Mummery, Gary Pritchard, Alun Roberts, Nicola Roberts, Dafydd R Thomas. |
| **WRTH LAW:** | Prif Weithredwr,<br>Dirprwy Brif Weithredwr/Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151,<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro,<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol,<br>Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc,<br>Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid,<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion,<br>Prif Swyddog Cynllunio (DFJ),<br>Rheolwr Strategaeth Gwasanaeth a Busnes (Datblygu Cynaliadwy) (GP),<br>Rheolwr Sgriwtini (AGD),<br>Swyddog Polisi (RWJ),<br>Swyddog Cyfathrebu (GJ),<br>Swyddog Pwyllgor (MEH). |
| **YMDDIHEURIADAU:** | Y Cynghorwyr Llinos Medi, Carwyn Jones, Robin Williams.<br><br>Rheolwr Rhaglenni, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GJ) |
| **HEFYD YN BRESENNOL:** | Y Cynghorwyr Geraint Bebb, Jeff Evans, Neville Evans, Glyn Haynes, Aled M Jones, Robert Ll Jones, Derek Owen, Alwen Watkin. |

Yn absenoldeb y Cadeirydd a'r Is-gadeirydd, penodwyd y Cynghorydd Ieuan Williams yn Gadeirydd ar gyfer y cyfarfod hwn yn unig.

**1 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd yr un datganiad o ddiddordeb.

**2 MATERION BRYS A ARDYSTIWYD GAN Y PRIF WEITHREDWR NEU EI SWYDDOG PENODEDIG**

Dim i'w hadrodd.

**3 COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd 19 Gorffennaf, 2022 i'w cadarnhau.

**PENDERFYNWYD cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor Gwaith a gynhaliwyd ar 19 Gorffennaf, 2022 yn rhai cywir.**

## 4 BLAEN RAGLEN WAITH Y PWYLLGOR GWAITH

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd Dros Dro a oedd yn ymgorffori Blaenraglen Waith y Pwyllgor Gwaith am y cyfnod Hydref, 2022 i Fai, 2023 i'w ystyried a nodwyd y newidiadau a ganlyn :-

**Eitemau newydd**

- Eitem 1 –Cais cymhleth am Grant Cyfleusterau i'r Anabl - Dirprwyo'r Penderfyniad i'r Aelodau Portffolio Gwasanaethau Oedolion
- Eitem 4 – Arolwg Estyn ar Ddarpariaeth Addysg y Cyngor – Cynllun Gweithredol Ôl-arolwg ar gyfer cyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 25 Hydref, 2022;
- Eitem 15 – Cyllideb 2023/2024 – dyddiad i'w gadarnhau ar gyfer ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith, amodol ar amserlen Llywodraeth Cymru;
- Eitem 24 – Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2023/2024 – dyddiad i'w gadarnhau ar gyfer ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith, amodol ar amserlen Llywodraeth Cymru.

**Eitem a ohiriwyd**

- Eitem 17 – Cynllun y Cyngor 2023 – 2028 i'w aildrefnu o gyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar 25 Hydref, 2022 i'r cyfarfod ar 24 Ionawr, 2023.

**PENDERFYNWYD cadarnhau Blaen Raglen Waith ddiwygiedig y Pwyllgor Gwaith, am y cyfnod Hydref, 2022 i Fai, 2023 fel y'i cyflwynwyd**

## 5 AELODAU PWYLLGOR GWAITH CYNORTHWYOL

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mewn perthynas ag Aelodau Cynorthwyol o'r Pwyllgor Gwaith i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor)/Swyddog Monitro bod Adran 57 Deddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 wedi cyflwyno darpariaethau sy'n golygu bod modd penodi aelodau etholedig i fod yn gynorthwywyr i'r Pwyllgor Gwaith (cynorthwywyr). Dim ond drwy benderfyniad gan y Cyngor llawn y gellir rhoi Adran 57 ar waith. Ni chaniateir penodi mwy na thri aelod cynorthwyol o'r pwyllgor gwaith ac ni fyddant yn derbyn unrhyw gydnabyddiaeth ariannol. Bydd yr holl delerau ac amodau eraill yn cael eu penderfynu gan yr Arweinydd.

**PENDERFYNWYD derbyn yr argymhellion yn A.2 yn yr adroddiad i'w hystyried gan y Cyngor llawn.**

## 6 LLYTHYR BLYNYDDOL GAN OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU 2021/2022

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro mewn perthynas â'r Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru 2021/20222 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro bod Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru wedi cyhoeddi Adroddiad Blynyddol ar gyfer 2021/2022 yn ddiweddar – y Llythyr Blynyddol.

Adroddodd y Prif Weithredwr ei fod wedi cyfarfod gydag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru yn ddiweddar a'i bod yn fodlon gyda'r trefniadau cadarn y mae'r Awdurdod wedi'u rhoi ar waith i ddelio gyda chwynion.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi a derbyn y Llythyr Blynyddol gan Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru (OGCC) 2021/22;**
- **Nodi unrhyw adborth i'w rannu â'r OGCC – dim adborth i'w nodi;**
- **Awdurdodi'r Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Busnes y Cyngor) / Swyddog Monitro i ysgrifennu at OGCC er mwyn cadarnhau bod y Pwyllgor Gwaith wedi rhoi ystyriaeth ffurfiol i'w Llythyr Blynyddol ac i ddarparu sicrwydd y bydd y Cyngor yn parhau i fonitro cwynion ac felly darparu aelodau â'r wybodaeth angenrheidiol er mwyn gallu craffu ar berfformiad y Cyngor.**

## 7 ADRODDIAD MONITRO'R CERDYN SGORIO – CHWARTER 1, 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid a oedd yn cynnwys y Cerdyn Sgorio Corfforaethol ar gyfer Chwarter 1, 2022/23 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Pennaeth Proffesiwn (Adnoddau Dynol) a Thrawsnewid bod y cerdyn sgorio'n amlygu safle'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gwella. Ystyrir bod adroddiad Chwarter 1 yn rhoi'r Cyngor mewn safle cadarnhaol mewn perthynas â pherfformiad, fodd bynnag bydd rhaid cadw llygaid ar yr heriau ariannol yn sgil yr argyfwng costau byw.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi trafod y Cerdyn Sgorio Corfforaethol – Chwarter 1 yn ei gyfarfod ar 26 Medi, 2022 ac ar ôl ystyried yr adroddiad a'r diweddariadau gan y Swyddogion a oedd yn y cyfarfod penderfynwyd nodi'r meysydd y mae'r Tîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol a'r mesurau lliniaru yn yr adroddiad.

Dywedodd y Cynghorydd Ieuan Williams y bydd y Cyngor yn wynebu heriau ariannol a bod hynny wedi'i drafod yng nghyfarfod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth

ac Adfywio ar 26 Medi, 2022. Gofynnodd a fyddai modd ychwanegu colofn ychwanegol i'r Cerdyn Sgorio mewn perthynas â thueddiadau tymor hir a thueddiadau blynyddol y broses monitro gorfforaethol.

**PENDERFYNWYD derbyn yr adroddiad monitro ar gerdyn sgorio Ch1, nodi'r meysydd y mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn eu rheoli er mwyn sicrhau gwelliannau i'r dyfodol a derbyn y mesurau lliniaru a amlinellir yn yr adroddiad.**

## 8 MONITRO'R GYLLIDEB REFENIW - CHWARTER 1

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau)/Swyddog Adran 151 ar berfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar ddiwedd Chwarter 1 o flwyddyn ariannol 2022/2023 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ei bod yn anodd rhagweld y sefyllfa derfynol ar ddiwedd y flwyddyn ar ddiwedd Chwarter 1, a gall y sefyllfa newid yn sylweddol wrth i weddill y flwyddyn ariannol fynd rhagddi oherwydd bod chwyddiant yn codi, y ffaith na chytunwyd eto ar ddyfarniadau cyflog staff ar gyfer 2022/23, y posibilrwydd o gostau cysylltiedig â Covid wrth i ni symud i fisoedd y gaeaf, ynghyd â'r effaith a gaiff yr argyfwng costau byw ar y galw am wasanaethau'r Cyngor. Nid yw'r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn ariannol yn ystyried y dyfarniadau cyflog arfaethedig ar gyfer athrawon (o fis Medi 2022) a staff arall (wedi'i ôl-ddyddio i Ebrill 2022). Pan fydd y costau hyn yn hysbys, byddant yn cael eu cynnwys yn yr amcangyfrifon yn y dyfodol. Crëwyd cronfa wrth gefn glustnodedig o £2.3m er mwyn darparu cyllid ychwanegol i gwrdd â'r pwysau chwyddiant yma, a bydd angen £2m yn ychwanegol i ariannu'r dyfarniadau cyflog os mai'r cynnig presennol fydd yn cael ei dderbyn. Bydd hyn yn defnyddio'r cyfan o'r gronfa wrth gefn glustnodedig, ac ni fydd unrhyw gyllid ychwanegol ar gael i gwrdd â'r cynnydd disgwyliedig mewn costau eraill. Aeth ymlaen i ddweud yn hanesyddol, mae pwysau'r gaeaf i'w weld yn y gwasanaethau Priffyrdd ac Oedolion a gall fod yn anodd mesur y costau ychwanegol mor fuan â hyn yn y flwyddyn ariannol. Amlygodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog 151 y bydd y tendr newydd ar gyfer trafnidiaeth ysgol yn weithredol o fis Tachwedd 2022 a'r tendr ar gyfer tacsis a bysiau mini o fis Ionawr, 2023, a bod disgwyl iddynt gynyddu costau'r Cyngor yn sylweddol. Roedd yn dymuno nodi bod gorwariant o £1.5m yn y Gwasanaethau Oedolion a Phlant ar hyn o bryd a bod grantiau a chronfeydd wrth gefn i gefnogi'r gwasanaethu hyn, ond hebddynt byddai'r gorwariant dros £3m ac mae angen ystyried hyn wrth osod y gyllideb ar gyfer y flwyddyn nesaf. Mae digartrefedd hefyd yn rhoi pwysau ar y gyllideb gan fod y cyflenwad o lety rhent sector preifat yn lleihau ac mae hyn yn creu problemau wrth i fwy o bobl gyflwyno'u hunain yn ddigartref i'r gwasanaeth. Daeth i'r casgliad ei bod yn annhebygol iawn mai'r rhagolygon yn yr adroddiad hwn fydd y sefyllfa derfynol a bod disgwyl i'r Cyngor orwario ar ei gyllideb refeniw yn 2022/23, ond y bydd y sefyllfa'n gliriach ar ddiwedd yr ail chwarter.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r sefyllfa a amlinellir yn Atodiadau A a B mewn perthynas â pherfformiad ariannol yr Awdurdod hyd yma a'r alldro disgwyliedig ar gyfer 2022/23;**
- **Nodi'r crynodeb o'r cyllidebau wrth gefn ar gyfer 2022/23, fel y manylir arnynt yn Atodiad C;**
- **Nodi'r modd y caiff costau asiantaethau ac ymgynghorwyr eu monitro yn 2022/23 yn Atodiadau CH a D.**

## 9 ADRODDIAD MONITRO'R GYLLIDEB CHWARTER CYNTAF 2022/23 - CYFALAF

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer chwarter cyntaf y flwyddyn ariannol i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 mai £48.7m yw cyfanswm y Gyllideb Gyfalaf ar gyfer 2022/2023. Fe nododd y rhagwelir y bydd £6.6m wedi'i wario erbyn diwedd Chwarter 1. Mae nifer o gynlluniau Grant Cyfalaf yn y Rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2022/23, ac mae'r mwyafrif ohonynt wedi cychwyn ac yn mynd rhagddynt (mae'r rhain wedi eu hamlygu yn yr adroddiad). Aeth ymlaen i ddweud y rhagwelir tanwariant o £4.176m ar y Rhaglen Gyfalaf. Mae'r tanwariant a ragwelir yn bennaf yn ymwneud â chynlluniau lliniaru llifogydd a'r gwaith cynnal a chadw a gynlluniwyd, gwaith amgylcheddol a chynlluniau effeithlonrwydd ynni o fewn y CRT, sydd yn cael ei egluro yn yr adroddiad monitro ar gyllideb y CRT ar gyfer Ch1 sy'n eitem ar wahân ar yr Agenda. Aeth y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 ymlaen i ddweud bod angen ailddyrannu cyllid cyfatebol o £0.140m mewn perthynas â chynllun llifogydd Traeth Coch i gynlluniau ar raddfa fach er mwyn ymorol am y cynnydd disgwyliedig mewn costau.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi cynnydd y gwariant a'r derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf ar gyfer 2022/23 yn chwarter 1.**
- **Cymeradwyo ailddyrannu £0.140m o gyllid cyfatebol mewn perthynas â Thraeth Coch i gynlluniau ar raddfa fach er mwyn ymorol am y cynnydd disgwyliedig mewn costau, fel yr eglurir yn 3.1.1 yn yr adroddiad.**

## 10 MONITRO CYLLIDEB Y CYFRIF REFENIW TAI – CHWARTER 1, 2022/23

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a oedd yn nodi perfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai ar gyfer Chwarter 1 2022/2023 i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 bod y CRT wedi'i glustnodi i'w ddefnyddio ar gyfer dibenion penodol ac ni ellir trosglwyddo arian o'r cronfeydd wrth gefn i'r Gronfa Gyffredinol, ac ni ellir defnyddio'r Gronfa Gyffredinol i gyllido'r CRT. Mae gorwariant o £119k mewn perthynas â chynnal a chadw ac atgyweirio ar ddiwedd Ch1 ac mae hyn wedi'i amlygu yn yr adroddiad. Cyfeiriodd at wariant Cyfalaf y CRT a nododd bod y gyllideb ar gyfer adeiladu'r unedau newydd wedi ei leihau £4.704k fel y gwelir yn 9.2 yn yr adroddiad. Cyfeiriodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 hefyd at y tanwariant o £337k a ragwelir yn y gyllideb Gwella Perfformiad Ynni. Mae'r prosiectau gwella perfformiad ynni megis gosod paneli Solar PV yn dibynnu ar ymgynghori â'r Gweithredwr Rhwydwaith Ardal (DNO) cyn gwneud y gwaith. Mae cael y caniatâd angenrheidiol yn gallu bod yn broses hir ac mae hyn yn egluro'r oedi gyda'r gwaith.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Nodi'r sefyllfa a nodir mewn perthynas â pherfformiad ariannol y Cyfrif Refeniw Tai (CRT) ar gyfer chwarter 1 2022/23.**
- **Nodi'r alldro a ragwelir ar gyfer 2022/23.**
- **Cymeradwyo'r gostyngiad yn y gyllideb gyfalaf o £4,704k fel y nodir ym mharagraff 9.2 yn yr adroddiad.**

## 11 CYNLLUN ARIANNOL TYMOR CANOLIG 2023/24 I 2024/25

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 a oedd yn ymgorffori'r gofyniad ar y Cyngor i sefydlu system gadarn i fonitro a rheoli ei gyllideb refeniw, ac elfen allweddol o'r system honno yw Cynllun Ariannol Tymor Canolig, i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 bod hwn fel arfer yn gynllun tair blynedd ond oherwydd yr ansicrwydd bernir na fyddai rhagamcan ar gyfer 2025/26 o unrhyw werth, gan y byddai'n golygu nifer o ragdybiaethau, heb fawr neu ddim tystiolaeth i'w cefnogi. Rhoddwyd diweddariad ar Economi'r DU a strategaeth economaidd y Llywodraeth i'r Aelodau. Cyfeiriodd at y prif bwysau cyllidebol sy'n wynebu'r Cyngor yn ystod tymor y cynllun hwn fel y gwelir yn adran 5.2 yn yr adroddiad h.y. Codiadau Cyflog – cyflogau staff nad ydynt yn athrawon a chyflogau athrawon; Cyfraniadau Pensiwn Llywodraeth Leol ac Athrawon; Contractau Gwasanaeth Mawr; Costau Ynni; Cartrefi Gofal Henoed, Nyrsio, Pobl Hŷn Bregus eu Meddwl a Phreswyl; Contract Gofal Cartref; Gwasanaethau Plant ac Oedolion; Digartrefedd; Trafnidiaeth Ysgol; Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor; Costau Cyllido Cyfalaf a Chwyddiant Cyffredinol mewn Prisiau. Dywedodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 nad fyddai'r setliad dangosol o 3.6% a gyhoeddwyd ar gyfer Cymru gyfan yn ddigonol i gyllido'r pwysau cyllidebol a wynebir gan y Cyngor o ganlyniad i chwyddiant a'r cynnydd yn y galw am wasanaethau yn benodol Gofal Cymdeithasol a Digartrefedd.

Adroddodd y Cyfarwyddwr Swyddogaeth (Adnoddau) / Swyddog Adran 151 bod yr amcangyfrifiad cychwynnol yn dangos y bydd cyllideb y Cyngor yn cynyddu o £158m i oddeutu £176m, sydd yn gynnydd o 11.5%. Cyfeiriwyd at Dabl 3 yn yr adroddiad sydd yn amlygu'r effaith y bydd y newidiadau yn yr AEF a'r Dreth Gyngor yn 2023/24 yn ei gael ar Gyllid y Cyngor ac mae'n dangos na fydd cynnydd o 10% yng nghyllid Llywodraeth Cymru a'r Dreth Gyngor yn ddigonol i ariannu'r gofyniad cyllidebol a ragwelir ar gyfer 2023/24. Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor falansau cyffredinol o £11m a £23m o gronfeydd wrth gefn clustnodedig er mwyn ymorol am unrhyw gostau annisgwyl yn ystod y flwyddyn. Nododd bod gan y Cyngor y gallu i ddefnyddio balansau cyffredinol a chronfeydd wrth gefn i helpu i leihau'r bwlch cyllido, ond wrth ddefnyddio cronfeydd wrth gefn mae risgiau i'r graddau nad ydynt yn ffynhonnell incwm gylchol ac nid yw defnyddio cronfeydd wrth gefn yn dileu'r angen i bontio'r bwlch cyllido yn y tymor hir.

Dywedodd y Cynghorydd Ieuan Williams, a oedd yn y Gadair, ei fod o'r farn bod angen trefnu Sesiwn Briffio ar gyfer yr Aelodau Etholedig i drafod y Cynllun

Ariannol Tymor Canolig ac amlygu'r pwysau cyllidebol y bydd y Cyngor yn ei wynebu oherwydd yr ansicrwydd yn yr economi fyd-eang.

**PENDERFYNWYD:-**

- **bod gofyn i'r Cyngor sefydlu system gadarn i fonitro a rheoli ei gyllideb refeniw, ac elfen allweddol o'r system honno yw Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC). Mae'r cynllun yn nodi strategaeth cyllideb y Cyngor dros y ddwy flynedd nesaf ac yn nodi'r rhagdybiaethau a fydd yn cael eu cynnwys yn y broses o osod y gyllideb flynyddol;**
- **nodi cynnwys y cynllun, cymeradwyo'r rhagdybiaethau a wnaed ac ystyried sut i bontio'r bwlch cyllidol a nodir yn yr adroddiad fel rhan o'r broses ar gyfer gosod cyllideb refeniw 2023/24 fel y nodir yn Atodiad 1.**

## 12 ADRODDIAD SEFYDLOGRWYDD Y FARCHNAD RHANBARTHOL A LLEOL

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â Strategaeth y Farchnad Rhanbarthol a Lleol (Gwasanaethau Cymdeithasol) i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Oedolion bod yr adroddiad wedi cael ei ystyried gan y Pwyllgor Partneriaeth ac Adfywio ar 26 Medi, 2022 lle cafwyd trafodaeth hir ynglŷn â goblygiadau'r Strategaeth. Nododd bod y Cyngor yn wynebu heriau o ran y gwasanaethau a fydd ar gael yn y dyfodol. Dywedodd yr Aelod Portffolio bod problemau recriwtio ledled y sector gofal a'i bod hi'n anodd iawn denu pobl ifanc yn benodol i'r rolau hyn.

Adroddodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion bod Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi cyflwyno dyletswydd newydd ar awdurdodau lleol a byrddau iechyd i ddatblygu asesiadau ar y cyd ar ddigonolrwydd a sefydlogrwydd y Farchnad Gofal Cymdeithasol. Mae'r adroddiad yn galluogi'r awdurdod i ddeall y farchnad gofal cymdeithasol yng Ngogledd Cymru, fel y gall yr awdurdod gomisiynu a chefnogi darparwyr gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol i gwrdd ag anghenion y boblogaeth yn effeithiol. Fodd bynnag, rhaid i awdurdodau lleol sicrhau bod yr adroddiad sefydlogrwydd y farchnad hefyd yn cynnwys asesiad o'r farchnad ar gyfer gofal a chymorth ym mhob ardal awdurdod lleol yn ogystal ag ardal y BPRh yn ei chyfanrwydd. Bydd yr adroddiad yn llywio'r broses o wneud penderfyniadau rhanbarthol a lleol ynghylch comisiynu gofal a chymorth, gan fwydo i mewn i'r cynllun ardal strategol ar gyfer ardal y BPRh a helpu i lunio strategaethau comisiynu lleol a rhanbarthol. Nododd bod cysylltiad cryf rhwng yr Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad a'r Asesiad o Anghenion y Boblogaeth sy'n nodi'r angen a'r galw ar hyn o bryd ac a ragwelir am ofal a chymorth, ac ystod a lefel y gwasanaethau y bydd eu hangen i ateb y galw hwnnw. Bydd y dogfennau Asesiad o Anghenion y Boblogaeth a'r Asesiad Sefydlogrwydd y Farchnad yn cael eu defnyddio i gynllunio cynllun cyflawni lleol a rhanbarthol a chynlluniau datblygu gwasanaethau wrth symud ymlaen. Aeth ymlaen i adrodd bod y Gwasanaeth Gofal Cartref wedi gweld cynnydd o 33% yn y galw am wasanaeth dros y blynyddoedd diwethaf a bod disgwyl i'r galw gynyddu. Bu gostyngiad mewn darparwyr gwasanaeth gofal cartref ac mae'n peri pryder bod llai yn dewis gweithio yn y Sector Gofal, yn enwedig yn y gwasanaeth Gofal Cartref gydag oedran

cyfartalog gweithwyr Gofalwyr Cartref dros 50 oed. Aeth y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion ymlaen i ddweud bod angen cymorth anffurfiol i Ofalwyr ar yr Ynys. Dywedodd bod angen cynyddu'r ddarpariaeth arbenigol sydd ar gael ynghyd â Gofal Dementia oherwydd bod y boblogaeth yn heneiddio. Mewn perthynas â'r Gwasanaethau Plant rhaid cynyddu'r ddarpariaeth ar gyfer plant a phobl ifanc gydag anghenion cymhleth h.y. anawsterau dysgu, problemau emosiynol ac iechyd meddwl.

Yn absenoldeb Cadeirydd ac Is-gadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio, adroddodd y Rheolwr Sgriwtini bod y Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio wedi trafod yr Adroddiad Rhanbarthol a Lleol ar Sefydlogrwydd y Farchnad yn ei gyfarfod ar 26 Medi, 2022 ac ar ôl ystyried yr adroddiad a ddarparwyd gan y Swyddogion yn ystod y Cyfarfod, cyfeiriodd y Pwyllgor at yr her o recriwtio staff i'r Sector Gofal ac y dylai'r Cyngor barhau i weithio'n agos gyda'r ysgolion a'r colegau lleol i ddenu pobl ifanc i weithio yn y Sector Gofal. Nododd y Pwyllgor bod angen gweithio ar ddatrysiad cenedlaethol i gynyddu cyflogau Gweithwyr Gofal er mwyn cydnabod eu gwaith hanfodol. Mae'r Pwyllgor hefyd wedi amlygu'r her o recriwtio staff dwyieithog fel Gofalwyr Cartref ac yn enwedig mewn Cartrefi Gofal Preswyl. Cafwyd trafodaeth hefyd ar effaith y penderfyniad gan ddau awdurdod lleol cyfagos i newid y strwythur ffioedd cenedlaethol ar gyfer Cartrefi Gofal Preswyl a Nyrsio. Ar ôl trafod yr adroddiad yn fanwl penderfynodd y Pwyllgor Partneriaeth a Sgriwtini dderbyn yr adroddiad.

**PENDERFYNWYD cymeradwyo'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad ar gyfer Gogledd Cymru a'r Adroddiad ar Sefydlogrwydd y Farchnad ar gyfer Sir Fôn.**

## 13 ADRODDIAD CYNNYDD: GWELLIANNAU YM MAES GWASANAETHAU CYMDEITHASOL

Cyflwynwyd adroddiad y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol mewn perthynas â'r Adroddiad Cynnydd ar Welliannau ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Adroddodd yr Aelod Portffolio Gwasanaethau Plant bod effaith y pandemig yn dal i greu heriau ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol ledled Cymru. Nododd bod yr Awdurdod yn arwain nifer o brosiectau ac mai'r nod ydi amlygu cynlluniau ataliol yn hytrach na mesurau ymatebol.

Amlygodd y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion brif lwyddiannau'r Tîm Gwasanaethau Cymdeithasol fel y gwelir yn yr adroddiad i'r Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd Cadeirydd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol bod y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol wedi trafod yr Adroddiad Cynnydd: Cynllun Gwella'r Gwasanaethau Cymdeithasol yn ei gyfarfod ar 26 Medi, 2022 a bod y Pwyllgor wedi cadarnhau ei fod yn fodlon gyda chyflymder y cynnydd a'r gwelliannau hyd yma.

**PENDERFYNWYD derbyn yr Adroddiad Cynnydd ar Welliannau ym maes Gwasanaethau Cymdeithasol.**

**14 GWAHARDD Y WASG A'R CYHOEDD**

**PENDERFYNWYD:-**

**"O dan Adran 100 (A) (4) Deddf Llywodraeth Leol 1972, cau allan y Wasg a'r cyhoedd o'r cyfarfod yn ystod y drafodaeth ar yr eitem ganlynol ar y sail y gall olygu datgelu gwybodaeth eithriedig fel y'i diffinnir yn Atodlen 12A o'r Ddeddf honno ac yn y Prawf Budd y Cyhoedd amgaeedig."**

**15 SEFYDLU TÎM CYNLLUNIO POLISI NEWYDD AR GYFER ARDAL AWDURDOD CYNLLUNIO YNYS MÔN**

Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd mewn perthynas â sefydlu Tîm Polisi Cynllunio newydd ar gyfer awdurdod cynllunio Ynys Môn i'w ystyried gan y Pwyllgor Gwaith.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cynllunio, Gwarchod y Cyhoedd a Newid Hinsawdd bod angen sefydlu strwythur addas ar gyfer y Tîm newydd i sicrhau bod ei ddyletswyddau cynllunio polisi statudol yn cael eu cyflawni'n effeithiol, effeithlon a chadarn. Amlygodd y prif ystyriaethau a'r cyllid refeniw ychwanegol sydd ei angen i sefydlu a gweithredu Tîm Polisi Cynllunio ar gyfer Ynys Môn.

**PENDERFYNWYD:-**

- **Awdurdodi rhyddhau £69,632 o gyllid refeniw blynyddol ychwanegol, i'w rannu 50/50 rhwng balansau cyffredinol y Cyngor a chyllideb refeniw bresennol y Swyddogaeth Gynllunio, sefydlu a gweithredu Tîm Polisi Cynllunio newydd ar gyfer Ynys Môn.**
- **Dirprwyo awdurdod i'r Aelod Portffolio, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Prif Weithredwr, i awdurdodi penderfyniadau pellach mewn perthynas â sefydlu'r Tîm Polisi Cynllunio newydd.**

Daeth y cyfarfod i ben am 11.50 am

**Y CYNGHORYDD IEUAN WILLIAMS**
**CADEIRYDD AR GYFER Y CYFARFOD HWN YN UNIG**

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | Pwyllgor Gwaith |
| Dyddiad: | 25 Hydref 2022 |
| Pwnc / Testun: | Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith |
| Deilydd(ion) Portffolio: | Y Cynghorydd Llinos Medi |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro |
| Awdur yr Adroddiad: | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr / Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

Yn unol â'i Gyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r Cyngor gyhoeddi blaen raglen waith a'i diweddaru'n rheolaidd. Cyhoeddir blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn fisol er mwyn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith:

gadarnhau'r blaen raglen waith atodol ar gyfer y cyfnod **Tachwedd 2022 – Mehefin 2023;**

adnabod unrhyw faterion ar gyfer cael mewnbwn penodol ac ymgynghoriad gyda Phwyllgorau Sgriwtini'r Cyngor;

nodi bod blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei diweddaru'n fisol a'i chyflwyno fel eitem safonol yn fisol i'r Pwyllgor Gwaith.

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

-

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith cyn cyhoeddi pob diweddariad er mwyn cryfhau atebolrwydd a threfniadau blaengynllunio.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy'. |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Amherthnasol. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Amherthnasol. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | |

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn cael ei thrafod yn fisol yng nghyfarfodydd y Penaethiaid Gwasanaeth (eitem safonol ar y rhaglen). |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Dan amgylchiadau arferol, cynhelir cyd-drafodaeth yn fisol ar raglenni gwaith y Pwyllgor Gwaith a'r ddau Bwyllgor Sgriwtini, a hynny er mwyn sicrhau aliniad rhyngddynt. |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol. |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith: Tachwedd 2022 – Mehefin 2023 |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Tachwedd 2022 – Mehefin 2023

Diweddarwyd 12 Hydref 2022

Mae blaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith yn galluogi Aelodau'r Cyngor a'r cyhoedd weld pa benderfyniadau allweddol y mae'r Pwyllgor yn debygol o'u gwneud dros y misoedd i ddod.

Mae modd i benderfyniadau gweithredol gael ei gwneud gan y Pwyllgor Gwaith llawn yn gweithredu fel corff cyfunol neu gan aelodau unigol o'r Pwyllgor Gwaith yn gweithredu trwy hawliau dirprwyiedig. Mae'r blaen raglen waith yn cynnwys gwybodaeth am y penderfyniadau a geisir, pwy fydd yn gwneud y penderfyniadau a phwy yw'r Swyddogion a'r Deilyddion portffolio arweiniol ar gyfer pob eitem.

Dylid nodi, fodd bynnag, bod y blaen raglen waith yn ddogfen hyblyg, gan nad oes modd gwybod am yr holl eitemau y bydd angen penderfyniad arnynt gymaint â hyn ymlaen llaw ac efallai bydd angen newid yr amserlen ar gyfer rhai materion er mwyn cwrdd â blaenoriaethau newydd ayyb. Oherwydd hyn, fe adolygir yn rheolaidd y rhestr o eitemau sydd wedi'u cynnwys ac fe gyhoeddir diweddariad yn fisol.

Yn achlysurol, bydd angen cyflwyno adroddiadau am drafodion eiddo penodol, a hynny yn unol â Pholisi a Gweithdrefnau Rheoli Asedau. Oherwydd dylanwad y farchnad allanol, nid yw'n bosibl dynodi amseriad adroddiadau fel hyn ymlaen llaw.

Gosodir allan y fersiwn ddiweddaraf o flaen raglen waith y Pwyllgor Gwaith **– sy'n ddogfen fyw ac yn agored i newid -** ar y tudalennau dilynol.

Mae'r ddogfen hon hefyd ar gael yn Saesneg / This document is also available in English.

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Tachwedd 2022 – Mehefin 2023

Diweddarwyd 12 Hydref 2022

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Tachwedd 2022** | | | |
| 1 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2022 | |
| 2 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch2, 2022/23 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>22 Tachwedd 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2022 | |
| 3 | **Adroddiad Monitro Cyllideb Refeniw 2022/23 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>26 Hydref 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2022 | |
| 4 | **Adroddiad Monitro Cyllideb Gyfalaf 2022/23 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>26 Hydref 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Tachwedd 2022 – Mehefin 2023

Diweddarwyd 12 Hydref 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 5 | **Adroddiad Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 – Ch2 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>26 Hydref 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2022 | |
| 6 | **Sail y Dreth Gyngor 2023/24**<br><br>Pennu sail y dreth ar gyfer 2023/24. | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>26 Hydref 2022 | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2022 | |
| 7 | **Rhenti Tai y CRT a Thaliadau'r Gwasanaethau Tai 2023/24** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2022 | |
| 8 | **Polisi Grantiau Cyfleusterau Anabledd** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2022 | |
| 9 | **Cynllun Rheoli Cyrchfan** | | Rheoleiddio a Datblygu Economaidd | Christian Branch<br>Pennaeth Rheoleiddio a Datblygu Economaidd<br><br>Cyng Carwyn Jones | | Pwyllgor Gwaith<br><br>29 Tachwedd 2022 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

Tudalen 16

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Tachwedd 2022 – Mehefin 2023

Diweddarwyd 12 Hydref 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Rhagfyr 2022** | | | | | | | |
| 10 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>13 Rhagfyr 2022 | |
| **Ionawr 2023** | | | | | | | |
| 11 | **Cyllideb 2023/24 (S)**<br><br>Cwblhau cynigion cychwynnol drafft y Pwyllgor Gwaith ar gyfer ymgynghori. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid - Dyddiad i'w gadarnhau<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol - Dyddiad i'w gadarnhau | Pwyllgor Gwaith<br><br>Dyddiad i'w gadarnhau, yn amodol ar amserlen Llywodraeth Cymru. | |
| | | | | | | | |
| 12 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Ionawr 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Tachwedd 2022 – Mehefin 2023

Diweddarwyd 12 Hydref 2022

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 13 | **Cynllun y Cyngor 2023-2028** | Rhan o Fframwaith Polisi'r Cyngor – mae angen penderfyniad cyfunol er mwyn gwneud argymhelliad i'r Cyngor llawn. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>Ionawr 2023 (dyddiad i'w gadarnhau) | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Ionawr 2023 | Cyngor Llawn<br><br>dyddiad i'w gadarnhau |
| 14 | **Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg Arolygiaeth Gofal Cymru – Arolwg Gwerthuso Perfformiad** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Alun Roberts | Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol<br>12 Ionawr 2023<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>19 Ionawr 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>24 Ionawr 2023 | |
| | | | | **Chwefror 2023** | | | |
| 15 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Tachwedd 2022 – Mehefin 2023

Diweddarwyd 12 Hydref 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 16 | **Cyfrifon ac Adroddiad Blynyddol yr Ymddiriedolaeth Addysg Bellach 2021/22** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams<br>Cyng Ieuan Williams | | Pwyllgor Gwaith<br><br>14 Chwefror 2023 | |
| **Chwefror / Mawrth 2023 -** Dyddiadau'r cyfarfodydd yn amodol ar amserlen Llywodraeth Cymru | | | | | | | |
| 17 | **Monitro Cyllideb Refeniw 2022/23 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>12 Ionawr 2023 | Pwyllgor Gwaith | |
| 18 | **Monitro Cyllideb Gyfalaf 2022/23 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>12 Ionawr 2023 | Pwyllgor Gwaith | |
| 19 | **Monitro Cyllideb y Cyfrif Refeniw Tai 2022/23 – Ch3 (S)**<br><br>Adroddiad monitro ariannol chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am y sefyllfa ariannol gyfredol ar draws y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>12 Ionawr 2023 | Pwyllgor Gwaith | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Tachwedd 2022 – Mehefin 2023

Diweddarwyd 12 Hydref 2022

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 20 | **Datganiad ar Strategaeth Rheoli Trysorlys 2023/24**<br><br>Mabwysiadu strategaeth ar gyfer y flwyddyn ariannol newydd. | | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>(Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio - Chwefror 2023) | Pwyllgor Gwaith | Cyngor Llawn |
| 21 | **Gwasanaethau Gofal Cymdeithasol Di-breswyl yn y Gymuned – Ffioedd a Thaliadau 2023/24**<br><br>Cymeradwyaeth. | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Alun Roberts | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith | |
| 22 | **Cartrefi'r Awdurdod Lleol ar gyfer Pobl Hyn – Pennu Ffi Safonol 2023/24**<br><br>Cymeradwyaeth. | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Alun Roberts | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith | |
| 23 | **Ffioedd a Thaliadau 2023/24** | | Adnoddau | Marc Jones Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Tachwedd 2022 – Mehefin 2023

Diweddarwyd 12 Hydref 2022

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 24 | **Ffioedd Cartrefi Gofal y Sector Annibynnol 2023/24** | | Gwasanaethau Oedolion | Arwel Owen<br>Pennaeth Gwasanaethau Oedolion<br><br>Cyng Alun Roberts | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith | |
| 25 | **Strategaeth Ariannol Tymor Canolig a Chyllideb 2023/24 (S)**<br><br>Mabwysiadu cynigion terfynol i'w hargymell i'r Cyngor Sir. | Mae hyn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith gan ei fod yn dod o fewn Fframwaith Gyllideb y Cyngor. | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br>Dyddiad i'w gadarnhau<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith | Cyngor Llawn |
| 26 | **Strategaeth Gyfalaf a Rhaglen Gyfalaf** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith | |
| 27 | **Cyllideb Gyfalaf 2023/24** | | Adnoddau | Marc Jones<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth– Adnoddau / Swyddog Adran 151<br><br>Cyng Robin Williams | Panel Sgriwtini Cyllid<br><br>Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol | Pwyllgor Gwaith | |



** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith

## Cyfnod: Tachwedd 2022 – Mehefin 2023

Diweddarwyd 12 Hydref 2022

| | **Y pwnc a'i *gategori a**<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | **Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam** | **Gwasanaeth Arweiniol** | **Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau** | **Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol)** | **Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi** | **Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol)** |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | **Mawrth 2023** | | | |
| 28 | **Adroddiad Blynyddol ar Gydraddoldeb 2021/22** | Deilydd Portffolio Cydraddoldeb ac Amrywiaeth | Busnes y Cyngor | Lynn Ball<br>Cyfarwyddwr Swyddogaeth – Busnes y Cyngor / Swyddog Monitro<br><br>Cyng Llinos Medi | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio<br><br>15 Mawrth 2023 | Penderfyniad dirprwyiedig<br><br>Mawrth 2023 | |
| | | | | | | | |
| 29 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2023 | |
| 30 | **Cerdyn Sgôr Corfforaethol – Ch3, 2022/23 (S)**<br><br>Adroddiad monitro perfformiad chwarterol. | Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith llawn gan ei fod yn rhoi sicrwydd am berfformiad cyfredol ar draws y Cyngor. | Trawsnewid Corfforaethol | Carys Edwards<br>Pennaeth Proffesiwn – AD a Thrawsnewid<br><br>Cyng Robin Williams | Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br><br>14 Mawrth 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2023 | |
| 31 | **Cynllun Busnes y Cyfrif Refeniw Tai (CRT)** | | Tai | Ned Michael<br>Pennaeth Gwasanaethau Tai<br><br>Cyng Alun Mummery | Panel Sgriwtini Cyllid | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2023 | |

Tudalen 22

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Tachwedd 2022 – Mehefin 2023

Diweddarwyd 12 Hydref 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| 32 | **Adroddiad Cynnydd: Rhaglen Wella'r Gwasanaethau Cymdeithasol** | | Gwasanaethau Cymdeithasol | Fôn Roberts<br>Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol<br><br>Cyng Gary Pritchard<br>Cyng Alun Roberts | Panel Sgriwtini Gwasanaethau Cymdeithasol / Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol<br>14 Mawrth 2023 | Pwyllgor Gwaith<br><br>21 Mawrth 2023 | |
| | **Ebrill 2023** | | | | | | |
| 33 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>25 Ebrill 2023 | |
| | **Mai 2023** | | | | | | |
| 34 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mai 2023 | |

** Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

# Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith
## Cyfnod: Tachwedd 2022 – Mehefin 2023

Diweddarwyd 12 Hydref 2022

| | Y pwnc a'i *gategori a<br>beth yw'r penderfyniad a geisir | Penderfyniad gan pa Ddeilydd Portffolio neu, os yn benderfyniad cyfunol, pam | Gwasanaeth Arweiniol | Swyddog Cyfrifol / Aelod arweiniol a chyswllt ar gyfer cyflwyno sylwadau | Cyn penderfynu / Sgriwtini (os yn berthnasol) | Dyddiad y P. Gwaith neu, os wedi'i ddirprwyo, dyddiad cyhoeddi | Dyddiad y Cyngor Llawn (os yn berthnasol) |
|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **Mehefin 2023** | | | | | | | |
| 35 | **Blaen Raglen Waith y Pwyllgor Gwaith (S)**<br><br>Cymeradwyo diweddariad misol. | Gofynnir am gymeradwyaeth y Pwyllgor Gwaith llawn er mwyn cryfhau blaen gynllunio ac atebolrwydd. | Busnes y Cyngor | Rhys H Hughes<br>Dirprwy Brif Weithredwr (a Phennaeth Gwasanaethau Democrataidd dros dro)<br><br>Cyng Llinos Medi | | Pwyllgor Gwaith<br><br>Mehefin 2023 | |

Tudalen 24

*Allwedd:*
*S = Strategol – cynlluniau neu fentrau corfforaethol allweddol*
*G = Gweithredol – darparu gwasanaethau*
*ErG = Er gwybodaeth*

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **25 Hydref 2022** |
| Pwnc / Testun: | **Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2021/22 Drafft** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Y Cynghorydd Robin W Williams** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Carys Edwards** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | **Gethin Morgan**<br>01248 752111<br>Gethinmorgan@Ynysmon.Gov.Uk |
| Aelodau Lleol: | Amherthnasol |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**1** Yn unol a'r cyfansoddiad, mae'n ofynnol i'r cyngor lunio a chyhoeddi Adroddiad Perfformiad Blynyddol. Mae'r ddogfen hon yn ddogfen sydd yn dadansoddi perfformiad dros y flwyddyn ariannol flaenorol yn erbyn y gwelliannau a'r blaenoriaethau amlinellwyd gan y Cyngor.

**2** Mae'r papur hwn yn amlinellu ein Hadroddiad Perfformiad sy'n edrych yn ôl dros berfformiad y Cyngor ar gyfer 2021/22.

**3** Mae'n ddiweddariad ar gynnydd y cyngor yn erbyn -

- Dogfen Cyflawni Flynyddol ar gyfer 2020-22
- Cynllun Trosiannol 22/23.

**4** Gofynir i'r Pwyllgor felly:

**Cytuno cynnwys yr Adroddiad Perfformiad 2021/22 fel adlewyrchiad teg a chyflawn o waith yr Awdurdod dros y cyfnod hynny ac argymell i'r Cygor Sir yn ei gyfarfod Hydref 27ain, 2022 y dylid ei fabwysiadu felly.**

## B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn?

Amherthnasol

## C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?

Amherthnasol

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydi |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r Adroddiad Perfformiad Blynyddol yn rhoi cipolwg ar y gwaith a wnaed gan y Cyngor dros y flwyddyn ariannol ddiwethaf yn ogystal â pherfformiad DPA yn erbyn Dogfen Gyflenwi Flynyddol y Cyngor ar gyfer 2020-22, Cynllun Trosiannol 2022/23 ac Cynllun y Cyngor.<br><br>Mae'r 3 amcan lleisant, isod, yn ystyried anghenion tymor hir yr Ynys<br><br>1. Sicrhau bod pobl Ynys Môn yn gallu ffynnu a chyflawni eu potensial tymor hir<br>2. Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus er mwyn eu cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosibl<br>3. Gweithio gyda'n cymunedau er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau tra'n gwarchod ein hamgylchedd naturiol |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Amherthnasol gan mai adroddiad o waith a fu ydyw. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Amh. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael | Ymgynghorwyd â thrigolion Ynys Môn cyn drafftio Cynllun y Cyngor yn 2017 |

| | | |
|---|---|---|
| | effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amh. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amh. |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Amh. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Ystyriwyd y mater hwn gan yr UDA ac adlewyrchir eu sylwadau yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Sylwadau wedi ymgyffori yn yr adroddiad |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | |
| 9 | Aelodau Lleol | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Adroddiad Perfformiad 2021/22 - Drafft |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| Dogfen Cyflawni Blynyddol 2020-22<br>Cynllun Trosiannol 2022-23<br>Cynllun y Cyngor 2017-22 |




# Adroddiad Perfformiad Blynyddol 2021/22

## Cyflwyniad

Croeso i Adroddiad Perfformiad Blynyddol cyntaf y cyngor newydd ers Etholiadau Lleol Mai 2022. Hoffwn gymryd y cyfle hwn i ddiolch ichi am roi eich ffydd ynom unwaith eto i barhau ar y gwaith da yr ydym eisoes wedi'i wneud yn ystod y pum mlynedd diwethaf ac yr ydym yn bwriadu ei barhau hyd at etholiadau Mai 2027.

Yr adroddiad hwn hefyd yw'r cyntaf i Dylan Williams, y Prif Weithredwr newydd, sydd wedi arwain gwaith y cyngor ers cael ei benodi ym mis Mawrth 2022. Hoffwn ddymuno'r gorau iddo yn ei rôl newydd gan adeiladu ar ei rôl flaenorol fel y Dirprwy Brif Weithredwr.

Hoffwn ddiolch i Annwen Morgan, y Prif Weithredwr blaenorol, am ei gwaith caled yn ystod cyfnod yr adroddiad hwn. Roedd hyn yn cynnwys arwain yr Ynys a staff y cyngor drwy'r pandemig coronafeirws byd-eang, gan sicrhau bod trigolion Ynys Môn yn cael eu hamddiffyn cystal â phosibl a bod gwasanaethau hanfodol yn parhau i gael eu rhedeg yn ystod cyfnod mor anodd. Dymunwn yn dda iddi yn ei hymddeoliad.

Tudalen 29

Mae'n bwysig nodi ar ddechrau'r adroddiad hwn pa mor ddiolchgar wyf i'r holl staff a sefydliadau partner a sicrhaodd lwyddiant gwasanaethau'r cyngor i bobl Ynys Môn yn ystod y flwyddyn.

Mae hi'n wych gweld faint o waith sydd wedi'i gwblhau yn ystod y flwyddyn er gwaethaf cysgod y pandemig coronafeirws a'r pwysau ychwanegol a roddodd hyn ar y cyngor o ran cymorth parhaus i drigolion a busnesau lleol.

Mae'r adroddiad perfformiad blynyddol hwn yn rhoi trosolwg o weithgareddau'r cyngor yn ystod 2021/22 ac yn nodi'r hyn a wnaeth y cyngor yn ystod y flwyddyn yn erbyn yr hyn a nodwyd yn y Ddogfen Gyflawni Flynyddol ar gyfer 2020-22. Mae hefyd yn adrodd ar yr hyn y mae'r Cyngor wedi'i gyflawni hyd at ddiwedd mis Awst yn erbyn unrhyw waith arfaethedig ar y Cynllun Trosiannol ar gyfer 2022-23.

Byddwch hefyd yn gweld yn yr adroddiad pa mor dda y mae'r dangosyddion perfformiad a nodwyd wedi perfformio yn erbyn yr amcanion llesiant a hefyd pa ddangosyddion y mae angen mwy o waith arnynt yn y flwyddyn i ddod. Ar y cyfan, credaf fod y cyngor wedi perfformio'n anhygoel o dda.

Rwyf i a'm cyd-Aelodau o'r Pwyllgor Gwaith a Chynghorwyr wedi ymrwymo i barhau â'r daith lwyddiannus hon.


Drwy gydweithio fel y gwnaethon ni, yn enwedig dros y ddwy flynedd ddiwethaf, gallwn barhau i wneud gwahaniaeth cadarnhaol i fywydau pobl.


DRAFT

## Uchafbwyntiau Allweddol

Mae rhai o'r uchafbwyntiau allweddol ar gyfer perfformiad eleni i'w gweld isod. I gael gwybodaeth am sut rydym yn monitro perfformiad gweler Atodiad 1:

Tudalen 30




## Canlyniadau Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2021/22




Tudalen 31

## Dangosyddion Perfformiad Allweddol 2021/22

## Perfformiad Blwyddyn ar Flwyddyn



DRAFT

## Datblygiad yn erbyn ffrydiau gwaith y Cynllun Trosiannol a'r Ddogfen Cyflawni Flynyddol

Mae diweddariadau yn erbyn pob blaenoriaeth allweddol ar gyfer gweithgareddau'r Cynllun Trosiannol a'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol a gwblhawyd cyn y newid mewn blaenoriaethau yn cael eu trafod yn yr adran nesaf o'r adroddiad. Sylwch fod y diweddariadau yn erbyn y Cynllun Trosiannol yn adroddiadau cynnydd hyd at ddiwedd mis Awst gan fod y cynllun yn ei le tan Ebrill 2023.

### Cynllun Trosiannol

Mae adroddiadau cynnydd yn erbyn y camau allweddol a gymerwyd ar y cynllun gwaith presennol i'w gweld isod:

#### A. Adfywio'r economi leol ac ymgorffori newidiadau economaidd positif

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | CAG |
|---|---|---|
| 1. Adeiladu 6 uned fusnes newydd ym **Mharc Busnes Bryn Cefni (Tregarnedd), Llangefni** a pharatoi 6 plot ychwanegol i'w gwerthu ar y farchnad agored. | Bryn Cefni, Llangefni<br>1. Gwaith yn mynd rhagddo<br>2. Disgwylir trosglwyddo'r Asedau ym mis Awst 2022 | Melyn |
| Adeiladu 7 uned fusnes newydd ym **Mhenrhos yng Nghaergybi** (ar y cyd â Llywodraeth Cymru) | Penrhos, Caergybi<br>Mae'r gwaith wedi cychwyn ac yn datblygu'n amserol | Melyn |
| 2. Cryfhau rôl **Caergybi a'r Porthladd** fel 'Porth' Rhyngwladol Allweddol drwy weithio gyda phartneriaid i gyflawni pob math o brosiectau, yn cynnwys: | a) Trafodaethau'n parhau a'n presenoldeb mewn cyfarfodydd perthnasol yn ôl y galw er mwyn trafod y ffordd ymlaen a sicrhau'r llwyddiant o ddenu'r buddsoddiad i Ynys Môn<br>b) Yn gysylltiedig â chanlyniad pwynt a | Oren |
| | c) Mae'r cais Hwb Hydrogen yn datblygu. | Melyn |

| | | |
|---|---|---|
| a. Atgyweirio'r Morglawdd<br>b. Datblygu'r Porthladd yn cynnwys adennill tir<br>c. Hwb Hydrogen Caergybi<br>d. Gwelliannau i'r orsaf | d) Cwblhaodd Network Rail eu gwaith uwchraddio gwerth £2.4m ar gyfer yr Sied Drenau ym mis Mehefin 2022. Mae gwelliannau wedi'u cynllunio o dan gynllun y Porth Ymwelwyr yn 2022/23.<br><br>Mae Uwchgynllun Gorsaf reilffordd a ariennir gan LlC yn cael ei baratoi ac mae'r Cyngor Sir wedi cael cais gan NR/TfW i barhau i drefnu cyfarfodydd grŵp rhanddeiliaid yn rheolaidd. | |
| 3. Cyflawni'r prosiectau a nodwyd yng Nghynllun Gweithredu **Adfywio Economaidd Gogledd Ynys Môn**, yn cynnwys:<br>a. Cronfa Grant Busnesau Bach a Grwpiau Cymunedol Gogledd Ynys Môn<br>b. Strategaeth Arwyddion **Porth Amlwch**<br>c. Cyflwyno cynnig cysyniad ar gyfer tir parc y Gymdeithas (a adwaenid yn y gorffennol fel tir Ymddiriedolaeth Elusennol Ynys Môn ym **Mhorth Amlwch**)<br>d. Parhau i ymchwilio i gyfleoedd i ddarparu unedau busnes newydd<br><br>Newydd – | a) Wedi'i gwblhau'n llwyddiannus. £75k wedi ei ddyrannu i 12 sefydliad | |
| | b) £87,000 o arian NDA wedi ei ddefnyddio i ariannu cynlluniau e.e. Strategaeth Arwyddion Amlwch tuag at Porth Amlwch | |
| | c) Dylunio cysyniadol wedi'i gwblhau ar gyfer darn o dir ym Mhorth Amlwch sy'n berchen i'r Gymdeithas. | |
| | d) Mae'r gwaith hwn wedi cychwyn ac mae tir addas wedi ei glustnodi a phenseiri wedi eu comisiynu. | |
| | e) Hwb MonCF newydd wedi agor mis Ebrill 2022 | |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| e. Hwb newydd MonCF Gogledd Ynys Môn yng nghanol tref **Amlwch** | | |
| 4. Cefnogi **Bargen Twf Gogledd Cymru** (prosbectws adfer) i gefnogi'r meysydd blaenoriaeth i helpu i adfer ein economi yn y tymor byr | Parhau i eistedd ar Fyrddau Rhaglenni amrywiol y Bid Twf a darparu cymorth technegol ar y prosiectau, er mwyn sicrhau buddion lleol i'r Ynys. | |
| 5. Sefydlu **Awdurdod Iechyg Porthladd** i gyflawni cyfrifoldebau a gwiriadau rheoli ffiniau | Ym mis Ebrill 2022, cyhoeddodd Llywodraeth y DU ei phenderfyniad i ohirio cyflwyno gwiriadau tollau a ffiniau newydd tan ddiwedd 2023. Mae hyn wedi effeithio'n uniongyrchol ar yr angen i'r Cyngor sefydlu Tîm Iechyd Porthladdoedd newydd.<br><br>Er gwaethaf yr oedi, mae Rheolwr Iechyd Porthladd wedi'i benodi ac mae'n parhau i ymgysylltu â DEFRA a Llywodraeth Cymru i sicrhau bod y Cyngor yn barod ac yn cael adnoddau i ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau newydd a neilltuir iddo. | |
| 6. Parhau i gyflawni adferiad gwyrdd, cynaliadwy a gwneud **Canol Trefi'n** llefydd mwy bywiog a hyfyw<br>a. Archwilio canol trefi yn Ynys Môn i ddod o hyd i welliannau posib<br>b. Mynd i'r afael ag adeiladu gwag a phroblemus<br>c. Datblygu a chyflawni prosiectau tirweddu a phlannu coed | Gwaith gwaelodlin wedi'i gwblhau a'i ddefnyddio i gefnogi ceisiadau PMG (Cronfa Creu Lleoedd) ac Gronfa Codi'r Gwastad. | |
| | Mae arian wedi'i glustondi a cynlluniau PMG wedi'u cwblhau ac eithrio Canolfan Glanhwfa a Chlwb Cymdeithasol Biwmares (ar y gweill) & Plas Alltran (allan i dendr).<br><br>Cyllid ychwanegol wedi'I gymeradwyo ar gyfer 20+ o brosiectau Partneriaeth Tirwedd Ynys Cybi. | |
| | Cyllid CRF wedi ei gymeradwyo ym mis Rhagfyr 2021. Arolwg coed yn cael ei gynnal ledled y sir a gwaith gwaelodlin strategol Seilwaith Gwyrdd ar y gweill, sydd bellach i'w gwblhau erbyn Hydref 2022. | |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| 7. Parhau i symud y **Rhaglen Ynys Ynni** yn ei blaen<br>a. Ymgysylltu a dylanwadu ar y posibilrwydd o ddatblygu gorsaf bŵer niwclear newydd yn Wylfa<br>b. Gweithio gyda datblygwyr prosiectau mawr i sicrhau bod cynigion yn cyflawni buddion lleol, a lliniaru unrhyw effeithiau negyddol<br>c. Adolygu a diweddaru pwrpas ac amcanion rhaglenni fel eu bod wedi eu halinio'n well â'r gofynion ac ymrwymiadau ym mholisi hinsawdd ac ynni Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru | a. Ymateb yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Materion Cymreig i'r oblygiadau capasiti'r grid ar y sector ynni yng Nghymru.<br>- Cynhaliwyd sawl ymweliad o fewn y cyfnod gan gynnwys ymweliad a thrafodaeth gyda Greg Hands, y Gweinidog Gwladol (Yr Adran Busnes, Ynni a Strategaeth Ddiwydiannol). Cymerodd y Cyngor ran lawn yn y cyfarfodydd hyn er mwyn codi proffil Ynys Ynni.<br><br>- Cyfarfodydd rheolaidd yn y dyddiadur gyda BEIS er mwyn cael y wybodaeth ddiweddaraf am gynigion niwclear newydd yn Wylfa<br><br>-Swyddogion a'r Dirprwy Arweinydd wedi mynychu cyfarfod Nuleaf yng Ngwlad yr Haf a chynrychioli'r Cyngor. | |
| | b. Gwaith yn mynd rhagddo gyda datblygwyr prosiectau mawr.<br>- Morlais –symud ymlaen i'r cyfnod adeiladu<br>- Fferm SolarTraffwll DNS – cais wedi ei dderbyn gan PEDW ac yn symud ymlaen I'r rhan nesaf o'r archwilio. Mae'r Cyngor wedi cyflwyno Adroddiad Effaith Leol (LIR) a chytuno ar Ddatganiad o Dir Cyffredin (SoCG) gyda'r ymgeisydd. Mae'r Cyngor yn parhau i gynghori ynghylch cynigion Budd Cymunedol.<br>- Fferm Solar Porth Wen – yr holl amodau cyn cychwyn wedi eu rhyddhau gan y Cyngor fel yr Awdurdod Cynllunio Lleol<br><br>Nifer o PPAs newydd yn cael eu trafod a'u cytuno i sicrhau bod gan Ynys Ynni ddigon o gapasiti ac adnoddau i ymateb i'r galw am ddatblygiad mawr | |
| | c. Adroddiad Terfynol Adolygu Ynys Ynni wedi'i dderbyn gan Arup a'r canfyddiadau wedi eu hadlewyrchu yn Strategaeth Newid Hinsawdd y Cyngor a Chynllun y Cyngor. | |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| 8. Datblygu a mynd ar drywydd cymorth drwy **Gronfa Codi'r Gwastad ac Adfer Cymunedau Llywodraeth y DU** | Gwaith ar y gweill gyda phartneriaid cyflawni i ddatblygu cynlluniau. Derbyniwyd 16 mynegiant o ddiddordeb ar gyfer y gronfa Adfer Cymunedau a'u hasesu<br><br>Asesiadau o'r mynegiant o ddiddordeb ar gyfer y gronfa Codi'r Gwastad wedi'i gwblhau a chytundeb gan y Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cais ar gyfer adfywio Caergybi. | |
| 9. Gweithio gyda **busnesau lleol** i'w grymuso a'u galluogi i fanteisio ar y cyfleoedd sydd ar gael drwy gontractau'r Cyngor drwy broses gaffael ddiwygiedig | Deialog barhaus gyda Busnes Cymru, Menter Môn ac MSParc mewn perthynas â'u trafodaethau a'u cefnogaeth i fusnesau ar Ynys Môn. | |
| 10. Parhau i ddarparu **grantiau Llywodraeth Cymru** i fusnesau | Dechreuwyd ar y gwaith o weinyddu'r grantiau a chafwyd cymorth Menter Môn efo'r gweinyddu, oherwydd maint y gwaith. | |

## B. Galluogi'r sector ymwelwyr a lletygarwch i fanteisio ar boblogrwydd cynyddol yr Ynys ac amddiffyn ein hasedau a'n cymunedau ar yr un pryd

| **Camau Gweithredu Allweddol /** ***Key Actions*** | **Diweddariad** ***Update*** | **CAG /** ***RAG*** |
|---|---|---|
| **1.** Paratoi Cynllun **Rheoli Cyrchfan** ac **AHNE (Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol)** newydd | Gwaith yn datblygu parthed y ddau gynllun gyda'r bwriad o weld y cynlluniau yn mynd gerbron y Pwyllgor Gwaith yn ystod tymor y gaeaf | |

| | | |
|---|---|---|
| 2. Buddsoddi i wella ansawdd Parc Gwledig Morglawdd Caergybi, Nant y Pandy a’r seilwaith morol er budd a mwynhad trigolion lleol ac ymwelwyr | Cychwynodd y cytundebau ar 18fed o Orffennaf ac mae cynnydd cyson wedi'i wneud. Mae'r dyddiad cwblhau bellach wedi ei newid i’r 2il Rhagfyr 2022.<br>Gwaith wedi cychwyn mewn cydweithrediad â’r Gwasanaeth Priffyrdd<br>Mae’r gwaith i sefydlu’r pyllau wedi’i gwblhau ond nid ydynt yn cadw dŵr. Wrthi’n trafod ail-sefydlu’r pyllau ac opsiynau eraill.<br><br>Llwybr bordiau- gwaith cynnal a chadw rheolaidd oherwydd dirywiad a fandaliaeth<br>Wedi apwyntio ymgynghorwyr Ramboll i wneud y gwaith paratoi ar gyfer y prosiect<br>Gwaith heb gychwyn ond yn ystyried defnyddio ymgynghorywyr i gynorthwyo | |
| 3. Croesawu 4**0+ o longau pleser** i Ynys Môn / Gogledd Cymru yn ystod y tymor yn 2022<br><br>4. Cyflwyno mân welliannau i’r seilwaith ymwelwyr mewn lleoliadau poblogaidd i **wella profiad trigolion ac ymwelwyr**, yn ogystal â dylanwadu’n bositif ar ymddygiad ymwelwyr | Y gwaith wedi datblygu’n dda gydag arian CRF wedi’I ddefnyddio i hyfforddi 17 tywyswyr teithiau. Yn parhau i gydweithio efo LLC | |
| 5. Sefydlu rhaglen waith **Beicio Hamdden a Theithio Llesol** ar gyfer Ynys Môn | Y gwaith ymgynghori a cyflwyno I Lywodraeth Cymru am sel-bendith wedi’i gwblhau yn amserol. | |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| 6. Newid y ffordd yr ydym ni'n gweithio gyda thrigolion a chymunedau trwy godi ymwybyddiaeth a buddsoddi mewn **Cynllunio Lle** er mwyn i gymunedau fod yn fwy gwydn | Gwaith mapio wedi'i gwblhau ar draws yr holl wardiau.<br><br>Dechreuwyd ar y gwaith o grynhoi ac amlygu'r dystiolaeth a gasglwyd.<br><br>O ganlyniad i'r newidiadau ward, mae cynghrair Llifon bellach wedi rhannu'n 2 Gynghrair, sef Bro Llynnoedd a Chrigyll.<br><br>Mae cynghrair Lligwy wedi cytuno ar ei blaenoriaethau.<br><br>Mae cynghrair Aethwy ar hyn o bryd yn ymgynghori gyda'r gymuned ynglŷn â'i blaenoriaethau. | |

## C. Cynnal a moderneiddio gwasanaethau cymunedol critigol megis Gofal ac Addysg ledled yr Ynys

| Camau Gweithredu Allweddol / | Diweddariad | CAG |
|---|---|---|
| Sicrhau ein bod yn lleihau'r angen am **lety argyfwng a dros dro** trwy ddod o hyd i **gartrefi parhaol** i unigolion sy'n byw mewn llety dros dro ar hyn o bryd | Mae gennym 49 o aelwydydd mewn llety argyfwng<br><br>Yn ystod Chwarter 4 2021/22 roedd 25 o aelwydydd wedi symud i dy cymdeithasol neu breifat | |
| Paratoi a mabwysiadu **Cynllun Newid Hinsawdd** i amddiffyn cenedlaethau'r dyfodol a chymunedau | Mae Cynllun Tuag at Sero Net 2022 – 2025 wedi'i fabwysiadu gan y Cyngor ar 10 Mawrth. | |
| Adeiladu 83 o **gartrefi ynni effeithiol newydd** â graddfa perfformiad ynni A yn unol â'n Strategaeth Carbon Isel i gwrdd â'r galw'n lleol a sicrhau bod unigolion yn ein cymunedau cael cyfle i fyw mewn cartref fforddiadwy ar draws pob math o ddeiliadaeth i gwrdd â'u hanghenion tai | Hyd at 13.9.22<br><br>• 34 o dai newydd wedi cwblhau 16 o dai newydd ar safle<br>• 61 o dai newydd ar y gweill (mynd drwy'r broses cynllunio)<br>• 39 o dai newydd ar fin cychwyn (wedi cael eu cymeradwyo)<br>• 5 tŷ ar fin cwblhau (cyn tai Cyngor)<br>• 13 o gyn tai Cyngor yn cael eu hadnewyddu<br>• 7 o dai i'w adnewyddu ar y gweill - contract yn cael ei baratoi<br>• 5 o cyn dai Cyngor wedi prynu | |

DRAFT

| | | |
|---|---|---|
| Datblygu **Cartrefi Clyd** Ynys Môn ymhellach yn **Rhosybol, Caergybi a Llangristiolus** gyda'r bwriad o ddarparu gwasanaeth **gofal seibiant a Gofal Dydd i blant gydag anableddau** | Cartref Clyd Caergybi – cofrestriad Arolygaeth Gofal Cymru (AGC) wedi ei ganiatáu. Rhaglen drosglwyddo yn cychwyn. Mae staff wedi eu recriwtio.<br>Haulfryn, Llangristiolus – mae cynlluniau cychwynnol wedi eu tendro ar GwerthwchiGymru<br>Cartref Clyd Rhosybol – Rhaglen waith wedi cychwyn ac i fod i ddod i ben erbyn mis Medi.<br>Cofrestriad AGC i'w gyflwyno | |
| Bwrw ymlaen â'r cyfleuster **Gofal Ychwanegol** yn Ne'r ynys | Datblygiadau yn parhau o ran cynnydd darpariaeth Gofal Ychwanegol newydd ym Mhorthaethwy.<br>- Penseiri, Peiriannydd a Syrfëwr Meintiau wedi'u penodi. | |
| Adolygu ac ail-gomisiynu'r **ddarpariaeth Gofal Dydd ar gyfer Oedolion gydag Anableddau Dysgu** | • Mae'r fanyleb ar gyfer trefniadau cytundebol newydd wedi'i drafftio ac yn cael ei hadolygu<br>• Trafodaethau gyda chaffael mewn perthynas â thempledi tendro<br>• Gwaith pellach ar y gweill i ddatblygu a chynyddu cyfleoedd yn y gymuned<br>• Cwblhawyd buddsoddiad mewn cyfleusterau hygyrch yn ardal Caergybi a Llangefni. Mae cais grant pellach wedi'i gyflwyno ar gyfer Amlwch. | |
| Adolygu ac ail-gomisiynu'r **ddarpariaeth Llety Cymorth ar gyfer Oedolion gydag Anableddau Dysgu** | • Yn dilyn adolygiad People2, mae gwaith cychwynnol wedi ei gwblhau ar ddadansoddi data mewnol (cynlluniau gofal a chytundebau)<br>• Bydd angen ailasesu pob prosiect byw â chymorth gan gynnwys gofal a rennir yn barod ar gyfer gweithdrefnau ail-dendro.<br>• Seydlwyd grŵp prosiect i roi ffrydiau gwaith ar waith i'w datblygu. | |
| Bwrw ymlaen â'r cyfleusterau **ysgol gynradd newydd yn Llangefni** | • Tir wedi'i brynu<br>• Cymeradwyaeth Llywodraeth Cymru o'r Achos Busnes Llawn wedi'i dderbyn<br>• Cynllunio yn ei le<br><br>Dechrau'r gwaith adeiladu diwedd 2022 / dechrau 2023 a chwblhau erbyn Awst 2024 | |

DRAFT

## Dogfen Cyflawni Blynyddol

Isod mae canlyniadau rhai o'r gweithgareddau a gyflawnwyd gan y cyngor a oedd yn flaenoriaethau o dan y Ddogfen Gyflawni Flynyddol cyn i'r Cynllun Trosiannol ei ddisodli fel ein cynllun gwaith

### 1. Amcan Llesiant 1 - Sicrhau y gall pobl ynys môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | CAG |
|---|---|---|
| Parhau i gefnogi ein **hysgolion** i ddatblygu fel **sefydliadau sy'n dysgu**, gan sicrhau amgylcheddau dysgu cynhwysol, a hyrwyddo'r dysgu a'r addysgu gorau posib ar gyfer pob dysgwr | Yn cael ei weithredu ar hyn o bryd | |
| Darparu'r **Strategaeth Atal corfforaethol** i sicrhau bod disgyblion a phobl ifanc yn ffynnu ac yn gwireddu eu potensial hirdymor | Wedi'i gwblhau | |
| Ymdrechu i gynyddu'r ansawdd a'r nifer o bobl sy'n ymgeisio am rolau **arweinyddiaeth yn ein hysgolion** | Yn cael ei weithredu ar hyn o bryd | |
| Darparu cyfleoedd i breswylwyr ac ymwelwyr gymryd rhan a defnyddio cyfleusterau hamdden trwy weithredu **Cynllun Adfer Môn Actif** pan fydd yn ddiogel gwneud hynny | Wedi'i gwblhau a Chanolfannau Hamdden yn ôl yn gweithredu fel arfer | |
| Datblygu **strategaeth iechyd meddwl ar gyfer ysgolion** fel bod ystyriaethau Iechyd a Lles wedi'u hintegreiddio'n llawn ym mhob ysgol | Wedi'i gwblhau | |
| Adeiladu ar y **gronfa o wirfoddolwyr** sydd wedi'i sefydlu yn ein cymunedau ers y pandemig ac yn ceisio sefydlu mwy o **gynlluniau tro da yn ein cymunedau** | Wedi'i gwblhau - Medrwn Môn oedd yn arwain y fenter hon drwy gydol y pandemig coronafeirws. Maent yn parhau i adeiladu ar y sylfaen gwirfoddolwyr. | |
| Adolygu ein ffyrdd o ymgysylltu â'n **tenantiaid** i sicrhau bod **llais y cwsmer yn cael ei glywed** wrth gynllunio'r gwasanaethau a gynigir i'n tenantiaid | Wedi'i gwblhau | |
| Gweithio gyda Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sefydliadau'r 3ydd Sector, Cyngor ar Bopeth a chyrff eraill i sefydlu **menter Bwyd Da Môn** ar gyfer trigolion Ynys Môn er mwyn ceisio mynd i'r afael â thlodi bwyd a lleihau faint o wastraff bwyd sy'n mynd i safleoedd tirlenwi | Wedi'i gwblhau | |

DRAFT

## 2. Amcan Llesiant 2 - cefnogi oedolion a theuluoedd bregus fel eu bod yn gallu bod yn ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | CAG |
|---|---|---|
| Cynyddu lefelau cyfranogiad yn y **modelau hybiau cymunedol** trwy hyrwyddo a datblygu'r hybiau a gynhelir ledled yr Ynys | Yn cael ei weithredu ar hyn o bryd | |
| Datblygu'r **rhaglen Cysylltu Bywydau** i gefnogi pobl sy'n byw gyda Dementia a gwella gofal seibiant i ofalwyr | Wedi'i gwblhau | |
| Parhau i wreiddio'r 3 **Thîm Adnoddau Cymunedol**, a leolir yn **Amlwch, Ysbyty Penrhos Stanley a Llanfairpwll**, a fydd yn dod â staff y Cyngor a staff Betsi Cadwaladr ynghyd i wella mynediad i'n gwasanaethau gofal a chymorth cyn gynted ag y bo modd. | Wedi'i gwblhau | |
| Parhau i **recriwtio gofalwyr maeth** yn Ynys Môn fel y gall Plant sy'n Derbyn Gofal barhau i fyw yn eu cymunedau pan na all eu rhieni ofalu amdanynt | Rydym wedi cyflawni yn erbyn y targed a osodwyd ar gyfer y flwyddyn. Mae angen i ni barhau i recriwtio mwy o ofalwyr maeth er mwyn diwallu anghenion poblogaeth Plant sy'n Derbyn Gofal Ynys Môn | |
| Datblygu **gwasanaethau seibiant** ymhellach **ar gyfer plant anabl a'u teuluoedd** | Wedi'i gwblhau | |
| Ymgeisio am gyllid grant allanol i gefnogi cynlluniau i ddatblygu **hen safle Ysgol Llaingoch, Caergybi**, ar gyfer **adeiladu cartrefi newydd** | Wedi'i gwblhau | |
| Cwblhau'r gwaith i alluogi tenantiaid i gysylltu'n ddigidol trwy gyflwyno **system Gwasanaethau Digidol** a fydd yn caniatáu i denantiaid gyfathrebu â ni yn ddigidol, gan gynnwys ar gyfer rhoi gwybod am unrhyw faterion gofal cwsmer, gwaith gofal a thrwsio, i dalu rhent a chyflwyno unrhyw gwynion am ein stadau. | Wedi'i gwblhau | |

DRAFT

## 3. Amcan Llesiant 3 - Gweithio mewn partneriaeth gyda'n cymunedau i sicrhau y gallant ymdopi'n effeithiol gyda newid a datblygiadau tra'n diogelu ein hamgylchedd naturiol

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | CAG |
|---|---|---|
| Darparu **pwyntiau gwefru cerbydau trydan ar safle Parcio a Theithio Llanfairpwll** yn ogystal â nodi safleoedd addas eraill ar gyfer y cyfleusterau hyn ledled yr ynys | Wedi'i gwblhau – Pwyntiau gwefru cerbydau trydan ym maes Parcio a Theithio Llanfairpwll yn ogystal â safleoedd eraill ar draws yr Ynys | |
| Parhau â'n bwriad a'n cyflawniad o ran sicrhau bod dros **70% o'r holl wastraff cartref yn cael ei ailgylchu erbyn 2025** sydd, yn ei dro, yn golygu nad oes angen i wastraff fynd i safleoedd tirlenwi | Mae cyfraddau ailgylchu tua 62.5% ar ddiwedd y flwyddyn 2021/22. Gweler tudalen 24 am fwy o wybodaeth | |
| Datblygu ac yn gweithio ar **gynlluniau lliniaru llifogydd** mewn safleoedd yn **Nwyran, Amlwch, Caergybi, Porthaethwy, Llanfairpwll, Y Fali a Thraeth Coch**, yn ogystal â chydweithio gyda Chyfoeth Naturiol Cymru ar gynllun lliniaru llifogydd **Llangefni** | Wedi'i gwblhau | |
| Parhau i gymell a chefnogi'r swyddogaethau **Tai, Gwarchod y Cyhoedd a Hamdden** a chefnogi staff i wneud y **defnydd mwyaf posib o'r Gymraeg** yn ogystal â pharhau i ddatblygu sgiliau iaith Gymraeg staff sy'n gallu siarad Cymraeg | Wedi'i gwblhau – Gweler Adroddiad Blynyddol Safonau'r Iaith Gymraeg | |
| Gwneud paratoadau ac yn aildendro'r **contract prydau ysgol** ar draws yr ynys gan sicrhau bod bwydlen iach a maethlon yn barod erbyn Medi 2021 | Wedi'i gwblhau | |
| Parhau i symud ymlaen â'r rhaglen buddsoddiadau cyfalaf tymor hir i wella hyblygrwydd defnydd ac apêl **Canolfannau Hamdden** y Cyngor Sir yn ogystal â datblygu cynlluniau ar gyfer cae **3G newydd yng Nghaergybi** | Wedi cyflwyno caeau 3G newydd yn ogystal â champfeydd ar eu newydd wedd yn Amlwch a David Hughes | |
| Parhau ar ein taith ddigidol trwy hwyluso darpariaeth hunanwasanaeth ar-lein sy'n caniatáu i ddinasyddion ofyn, adrodd a thalu am wasanaethau ar amser sy'n gyfleus iddynt o unrhyw leoliad, dyfais neu sianel ddigidol trwy ddatblygu ein **System Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid** ymhellach a gostwng nifer y ffurflenni sydd ar gael ar bapur yn unig | System CRM newydd wedi'i phrynu ac yn cael ei rhoi ar waith ar hyn o bryd gan TGCh | |

DRAFT

| Camau Gweithredu Allweddol | Diweddariad | CAG |
|---|---|---|
| Dechrau gweithredu **Porth Cwsmeriaid y Gwasanaeth Refeniw** i roi gwasanaeth hwylus ac o ansawdd uchel i gwsmeriaid a fydd yn cynnig cyfleusterau hunanwasanaeth ac yn cynorthwyo gyda biliau electronig | Wedi'i ohirio nes bydd y System CRM newydd yn cael ei rhoi ar waith | |
| Sicrhau bod athrawon a disgyblion yn gallu cael mynediad i **wasanaethau ar-lein cyflymach** trwy gynyddu'r cyflymder lawrlwytho band llydan i 300Mb /e yn ein **hysgolion uwchradd** | Wedi'i gwblhau | |
| Cynyddu'r **gymhareb cyfrifiaduron i ddisgyblion** mewn ysgolion trwy ddefnyddio'r **grant HWB** gan Lywodraeth Cymru | Wedi'i gwblhau | |
| Newid hen gerbydau fflyd y Cyngor am **gerbydau trydan neu LPG** mwy newydd lle bo hynny'n briodol ac yn nodi safleoedd Cyngor lle gellir gosod **Pwyntiau Gwefru Cerbydau Trydan** | Wedi'i gwblhau | |

Gwyrdd = Cwblhawyd, Melyn = Yn unol â'r cynllun, Oren = Ar ei hôl hi, ond mae camau lliniaru a nodwyd yn golygu bod modd dal i fyny, Coch = Wedi methu yn erbyn yr amserlen. Angen arweiniad gan y Bwrdd Rhaglen neu'r Tîm Arwain ynghylch y ffordd ymlaen



DRAFT

## Canlyniadau Rheoli Perfformiad

Mae monitro perfformiad y DPA yn parhau i fod wedi eu halinio â thri amcan llesiant strategol y Cyngor fel y mae allbynnau'r gwaith cysylltiedig uchod:

- Amcan Llesiant 1 – Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir
- Amcan Llesiant 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i'w cadw'n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib
- Amcan Llesiant 3 - Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, wrth amddiffyn ein hamgylchedd naturiol

Cytunwyd ar dargedau ar gyfer y flwyddyn yn seiliedig ar berfformiad y flwyddyn flaenorol ac effaith y pandemig Covid-19. Mae'n galonogol nodi bod mwyafrif (92%) y dangosyddion sy'n cael eu monitro ar draws yr adran wedi perfformio'n dda yn erbyn eu targedau (Gwyrdd neu Felyn). Nodir rhai o'r uchafbwyntiau isod.

Ar ddiwedd y flwyddyn mae'r Cyngor yn WYRDD yn erbyn ei darged rheoli absenoldebau staff gyda 8.73 diwrnod wedi'i golli oherwydd absenoldeb am bob Cyfnod Amser Llawn (CALl) yn erbyn targed o 8.75 diwrnod wedi'i golli oherwydd absenoldeb am bob CALl.

Nid yw'r dangosyddion sy'n cael eu monitro ar hyn o bryd o fewn yr adran Gwasanaeth Cwsmer yn amlygu unrhyw bryderon, ac ar y cyfan, yn parhau i berfformio'n dda yn erbyn eu targedau. Yr unig ddangosydd sy'n tanberfformio yn erbyn ei darged yw cyfanswm % yr ymatebion ysgrifenedig i gwynion o fewn 15 diwrnod (Gwasanaethau Cymdeithasol) - gyda pherfformiad o 66% yn erbyn targed o 80%. Mae natur gymhleth y cwynion hyn yn aml iawn yn golygu cyfraniad aml asiantaethol ac mae llwyddo i alinio'r wybodaeth cyn pen 15 diwrnod yn her reolaidd. Mae'n galonogol bod 39 allan o'r 41 o gwynion a dderbyniwyd yn ystod y chwarter wedi cael eu trafod gyda'r achwynydd cyn pen 5 diwrnod, ac roedd 7 o'r 13 ymateb ysgrifenedig a anfonwyd yn hwyr wedi'u cytuno â'r achwynydd cyn canfod eu bod yn hwyr, fel y nodwyd yn y protocol cwynion.

Mae gwaith wedi dechrau ac yn parhau o ran gwella bodlonrwydd y cwsmer ar draws gwasanaethau am y flwyddyn i ddod.

Mae'r adran rheoli cyllid yn darogan tanwariant o £4.688m ar hyn o bryd, ar gyfer y flwyddyn a fydd yn dod i ben ar 31 Mawrth 2022. Mae blwyddyn ariannol 2021/22 wedi bod yn flwyddyn gwahanol ac mae'r Cyngor wedi derbyn llawer iawn o gyllid ychwanegol gan Lywodraeth Cymru i ddelio gyda'r pandemig a'r cyfnod adfer. Y cyllid ychwanegol hwn yw'r prif reswm pam bod tanwariant sylweddol yng nghyfrifon y Cyngor ar ddiwedd y flwyddyn ariannol. Nid yw hyn yn unigryw i Ynys Môn ac mae mwyafrif y Cynghorau eraill yng Nghymru mewn sefyllfa debyg.

DRAFT

Mae'r sefyllfa alldro derfynol wedi caniatáu i'r Cyngor gynyddu balansau cyffredinol y Cyngor a chronfeydd wrth gefn a glustnodwyd, a hynny ar ôl caniatáu y defnydd o £3.5m o falansau cyffredinol ar nifer o brosiectau. Bydd lefel y balansau cyffredinol yn dal i fod yn uwch na'r lefel isaf a argymhellir ac yn rhoi'r Cyngor mewn sefyllfa ariannol gref.

Mae’r cynnydd cyfredol mewn tâl a phrisiau yn golygu bod llawer iawn o ansicrwydd ynghylch costau’r Cyngor yn 2022/23 a’r cyllid a fydd ei angen yn 2023/24.

Mae tanwariant ar y Rhaglen Cyfalaf ar gyfer 2021/22 yn £33.457m. Mae £11.242m o’r tanwariant hyn oherwydd llithriad a bydd yn cael ei ddwyn ymlaen i Raglen Gyfalaf 2022/23. Bydd y cyllid ar gyfer hyn hefyd yn cael ei ddwyn ymlaen i 2022/23. Y gyllideb gyfalaf ddiwygiedig ar gyfer 2022/23 yw £47.203m.

Mae’r canlyniadau cyffredinol yn dangos y gellir rhoi sicrwydd rhesymol bod gweithgareddau dydd i ddydd y Cyngor yn cyflawni yn erbyn y disgwyliadau o ran rheoli ei bobl, ei gyllid a gwasanaethu ei gwsmeriaid. Mae’n galonogol hefyd nodi bod staff yr Awdurdod, yn ystod cyfnod llawn heriau, yn cyflawni yn erbyn eu disgwyliadau, a hynny i safon briodol.

Er bod y data yma’n rhoi darlun cadarnhaol o berfformiad y Cyngor Sir ac yn gallu dangos bod safonau priodol yn cael eu bodloni, mae hefyd yn galonogol nodi bod mwyafrif (91%) y dangosyddion perfformiad penodol o fewn yr adranhon yn perfformio’n uwch na’u targed neu o fewn 5% i’w targed.

Mae hyn yn welliant ar y perfformiad a welwyd ar ddiwedd 2020/21.

DRAFT

## Amcan Llesiant 1 – Sicrhau y gall pobl Ynys Môn ffynnu a gwireddu eu potensial tymor hir




Mae'r dangosyddion a gafodd eu monitro yn erbyn **Amcan Llesiant 1** wedi perfformio'n dda ac yn uwch na'r targed ac yn Wyrdd ar gyfer y cyfnod.

Mae rhai enghreifftiau o'r perfformiad da a welwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff

Gwyrdd

84%

Canran cleientiaid NERS yr oedd eu hiechyd wedi gwella wrth gwblhau'r rhaglen ymarfer corff – a chanddo lefel berfformiad o 84% yn erbyn targed o 80%. Mae hyn yn gadarnhaol iawn gan y cafodd y cynllun ei atal y llynedd o ganlyniad i'r pandemig, a dyma'r tro cyntaf i gleientiaid gwblhau'r rhaglen ers ei hailddechrau.

DRAFT

Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u adfer i ddefnydd

Gwyrdd

**91 eiddo**

Nifer o eiddo preifat gwag wedi'u hadfer i ddefnydd - sydd bellach yn gyfanswm o 91 eiddo sydd wedi'u hadfer i ddefnydd yn erbyn targed blynyddol o 50. Mae'n galonogol nodi bod y perfformiad yma yn sylweddol uwch (82% yn uwch) na'r targed o 50 eiddo am y flwyddyn. Unwaith eto, mae defnyddio Premiwm y Dreth Gyngor wedi profi i fod yn fuddiol yma, ac mae'n gadarnhaol bod 91 yn llai o eiddo gwag o fewn ein cymunedau.

Nid oedd yn bosib casglu gwybodaeth am bresenoldeb yr ysgolion cynradd ac uwchradd (dangosydd 1 a 2) yn yr un modd ag arfer eleni oherwydd y pandemig Covid. Fodd bynnag mae Llywodraeth Cymru wedi bod yn casglu pob math o ffigurau yn ystod y flwyddyn i fesur absenoldebau. O'r ffigurau a gasglwyd gan Lywodraeth Cymru, ar gyfartaledd roedd 86.5% o ddisgyblion (o ysgolion cynradd ac uwchradd) yn yr ysgol yn ystod wythnos olaf tymor y gaeaf (Ebrill 4ydd -8fed). Mae hyn ychydig yn uwch na chyfartaledd Cymru.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru.

Nid oes gwybodaeth ar gael ar gyfer y dangosyddion canlynol –

Canran y disgyblion a aseswyd yn y Gymraeg ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen – ni chynhaliwyd asesiadau yn ystod 2020/21 oherwydd pandemig y coronafeirws;


Canran y Dangosyddion Ansawdd (â thargedau) a gyflawnwyd gan y gwasanaeth llyfrgelloedd - cafodd yr asesiadau eu haddasu ar gyfer y flwyddyn i sicrhau bod gwasanaethau'n adrodd ar y gwasanaethau a ddarparwyd yn hytrach na'r targedau a osodwyd a oedd yn anymarferol oherwydd pandemig y coronafeirws;

Canran y tenantiaid sy'n fodlon gyda gwaith atgyweirio ymatebol (blynyddol) – mae'r oedi o ran y gwaith gosod meddalwedd wedi effeithio ar ein gallu i weithredu elfen boddhad tenantiaid y feddalwedd yn ystod 2021/22.

DRAFT

## Amcan Llesiant 2 – Cefnogi oedolion a theuluoedd bregus i’w cadw’n ddiogel, yn iach ac mor annibynnol â phosib

Mae perfformiad yn erbyn y dangosyddion ar gyfer **Amcan Llesiant 2** yn dangos perfformiad da unwaith eto. Dim ond tri ddangosydd (20%) sydd yn Felyn tra bo 11 dangosydd (73%) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau.




Mae rhai enghreifftiau o’r perfformiad da a welwyd yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

Canran y teuluoedd a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref

**80.95%** Gwyrdd

Canran y teuluoedd (gyda plant) a ataliwyd yn llwyddiannus rhag mynd yn ddigartref

**92%** Gwyrdd

Mae’r dangosyddion Digartrefedd ar gyfer y Gwasanaethau Tai wedi dangos perfformiad da hefyd, gyda’r ddau’n Wyrdd yn erbyn eu targed. Bu defnyddio cyllid Llywodraeth Cymru’n hanfodol o ran caniatáu i hyn ddigwydd, yn ogystal ag ymrwymiad staff i sicrhau bod ein pobl yn cael eu hatal rhag bod yn ddigartref.

Mae pob un o ddangosyddion y Gwasanaethau Oedolion yn Wyrdd yn erbyn eu targed. Ar adeg pan fu'r Gwasanaeth o dan bwysau o ganlyniad i'r pandemig, mae hyn yn galonogol ac yn argoeli'n dda ar gyfer 2022/23.

| Canran yr ymholiadau ynghylch amddiffyn oedolion a gwblhawyd o fewn terfynau amser statudol | Canran yr oedolion a gwblhaodd gyfnod ailalluogi ac sydd â phecyn gofal a chymorth llai o faint chwe mis yn ddiweddarach | Cyfradd y bobl hŷn (65 mlwydd oed neu hŷn) y mae'r awdurdod yn eu cefnogi mewn cartrefi gofal fesul 1,000 o'r boblogaeth 65 oed neu hŷn ar 31 Mawrth [Dangosydd Lleol] | Canran y rhai sy'n ofalwyr i oedolion a ofynnodd am asesiad neu adolygiad ac a gafodd asesiad neu adolygiad iddyn nhw eu hunain yn ystod y flwyddyn |
|---|---|---|---|
| Gwyrdd 94.78% | Gwyrdd 64.85% | Gwyrdd 14.33 | Gwyrdd 96.10% |

Nodir gennym fod un dangosydd wedi dirywio yn erbyn targed am y flwyddyn –

Tudalen 49


Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn yn AMBR gyda pherfformiad o 318 diwrnod yn erbyn targed o 270 diwrnod. Roedd perfformiad fymryn yn well chwarter yn erbyn chwarter am y ddwy chwarter olaf, fodd bynnag mae'n waeth na'r 258 diwrnod a adroddwyd ar ddiwedd 2020/21.

Roedd 14 o blant (o gyfanswm o 48 ar y gofrestr) sydd wedi bod ar y gofrestr am fwy na 7 mis. Roedd yr achosion hyn yn gymhleth o ran eu natur ac mae llawer o'r plant hyn yn destun yr Amlinelliad Cyfraith Gyhoeddus, tra bo'r gweddill yn cael eu trafod yn rheolaidd mewn Cyfarfodydd Porth Cyfreithiol. O ran pob achos sy'n cyflawni'r meini prawf llym ar gyfer eu tynnu oddi ar y gofrestr, fe gawsant eu tynnu o oddi ar y gofrestr, neu bydd hynny'n digwydd pan fo'n briodol i wneud hynny.

| Cyfanswm yr amseroedd (mewn diwrnodau) a dreuliodd pob plentyn ar y CPR os cafodd ei dynnu oddi ar y CPR yn ystod y flwyddyn |
|---|
| Ambr 318 Diwrnod |

DRAFT

## Amcan Llesiant 3 - Gweithio mewn partneriaeth â'n cymunedau i sicrhau eu bod yn gallu ymdopi'n effeithiol â newid a datblygiadau, wrth amddiffyn ein hamgylchedd naturiol




Roedd ein perfformiad yn erbyn y dangosyddion **Amcan Llesiant 3**, hefyd yn dangos cynnydd da yn ystod y flwyddyn. O'r deg dangosydd â thargedau dim ond dau (20%) oedd yn tanberfformio yn erbyn eu targedau blynyddol.

Mae'r dangosyddion sydd wedi perfformio'n dda yn ystod y flwyddyn yn cynnwys:

Mae tri o'r dangosyddion rheoli gwastraff (dangosydd 31,33 a 34) wedi perfformio'n dda yn erbyn y targedau ystod y flwyddyn. Roedd 95.5% o'r strydoedd a arolygwyd yn ystod y flwyddyn yn lân ac mae'n galonogol nodi bod achosion o dipio anghyfreithlon yn cael eu clirio o fewn 0.25 diwrnod.

Canran y strydoedd sy'n lân

Gwyrdd

95.5%

Nifer cyfartalog y dyddiau gwaith a gymerwyd i glirio digwyddiadau tipio anghyfreithlon

Gwyrdd

0.25 Diwrnod

DRAFT

Roedd trigolion wedi cynhyrchu llai o wastraff gweddilliol na'r targed a osodwyd ar gyfer y flwyddyn. Fodd bynnag maent wedi cynhyrchu ychydig bach mwy o wastraff, 223kg y pen o'i gymharu â 214kg y pen yn 2020/21. Mae'n hanfodol bod trigolion yn cynorthwyo i gynhyrchu llai o wastraff gweddilliol ac ailgylchu mwy os ydym am gyrraedd y targed i ailgylchu 70% o wastraff yr Ynys erbyn 2025

| Cilogramau y gwastraff gweddilliol a eneradir fesul person |
| --- |
| Gwyrdd 233kg |

Roedd y tri dangosydd priffyrdd sy'n ymwneud ag Arolygon cyflwr ffyrdd A, B ac C yr Ynys (dangosyddion 38 – 40) yn Wyrdd yn erbyn eu targedau ac maent yn dangos gwelliant o'i gymharu â 2020/21. Mae'r gwelliant mwyaf i'w weld yng nghyflwr ein ffyrdd A lle mai dim ond 3% oedd mewn cyflwr gwael yn 2021/22 o gymharu â 4.6% yn 2020/21

| Canran y prif ffyrdd A sydd mewn cyflwr gwael | Canran y ffyrdd B sydd mewn cyflwr gwael | Canran y ffyrdd C sydd mewn cyflwr gwael |
| --- | --- | --- |
| Gwyrdd 3.0% | Gwyrdd 2.8% | Gwyrdd 8.2% |

Nodwn bod dau ddangosydd yn tanberfformio yn erbyn eu targedau ac maent wedi'u hamlygu'n Goch neu'n Ambr.

Canran y gwastraff a gafodd ei ailddefnyddio, ailgylchu neu gompostio yn goch gyda pherfformiad o 62.39% yn erbyn targed uchelgeisiol lleol o 70% a targed statudol cenedlaethol o 64% ar gyfer y flwyddyn.

Canran y gwastraff wedi'u ailddefnyddio, ailgylchu a chompostio

Coch

62.39%

Mae'r perfformiad hwn fymryn yn is na'r 62.96% a welwyd ar ddiwedd 2020/21 ac yn lleihad pellach wrth gymharu a perfformiad a gostyngiad pellach o gymharu â pherfformiad blynyddoedd blaenorol (67.26% yn 2019/20, 69.86% yn 2018/19 a 72.2% yn 2017/18).

Dros 12 mis yn ôl mynegodd y swyddogion a'r aelodau etholedig bryderon o ran cyrraedd y targedau dros dro a thymor hwy (70% erbyn 2024/25). Am y rheswm hwn, cafodd WRAP Cymru eu gwahodd i gynorthwyo'r Cyngor i ddadansoddi ei berfformiad gweithredol a gwneud argymhellion i'w helpu i gyrraedd y targedau gofynnol. **Bydd WRAP Cymru'n ymweld â'r Ynys i gynnal asesiadau ymarferol a rhannu canlyniadau yn ystod 2022/23.**

**Bydd cyrraedd y targed statudol cenedlaethol o 70% erbyn 2024/25 yn cael ei oruchwylio gan grŵp llywio penodol.**

Roedd y canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd yn goch gyda 50% yn erbyn targed o 65%.

Prosesodd y Cyngor 886 o geisiadau cynllunio yn ystod 2021/22. I'r cyd-destun, mae'r mesur hwn yn ymwneud â 10 apêl yn unig a wnaed yn ystod y flwyddyn.

Mae'r dangosydd hwn yn ymdrin â niferoedd bach iawn ac mae'r tanberfformiad o ganlyniad i gadarnhau 5 allan o 10 apêl cynllunio. Dylid nodi nad yw penderfyniadau apêl yn cael eu gwneud gan yr awdurdod cynllunio lleol.

**Byddwn yn parhau i fonitro penderfyniadau apêl yn ymwneud â cheisiadau tebyg i geisio canfod unrhyw batrymau sy'n datblygu lle dylem ailedrych ar ein dehongliad o'n polisïau cynllunio lleol.**

Canran yr apeliadau cynllunio a wrthodwyd


Coch

50%

DRAFT

## Perfformiad Cyffredinol

Dengys ein lefelau perfformiad o'r naill flwyddyn i'r llall ar gyfer yr holl ddangosyddion cyffelyb (cyfanswm o 30) bod 18 (60%) wedi gwella yn ystod y flwyddyn, 10 (33%) wedi gostwng a 2 (7%) wedi cynnal eu lefelau perfformiad.




DRAFT



Ar y cyfan mewn blwyddyn anodd arall, mae'n galonogol adrodd bod 75% o'r dangosyddion i fonitro yr Amcanion Llesiant yn Wyrdd yn erbyn y targed ar gyfer y flwyddyn



# Atodiad 1

## Sut mae'r cyngor yn mesur ac yn dadansoddi perfformiad

**Beth yw Rheoli Perfformiad?**

Mae Rheoli Perfformiad yn broses lle mae'r cyngor a'i staff yn cydweithio i gynllunio, monitro ac adolygu'r blaenoriaethau corfforaethol trwy amcanion corfforaethol, amcanion gwasanaeth ac amcanion unigol, o fewn yr adnoddau a ddyrannwyd. Gyda staff yn cael eu hailgyfeirio a'u hail-ddyrannu i weithio'n uniongyrchol ar faterion yn ymwneud â'r pandemig yn ystod y flwyddyn, roedd rheoli perfformiad yn her a mabwysiadwyd agwedd bragmatig trwy arweinyddiaeth yr Arweinydd a'r Prif Weithredwr.

**Cynllun y Cyngor**

Mae Cynllun y Cyngor wedi nodi Nodau ac Amcanion strategol y Cyngor ar gyfer y tymor etholiadol. Mae'n llywio'r broses gwneud penderfyniadau ar bob lefel yn y Cyngor.

Mae'n llywio'r broses gwneud penderfyniadau ar bob lefel yn y Cyngor ac yn:

- gosod y fframwaith y mae'r cyngor yn ei ddefnyddio i gynllunio, gyrru a darparu gwasanaethau
- dylanwadu ar y ffordd y mae'r cyngor yn llunio'r gyllideb yn flynyddol, a
- helpu i fonitro cynnydd ac asesu'r hyn y mae'r cyngor yn ei gyflawni'n flynyddol.

**Sut a phryd y caiff ei fonitro?**

Cyflawnir amcanion llesiant y Cyngor drwy wireddu'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol a'r Cynllun Trosiannol dilynol. Fel arfer, caiff y Ddogfen Gyflawni Flynyddol ei chreu ar ddechrau pob blwyddyn ariannol ac mae'n nodi'r meysydd blaenoriaeth allweddol, fel yr amlinellwyd yng Nghynllun y Cyngor, y bydd y cyngor yn canolbwyntio ar eu gwireddu yn ystod y 12 mis nesaf. Datblygwyd y Cynllun Trosiannol ar gyfer 2022-23 fel cynllun adfer yn dilyn y pandemig coronafeirws a'r angen dilynol i ail-werthuso'r blaenoriaethau ar gyfer y flwyddyn a disodli blaenoriaethau'r Ddogfen Gyflawni Flynyddol o fis Ionawr 2022.

Cawsant eu monitro trwy amrywiaeth o sianeli gwahanol, gan gynnwys:

- Byrddau Rhaglen Trawsnewid Chwarterol;
- Adroddiad Cerdyn Sgorio Corfforaethol Chwarterol; a
- Adolygiadau Gwasanaeth Blynyddol

DRAFT

Mae adroddiadau sy'n defnyddio gwybodaeth o'r ffynonellau hyn yna'n cael eu hystyried gan y swyddogaeth sgriwtini corfforaethol ac yna gan y Pwyllgor Gwaith. Mae hyn yn sicrhau bod pob aelod yn ymwybodol o'r cynnydd y mae'r cyngor yn ei wneud yn erbyn y blaenoriaethau.

**Byrddau Rhaglen Trawsnewid**

Mae gan y Byrddau Rhaglen gylch gwaith i fonitro a llywio cynnydd ar Raglenni a Phrosiectau Newid cysylltiedig gan roi hyder i Aelodau etholedig ac Uwch Arweinwyr bod y buddion a ragwelir i'r Cyngor a chymunedau yn cael eu gwireddu ac mae sicrhau cyflymder newid yn allweddol.

**Adolygiadau Gwasanaeth**

Disgwylir i bob Gwasanaeth gynnal dau Adolygiad Gwasanaeth y flwyddyn a gynhelir ac a reolir yn gorfforaethol:

1. Adolygiad Gwasanaeth Ariannol

   Ymgymerwyd â rhagfynegi arbedion gwasanaeth a gwaith trawsnewid y gellir ei ddefnyddio i gynorthwyo'r broses o osod cyllideb flynyddol y Cyngor.

2. Adolygiad Gwasanaeth Perfformiad a Risg

   Ceisiadau i wasanaethau gwblhau hunanasesiad gwasanaeth i nodi sut mae'r Gwasanaethau yn perfformio yn erbyn amcanion allweddol. Fe'i defnyddir i roi sicrwydd i'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth a'r Pwyllgor Gwaith bod cyfeiriad y gwasanaeth yn cyd-fynd â chyfeiriad ehangach y Cyngor a bod adnoddau'n cael eu defnyddio'n effeithiol.

**Cerdyn Sgorio Corfforaethol**

Mae'r cerdyn sgorio corfforaethol yn nodi'r cynnydd yn erbyn dangosyddion allweddol sy'n dangos gweithrediad llwyddiannus gweithgareddau o ddydd i ddydd y Cyngor yn glir. Mae'n helpu i ddarparu'r sylfaen dystiolaeth o ddangosyddion sy'n cael ei defnyddio i ddrafftio'r adroddiad perfformiad blynyddol. Mae'n portreadu sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol.

Mae adroddiad monitro'r cerdyn sgorio chwarterol yn amlinellu camau lliniaru y mae'r Tîm Arweinyddiaeth Strategol wedi'u nodi i ysgogi a sicrhau gwelliannau. Mae'r adroddiad hwn yn cael ei graffu gan y Pwyllgor Sgriwtini a'r Pwyllgor Gwaith lle gellir cael sicrwydd bod perfformiad ar draws gwasanaethau yn cael ei reoli'n effeithiol.

DRAFT

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **25.10.22** |
| Pwnc / Testun: | **Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Y Cynghorydd Ieuan Williams** |
| Cyfarwyddwr: | **Marc B. Hughes** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | **Angharad Fflur Jones, Rheolwr Perfformaid a Busnes Y Gwasanaeth Dysgu.**<br>**01248 752 341**<br>**Angharadjones@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Perthnasol i'r Holl Aelodau Etholedig** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**Argymhelliad**

Bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r Cynllun Gweithredu Ôl - Arolwg Estyn, ac yn derbyn sicrwydd bod y cynllun yma yn ymateb i argymhellion o'r arolwg Estyn mewn modd rhesymol ac amserol.

**Cefndir**

Ym mis Mehefin eleni cafodd Awdurdod Lleol Ynys Môn  ei harolygu gan Estyn, sef Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru.
Cafodd yr arolwg ei gynnal rhwng yr 6ed a 10fed o Fehefin, a'r adroddiad ei gyhoeddi ar yr 22ail o Orffennaf 2022.  Roedd yr arolwg yn edrych ar deilliannau, addysgu a dysgu ac arweinyddiaeth a rheolaeth, ac yn adnabod llwyddiannau ac unrhyw feysydd i'w gwella.

Roedd yr adroddiad yn un gadarnhaol. Nodwyd bod ansawdd ac effeithiolrwydd cadarn arweinwyr y Gwasanaeth Dysgu o fewn yr Awdurdod Addysg ar Ynys Môn yn cyfrannu'n effeithiol iawn tuag at sicrhau gwasanaethau addysg o safon uchel. Cafodd ei hadnabod bod ethos a meddylfryd 'Tîm Môn' lle mae cydweithio a chyfraniad pawb yn cael ei werthfawrogi, ei feithrin a'i ddefnyddio er budd plant a phobl ifanc yr ynys.

Cafodd dau faes eu hadnabod fel meysydd o ymarfer da. Mae'r Gwasanaeth Dysgu yn paratoi astudiaethau achos ar y gwaith cydlynus yma o:

- warchod a gwella lles dysgwyr a
- cryfhau'r Gymraeg

Cafodd dau faes eu nodi fel meysydd lle roedd angen gwella, nodwyd rhain fel argymhellion:

1. Cryfhau prosesau ar gyfer gwerthuso effaith gwaith y Gwasanaeth Dysgu
2. Datblygu a chryfhau trefniadau craffu ffurfiol

Er nad yn ofyn statudol gan Estyn, mae'r argymhellion o'r adroddiad wedi cael eu coladu i fewn i Gynllun Gweithredu Ôl - Arolwg. Mae'r Cynllun yma eisoes wedi cael ei gyflwyno i'r Panel Sgriwtini Addysg ar yr 22ain o Fedi ac i'r Tîm Arweinyddiaeth ar y 3ydd o Hydref.

Fe fydd y cynllun yma yn rhan o'r Cynllun Darparu Gwasanaeth ar gyfer y Gwasanaeth Dysgu ac yn cael ei fonitro yn chwarterol. Fe fydd cynnydd ac unrhyw heriau yn cael eu hadrodd yn rheolaidd I'r Deilydd Portffolio, yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth y Gwasanaeth Dysgu a'r Panel Sgriwtini Addysg.

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Amherthnasol |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae hwn yn fater i'r Pwyllgor Gwaith er mwyn cynnig sicrwydd bod y Gwasanaeth Dysgu yn ymateb i argymhellion arolwg Estyn. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydy |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Ydy |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae'r cynllun yn sicrhau ein bod yn ymateb i argymhellion fydd yn arwain at welliannau o fewn gwasanaethau addysg Ynys Môn. |

| | | |
|---|---|---|
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Drwy wella addysg, fe all hyn sicrhau bod plant a phobl ifanc yn cael gwell cyfleon i gyflawni eu llawn potensial. |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Amherthnasol |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Fel rhan o'r arolwg roedd Estyn yn ymgynghori gydag ystod eang o randdeilwyr gan gynnwys penaethiaid, llywodraethwyr, rhieni a phlant a phobl ifanc. |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Amherthnasol |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Amherthnasol |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Fe fydd yr adroddiadau achos yn cael eu cyflwyno i Estyn a fydd yn eu cyhoeddi ar ei gwefan. |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? Beth oedd eu sylwadau? | | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Wedi cyflwyno i'r Tîm Arweinyddiaeth, sylwadau wedi eu derbyn gan y Prif Weithredwr a'r Cynllun wedi ei addasu yn dilyn derbyn yr sylwadau. |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 9 | Panel Craffu Addysg<br>Tim Arweinyddiaeth | |

| F - Atodiadau: |
|---|
| • Cynllun Gweithredu Ôl-Arolwg<br>• Cyflwyniad Arolwg Estyn Cyngor Sir Ynys Môn<br>• Adroddiad ar Awdurdod Lleol Ynys Môn - Estyn |

| Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth): |
|---|
| |

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Awdurdod Lleol Ynys Môn
Y Gwasnaeth Dysgu
Swyddfeydd y Cyngor
Llangefni
Ynys Môn
LL77 7TW

**Dyddiad yr arolygiad: Mehefin 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Awdurdod Lleol Ynys Môn

Mae gan Gyngor Sir Ynys Môn gyfanswm poblogaeth o tua 70,000. Mae'r awdurdod lleol yn cynnal 45 o ysgolion prif ffrwd. Mae 40 o ysgolion cynradd a phum ysgol uwchradd. Mae'r awdurdod lleol hefyd yn cynnal un ysgol arbennig. Dechreuodd y Prif Weithredwr ar ei swydd ym mis Mawrth 2022 a phenodwyd y Cyfarwyddwr Addysg, Sgiliau a Phobl Ifanc yn Medi 2019. Mae arweinydd y cyngor wedi bod yn ei rôl ers 2017 a dechreuodd prif ddeilydd portffolio'r Gwasanaethau Dysgu ar y swydd hon ym mis Mai 2022. Cynhaliwyd arolygiad diwethaf yr awdurdod lleol yn 2012. Mae Cyngor Sir Ynys Môn yn un o chwe awdurdod lleol o fewn consortiwm rhanbarthol GwE, sy'n cefnogi gwelliant i'w hysgolion. Yn 2021-2022, mae cyllideb addysg net y Cyngor tua £69,500,000. Y gyllideb ysgol ddirprwyedig fesul disgybl yn 2021-2022 yw £5,022 sy'n uwch na'r cyfartaledd yng Nghymru. Mae arolygwyr yn ystyried ystod eang o wybodaeth am y boblogaeth leol wrth werthuso canlyniadau ac ansawdd gwasanaethau addysg. Maent yn ystyried y wybodaeth hon ochr yn ochr â gwybodaeth am y boblogaeth genedlaethol. Dyma rai o'r wybodaeth fwyaf defnyddiol am blant a phobl ifanc Ynys Môn:

- Dros gyfartaledd tair blynedd, mae 17% o ddisgyblion 5 i 15 oed yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 20%
- Mae 45% o ddisgyblion 5 oed a throsodd yn rhugl yn y Gymraeg, sy'n uwch na chyfartaledd Cymru o 16%
- Mae 4% o ddisgyblion 5 oed a throsodd yn dod o leiafrifoedd ethnig, sy'n is na chyfartaledd Cymru o 12%
- Mae gan 23% o ddisgyblion anghenion addysgol arbennig (AAA), sy'n uwch na chyfartaledd Cymru, sef 20%. (Sylwch fod y data hwn o fis Ionawr 2021, cyn newidiadau i'r ffordd y dyrennir darpariaeth AAA)
- Roedd 121 o blant fesul 10,000 yn derbyn gofal gan yr awdurdod lleol yn 2021

## Crynodeb

Mae ansawdd ac effeithiolrwydd cadarn arweinwyr y Gwasanaeth Dysgu o fewn awdurdod Ynys Môn yn cyfrannu'n effeithiol iawn tuag at sicrhau gwasanaethau addysg o safon uchel. Maent yn gosod disgwyliadau uchel, yn arwain timau'n effeithiol ac yn cydweithio'n dda i yrru blaenoriaethau strategol. Maent wedi datblygu ethos a meddylfryd 'Tîm Môn' lle mae cydweithio a chyfraniad pawb yn cael ei werthfawrogi, ei feithrin a'i ddefnyddio er budd plant a phobl ifanc yr ynys.

Mae'r modd y mae arweinwyr, swyddogion ac adrannau gwahanol yr awdurdod yn ystyried y tymor hir ac yn gweithio yn agos iawn gydag ysgolion a phartneriaid allanol a'i gilydd yn nodwedd gref. Cyfranna hyn yn sylweddol at welliannau amlwg yn y ddarpariaeth, er enghraifft wrth sicrhau profiadau integredig i ddysgwyr mewn perygl o ymddieithrio; cefnogaeth i ddysgwyr bregus; sefydlu hybiau mewn ysgolion a gwella dealltwriaeth ymarferwyr o effaith trawma a phrofiadau niweidiol mewn plentyndod ar gyflawniad a lles disgyblion.

Mae addysg yn flaenoriaeth uchel yn y Cyngor. Mae gweledigaeth glir ynglŷn â gwella ansawdd addysg ac mae cyllidebau addysg wedi eu gwarchod rhag toriadau o gymharu ag adrannau eraill o fewn yr awdurdod. Mae gan arweinwyr a thimau oddi fewn y Gwasanaeth Dysgu ddealltwriaeth gadarn o'r hyn y mae angen iddynt ei gyflawni. Drwy brosesau hunanwerthuso agored, rheolaidd a thrylwyr, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r ddarpariaeth addysg ac yn adnabod yn synhwyrol y cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Er hyn, mae lle i gryfhau'r defnydd a wna'r awdurdod o'r wybodaeth hon er mwyn arfarnu effaith rhai o'u gweithgareddau.

Mae arweinwyr, gan gynnwys aelodau etholedig yn barod i gymryd penderfyniadau anodd ac amserol gan newid a mireinio cynlluniau a blaenoriaethau fel mae amgylchiadau'n gofyn.  Er enghraifft, wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â moderneiddio ysgolion neu wrth ymateb i argyfwng pandemig COVID-19. Mae trefniadau craffu a sgriwtini yn eu lle, serch hynny mae lle eu cryfhau er mwyn cynnig gwell adnabyddiaeth ac atebolrwydd cyhoeddus am effeithiolrwydd y ddarpariaeth addysg.

Mae'r cydweithio buddiol sy'n bodoli rhwng yr awdurdod a'r gwasanaeth effeithiolrwydd a gwella ysgolion gogledd Cymru (GwE) yn cyfrannu'n dda er mwyn sicrhau bod ganddynt adnabyddiaeth gadarn o anghenion ysgolion. Gyda'i gilydd rhoddant gefnogaeth dda i ysgolion Môn wella ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth.

Mae'r gwaith i gryfhau darpariaeth cyfrwng Cymraeg yn mynd rhagddo, gyda nifer o elfennau, fel y gefnogaeth i hwyrddyfodiaid, yn arfer dda yn yr awdurdod.

## Argymhellion

R1 Cryfhau prosesau ar gyfer gwerthuso effaith gwaith y Gwasanaeth Dysgu

R2 Datblygu a chryfhau trefniadau craffu ffurfiol

## Beth sy’n digwydd nesaf

Yn dilyn cyhoeddi’r adroddiad arolygu, dylai’r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau er mwyn mynd i’r afael â’r argymhellion ac ystyried y diffygion a nodwyd gan y broses arolygu. Dylai’r awdurdod lleol ddiweddaru ei gynlluniau o fewn tri mis o gyhoeddi’r adroddiad arolygu.

Bydd Estyn yn gwahodd y darparwr i baratoi astudiaethau achos yn gysylltiedig â’i gwaith cydlynus o warchod a gwella lles dysgwyr ac o ran eu gwaith i gryfhau’r Gymraeg. Bydd yr rhain yn cael eu lledaenu ar wefan Estyn.

## Prif ganfyddiadau

### Deilliannau

Ni allwn ddarparu gwerthusiad llawn o ddeilliannau. Mae hyn o ganlyniad i effaith pandemig COVID-19, a achosodd atal arolygiadau o ysgolion a'r rhan fwyaf o ddarparwyr addysg eraill er mis Mawrth 2020. Mae hefyd o ganlyniad i'r diffyg data am ddeilliannau y gellir ei gymharu dros gyfnod oherwydd achosodd y pandemig newidiadau i'r ffordd y dyfarnwyd cymwysterau, ac effeithiodd ar y rhan fwyaf o'r data arall rydym yn ei ystyried wrth wneud gwerthusiadau, fel presenoldeb ysgol, gwaharddiadau ysgol a chyrchfannau dysgwyr ôl-16.

Mae unrhyw werthusiadau sy'n dilyn yn darparu cyd-destun trwy adrodd ar ddeilliannau cyn y pandemig neu'n ymwneud â deilliannau mwy diweddar ble mae sail y dystiolaeth yn ddilys a dibynadwy.

Rhwng mis Medi 2017 a mis Mawrth 2020, arolygom un ysgol uwchradd, ble y barnom fod safonau yn dda. Dros yr un cyfnod, arolygom 16 o ysgolion cynradd, ble barnom fod safonau yn dda mewn 12 ohonynt, yn rhagorol mewn dwy ysgol ac yn ddigonol mewn dwy. Gosodwyd un o'r ysgolion hynny mewn categori gweithgarwch dilynol statudol a rhoddwyd tair mewn categori dilynol adolygu gan Estyn. Llwyddodd yr ysgolion yma i wella, ac nid ydynt angen gweithgarwch dilynol bellach. Hefyd, arolygom 12 leoliad nas cynhelir, ble barnom fod safonau yn dda yn y rhan fwyaf ohonynt. Roedd tri lleoliad angen monitro gan Estyn, ond yn dilyn gwneud cynnydd priodol, nid ydynt mewn categori bellach.

Roedd safonau cyffredinol ar ddiwedd cyfnod allweddol 4 yn y tair blynedd cyn y pandemig yn amrywiol. Roedd deilliannau ar gyfer disgyblion uwchradd Ynys Môn mewn lleiafrif o ysgolion yn unol â'r disgwyliadau, ond yn is na'r disgwyliadau mewn ychydig o'r ysgolion.

Bu perfformiad disgyblion sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim dros y cyfnod hwn yn gyffredinol uwch na'r cyfartaledd cenedlaethol. At ei gilydd, roedd y gyfradd o ddisgyblion a gyflawnodd 5 gradd A/A* neu gyfwerth yn is na'r cyfartaledd cenedlaethol.

Roedd y farn ar gyfer lles ac agweddau at ddysgu yn dda neu'n well yn y rhan fwyaf o arolygiadau a lleoliadau Môn yn ystod y cylch arolygu diweddaraf ers Medi 2017. O'r 17 ysgol arolygwyd rhwng 2017 a 2020, fe gafwyd lles ac agweddau at ddysgu yn dda neu'n well ym mron bob un. Dros yr un cyfnod, bu cyfraddau presenoldeb yn ysgolion Môn yn debyg i'r cyfraddau cenedlaethol.

Mae plant a phobl ifanc o fewn yr awdurdod wedi elwa'n fawr ar y ddarpariaeth i gefnogi a hyrwyddo eu lles yn ystod cyfnod y pandemig. Fe sefydlwyd uwch dîm arwain presennol yr awdurdod yn ystod cyfnod cynnar y pandemig ar ddechrau 2020, a dim ond ers ychydig fisoedd roedd y Cyfarwyddwr Addysg yn ei swydd. Llwyddodd y tîm i gynnal eu gwasanaethau trwy gydol y cyfnodau clo, gan ddarparu cefnogaeth effeithiol ar gyfer cefnogi lles plant a phobl ifanc Môn. Roddwyd sylw manwl i gynnal lles y gweithlu hefyd.

Trwy gydweithio rhwng yr Gwasanaeth Dysgu a'r gwasanaeth cefnogi teuluoedd a'r gwasanaeth ieuenctid, roedd staff yr awdurdod yn cefnogi a hyrwyddo lles plant a phobl ifanc yn llwyddiannus trwy amrediad o weithgareddau a digwyddiadau gwerthfawr. Roedd disgyblion yn elwa o'r ymgysylltu rheolaidd â swyddogion ieuenctid oedd wedi eu sefydlu yn eu hysgolion. Roedd nifer sylweddol o ddisgyblion yn elwa ar weithgareddau corfforol hwyliog yn ystod gwyliau'r haf er mwyn hybu eu hymwybyddiaeth o gadw'n heini a bwyta'n iach.

Mae amrediad eang o gyfleoedd i ddisgyblion gyfrannu at benderfyniadau corfforaethol. Er enghraifft, maent wedi cyfrannu at arolwg 'dweud eich dweud' gan drafod eu profiad o fyw ym Môn, gan gyfeirio at agweddau fel eu gobeithion gwaith ar gyfer y dyfodol. Mae cynrychiolwyr o blith disgyblion yr ynys yn rhan o waith ymchwil er mwyn addasu a chytuno ar fwydlenni ar gyfer y gwasanaeth arlwyo diwygiedig ar gyfer ysgolion.

**Gwasanaethau addysg**

O dan Faes Arolygu 2, mae Estyn yn gosod cwestiynau arolygu lleol sy'n berthnasol i'r awdurdod lleol unigol. Mae cwestiynau arolygu lleol yn canolbwyntio ar wasanaethau addysg sy'n gysylltiedig â blaenoriaethau strategol presennol yr awdurdod lleol neu mae'r cwestiynau'n deillio o wybodaeth sydd gan Estyn am wasanaethau addysg yn yr awdurdod lleol.

**Pa mor dda mae'r awdurdod lleol a'r gwasanaeth rhanbarthol yn cefnogi ysgolion i wella ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth?**

Mae gan awdurdod lleol Ynys Môn berthynas waith clos a chynhyrchiol gyda gwasanaeth effeithiolrwydd a gwella ysgolion rhanbarthol y gogledd (GwE). Fel partneriaid, mae ganddynt ddealltwriaeth glir o'u rolau a'u cyfrifoldebau i'r prosesau gwella ysgolion. Dros gyfnod estynedig, mae sefyllfa sefydlog o ran staff y rhanbarth sydd yn gweithio gyda'r awdurdod a'i ysgolion. Mae hyn yn cyfrannu at eu hadnabyddiaeth drylwyr o anghenion yr ysgolion. Mae ymdeimlad bod pob un yn cyfrannu i waith 'Tîm Môn' ac mae cydweithio bwriadus er mwyn sicrhau cefnogaeth werthfawr a her briodol i ysgolion. Mae'r awdurdod lleol wedi gweithio'n agos gyda'r rhanbarth i ddarparu hyfforddiant a chyfleoedd gwerthfawr i staff ysgolion ddatblygu eu medrau arwain. Yn ogystal, mae'r gwaith o gefnogi ysgolion uwchradd a dalgylchoedd cynradd i ddatblygu addysgu yn datblygu'n briodol yn dilyn cyfnod y pandemig.

Yn ystod y cyfnodau clo, cyfrannodd y cydweithio rhwng yr awdurdod lleol a'r rhanbarth yn fuddiol i ddarparu hyfforddiant ac adnoddau i helpu ysgolion ymateb i anghenion cefnogi lles disgyblion a darparu addysgu rhithiol. Cysylltodd yr ymgynghorwyr cefnogi gwelliant yn rheolaidd gydag arweinwyr ysgolion gan gryfhau'r berthynas rhyngddynt. Wrth i ysgolion ddychwelyd i addysgu disgyblion wyneb-yn-wyneb rhoddodd y rhanbarth a'r awdurdod gefnogaeth werthfawr i ysgolion ddatblygu eu darpariaeth i gefnogi sgiliau sylfaenol a lles disgyblion. Yn dilyn llacio cyfyngiadau'r pandemig, mae ymgynghorwyr cefnogi gwelliant yn defnyddio ymweliadau gydag ysgolion yn fuddiol i adnabod eu hanghenion cefnogaeth a hyfforddiant.

Mae'r rhanbarth yn darparu rhaglen dysgu broffesiynol gynhwysfawr gan gynnwys cefnogaeth gan ymgynghorwyr sy'n arbenigo mewn pynciau craidd neu gyfnod allweddol. Mae GwE yn hwyluso'n fuddiol y cydweithio rhwng clystyrau o ysgolion i ddatblygu addysgu. Er enghraifft, y gwaith rhwng ysgolion cynradd i ddatblygu darpariaeth ar gyfer gwella medrau llafaredd disgyblion. Yn ogystal, mae'r awdurdod lleol yn gweithio'n fuddiol mewn partneriaeth gyda GwE i gynnig gwasanaethau a hyfforddiant penodol i ymateb i anghenion ysgolion unigol a'u blaenoriaethau. Er enghraifft mae'r tîm blynyddoedd cynnar a thîm y canolfannau iaith yn cydweithio'n effeithiol gydag ysgolion er mwyn cefnogi blaenoriaeth gyffredin ysgolion Môn i ddatblygu'r Gymraeg a chefnogi newydd ddyfodiaid i'r iaith. Mae staff y timau hyn yn ymweld ag ysgolion i hyfforddi athrawon a chymorthyddion dysgu a modelu'r defnydd o strategaethau trochi wrth addysgu. Mae'r awdurdod yn cydnabod yr angen i werthuso ansawdd ac effaith y ddarpariaeth dysgu broffesiynol ar ddeilliannau disgyblion yn fwy miniog.

Mae'r rhanbarth a'r awdurdod yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i athrawon ac arweinwyr gydweithio mewn rhwydweithiau gan gynnwys dalgylchoedd cynradd a chynghrair o ysgolion uwchradd. Mae hyn yn cefnogi ysgolion yn fuddiol i ymateb i flaenoriaethau cenedlaethol fel y Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018 a Chwricwlwm i Gymru. Mae'r rhanbarth a'r awdurdod lleol yn annog ysgolion i fod yn sefydliadau sy'n dysgu ac sy'n cymryd cyfrifoldeb am eu gwelliant eu hunain trwy ymchwilio a chydweithio ar flaenoriaethau cyffredin. Maent yn hwyluso cyfleoedd gwerthfawr i ysgolion gymryd perchnogaeth ac atebolrwydd cynyddol am daith wella ei gilydd. Er enghraifft, yn ddiweddar mae'r gynghrair uwchradd yn cydweithio i ddatblygu agweddau ar gynhwysiant ac agweddau at ddysgu gan ymateb i flaenoriaeth gyffredin yn dilyn y pandemig. Wrth hwyluso'r gwaith, mae'r ymgynghorwyr cefnogi gwelliant ac arweinwyr ysgolion yn modelu arfer dda ac yn dechrau dilysu prosesau a chanfyddiadau ysgolion. Mae hyn yn cefnogi ysgolion i gynllunio ar gyfer gwelliant, ond mae'n rhy gynnar i fesur effaith y fenter hon ar les a chynnydd disgyblion.

Mae GwE yn cynnig amrediad cynhwysfawr o gyrsiau hyfforddiant a rhaglenni datblygu i arweinwyr gan gynnwys cyrsiau'r Rhaglen Arweinyddiaeth Genedlaethol. Mae'r awdurdod lleol ac ysgolion Môn yn rhoi blaenoriaeth glir ar sicrhau bod staff yn mynychu'r rhaglenni hyn i ddatblygu eu medrau arwain er mwyn sicrhau olyniaeth. Mae grŵp CAMU'r awdurdod, sef grŵp strategol o arweinwyr ysgolion uwchradd, sydd wedi ei sefydlu ers nifer o flynyddoedd yn cael effaith cadarnhaol ar ansawdd arweinyddiaeth. Er enghraifft, rhoddir cyfleoedd gwerthfawr i unigolion gysgodi arweinwyr profiadol ac arwain rhwydweithiau neu feysydd penodol. Mae'r awdurdod yn cynnig rhaglen briodol o hyfforddiant i lywodraethwyr i'w cefnogi yn eu rôl fel cyfaill beirniadol.

Mae'r Bwrdd Ansawdd Safonau Addysg yr awdurdod yn dal y rhanbarth yn atebol am ei gwaith yn briodol. Mae grwpiau amlasiantaethol o uwch swyddogion, swyddogion arweiniol o'r gwasanaethau perthnasol a staff GwE yn cyfarfod yn rheolaidd i rannu gwybodaeth a thystiolaeth am ysgolion Môn. Mae'r broses ddefnyddiol hon yn caniatáu'r awdurdod i adnabod ysgolion all beri pryder a rhai sydd ag arferion da gwerth i'w rhannu ymhellach. Defnyddir trothwyon a sbardunau i gysoni'r drefn o adnabod pryder mewn perthynas â safonau, dysgu ac addysgu, asesu, arweinyddiaeth, cynhwysiad neu faterion rheolaethol.

**Pa mor effeithiol yw darpariaeth yr awdurdod lleol i gefnogi dysgwyr bregus sydd mewn perygl o ymddieithrio?**

Nodwedd gref o waith yr awdurdod yw'r cydweithio cryf rhwng gwahanol adrannau ac asiantaethau i geisio darparu un profiad integredig o gefnogaeth i ddysgwyr sydd mewn perygl o ymddieithrio, a'u teuluoedd. Mae'r Gwasanaeth Dysgu yn cydweithio'n gynhyrchiol â phartneriaid sydd yn cynnwys gwasanaethau cymdeithasol a gwasanaethau ieuenctid er mwyn ymateb i anghenion dysgwyr bregus ond hefyd er mwyn gweithio yn rhagweithiol i atal problemau.

Mae'r egwyddor o weithio yn ataliol yn greiddiol i waith yr awdurdod. Agwedd amlwg o'r egwyddor hon yw'r gwaith i godi ymwybyddiaeth o effaith trawma ar blant a phobl ifanc. Mae holl staff yr Gwasanaeth Dysgu, staff ym mhob ysgol ar yr ynys, a staff adrannau eraill, fel gwasanaethau plant, wedi cael mynediad at hyfforddiant pwrpasol er mwyn iddynt ddeall beth yw trawma a'i effaith a'r blant a phobl ifanc. Agwedd arall o'r gwaith ataliol hwn yw'r 'Hwb Ymyrraeth Gynnar' sydd yn cynnwys oddeutu ugain o asiantaethau gwahanol. Maent yn cydweithio a chydgynllunio er mwyn cefnogi dysgwyr bregus a'u teuluoedd a rhoi strategaethau yn eu lle i fynd i'r afael â phroblemau yn gynnar.

Mae ystod eang o strategaethau, darpariaeth a phaneli er mwyn cefnogi dysgwyr bregus. Mae'r rhain yn cynnwys swyddogion lles, gwasanaeth cefnogi ymddygiad, darpariaeth i hybu lles emosiynol dysgwyr a'r cwrs 'Camu Ymlaen' sydd yn helpu dysgwyr bregus i symud ymlaen rhwng cyfnodau gwahanol yn eu bywyd addysgol a byd gwaith. Ar hyn o bryd, mae hefyd yn cynnwys y rhaglen 'TRAC', sef rhaglen sy'n cefnogi disgyblion sydd mewn perygl o ymddieithrio, ond mae'r rhaglen hon ar fin dod i ben, fydd yn gadael bwlch yn y ddarpariaeth. Mae'r awdurdod wedi adnabod yr angen am strategaeth fwy cydlynus a chlir ar gyfer y gwaith i gefnogi dysgwyr bregus ac mae hyn yn rhan o swydd ddisgrifiad rheolwr newydd fydd â chyfrifoldeb dros wasanaethau ieuenctid, plant mewn gofal a lles plant a phobl ifanc.

Agwedd nodedig o'r gefnogaeth i ddysgwyr bregus yw gwaith y gwasanaeth ieuenctid. Mae swyddog ieuenctid ym mhob ysgol uwchradd ar yr ynys. Maent yn cynnig gwasanaeth galw mewn i ddysgwyr, yn cefnogi darpariaeth addysg bersonol a chymdeithasol yr ysgol ac yn rhedeg clybiau ieuenctid a gweithgareddau fin nos yn y gymuned. Mae grŵp lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsryweddol (LGBT+) wedi ei sefydlu gan swyddogion ieuenctid ym mhob ysgol uwchradd. Mae'r gwasanaeth hefyd yn cynnig cyfleoedd i ddysgwyr sydd mewn perygl o ymddieithrio ennill cymwysterau a phrofiadau, fel cyrsiau paratoi at gyflogaeth a Gwobr Dug Caeredin.

Mae swyddogion yr awdurdod yn casglu ystod o ddata defnyddiol ynghylch dysgwyr bregus. Mae hyn yn cynnwys data presenoldeb, dad gofrestriadau a gwaharddiadau. Maent hefyd yn casglu gwybodaeth ynghylch disgyblion sydd â chynlluniau datblygu unigol ac yn olrhain eu cynnydd yn erbyn eu targedau yn briodol. Mae'r awdurdod hefyd wedi ffurfioli'r broses o adnabod dysgwyr bregus sydd mewn perygl o ddadrithio, gan sicrhau bod eu darpariaeth yn mynd trwy'r un broses a honno ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol. Nid yw'r system bresennol i gasglu a monitro'r holl wybodaeth ddefnyddiol hon yn ddigon cydlynus.

Mae swyddogion y Gwasanaeth Dysgu wedi ymateb yn gadarn ac yn brydlon i bryderon ynghylch nifer y gwaharddiadau dros amser a'r nifer o ddisgyblion nad

oeddent yn parhau mewn addysg yn eu hysgolion tan ddiwedd cyfnod allweddol 4. Gwnaethant ail-edrych ar eu trefniadau ar gyfer y dysgwyr bregus hyn a chydweithio gyda'r ysgolion uwchradd a'r gwasanaeth plant er mwyn rhoi trefniadau newydd yn eu lle. Maent yn y broses o sefydlu hwb ym mhob ysgol uwchradd, fydd yn galluogi'r dysgwyr i dderbyn darpariaeth bwrpasol yn yr hwb a darpariaeth o fewn y prif lif ble bo'n briodol. Er mwyn darparu cefnogaeth fwy cyflawn i'r dysgwyr hyn a'u teuluoedd, mae'r hybiau wedi eu staffio gan athrawon, a staff o'r gwasanaeth plant a theuluoedd all weithio fin nos ac ar benwythnosau. Gan mai datblygiad diweddar yw'r hybiau hyn mae'n rhy gynnar i arfarnu eu heffaith.

Mae arweinwyr yn craffu'n barhaus ar y trefniadau ar gyfer disgyblion sy'n derbyn eu haddysg yn all-sirol. Maent yn gweithio'n ymarferol er mwyn sicrhau darpariaeth addas o fewn yr ardal leol, trwy agor cartrefi plant. Lle bo'n addas, maent yn hyfforddi'r gweithlu o fewn ysgolion lleol er mwyn medru derbyn disgyblion yn ôl i barhau a'u haddysg o fewn eu cymunedau.

**Pa mor effeithiol yw darpariaeth yr awdurdod lleol ar gyfer hybu lles yr holl blant a phobl ifanc?**

Mae uwch arweinwyr y Gwasanaeth Dysgu yn gosod pwyslais mawr ar hybu lles plant a phobl ifanc yr ynys. Maent yn cydweithio'n agos a llwyddiannus gyda gwahanol adrannau o fewn yr awdurdod. Mae hyn yn hwyluso'r gwaith o sicrhau darpariaeth hylaw ac effeithiol. Enghraifft nodedig o hyn yw'r cydweithio rhwng uwch swyddog llesiant y Gwasanaeth Dysgu a phennaeth yr adran gwasanaethau plant a theuluoedd, sydd hefyd â chyfrifoldeb am arwain yr adran gwasanaethau cymdeithasol o fewn yr awdurdod.  Mae'r trefniadau yn sicrhau fod y gwasanaethau o fewn eu hadrannau yn gweithredu'n llyfn a heb unrhyw ffiniau.

Mae arweinwyr yn ymgynghori gydag ysgolion a lleoliadau yn rheolaidd er mwyn medru addasu'r ddarpariaeth yn unol â'r angen. Er enghraifft, yn sgil adnabod yr angen ar gyfer cefnogi elfennau o addysg bersonol a chymdeithasol yn fwy effeithiol, fe drefnodd y gwasanaeth ysgolion iach hyfforddiant ar gyfer gweithwyr ieuenctid fel eu bod yn medru cynnig elfennau o addysg rhyw a pherthnasoedd mewn ysgolion.

Mewn cyd weithrediad gyda'r gwasanaeth plant a theuluoedd, mae swyddogion yn gweithredu 'Hwb ymyrraeth gynnar'. Mae'r Hwb yn caniatáu i wahanol asiantaethau gydweithio er mwyn cynnal trafodaethau a chynnig opsiynau gwahanol wrth gefnogi disgyblion. Er enghraifft maent yn cydweithio'n agos wrth ddatblygu a gweithredu strategaeth traws sirol i ymateb yn weithredol i bryderon am drais yn y cartref.

Mae tîm ymgynghorol y blynyddoedd cynnar yn cyflwyno amrediad eang o hyfforddiant sy'n hwyluso paratoadau lleoliadau nas cynhelir ar gyfer cyflwyno'r cwricwlwm. Buont yn cyflwyno hyfforddiant yn canolbwyntio ar ddatblygiad plant, a sut i addasu eu dulliau cynllunio fel eu bod yn ymateb yn well i ddiddordebau ac anghenion y plant ieuengaf. Sefydlwyd gwefan ddefnyddiol i rannu gwybodaeth a rhoi arweiniad i ymarferwyr ar agweddau o ddatblygiad plentyn, gan gynnwys eu lles.

Mae gwaith y Tîm Cefnogi Teuluoedd yn cyfrannu at hyrwyddo datblygiad a lles plant yn llwyddiannus. Enghraifft o effaith eu gwaith yw'r cynllun 'Y Daith i Saith,' sy'n amlinellu cynlluniau'r awdurdod ar gyfer hyrwyddo datblygiad a lles y plant ieuengaf. Mae'r awdurdod yn cynnig amrediad cyfoethog o weithgareddau i hybu iechyd a lles,

gan gynnwys yn ystod gwyliau ysgol. Er enghraifft, maent yn cynnig gweithgareddau 'bwyd a hwyl,' sy'n hybu ymwybyddiaeth plant a'u teuluoedd o bwysigrwydd cymryd rhan mewn gweithgareddau corfforol, ac yn pwysleisio pwysigrwydd ceisio bwyta'n iach. Mae'r awdurdod yn cydnabod rôl bwysig y gwasaneth ieuenctid wrth gynnal lles plant a phobl ifanc. Yn ystod cyfnodau clo'r pandemig, bu iddynt fanteisio ar eu perthynas agos a chefnogol gyda'r disgyblion a'u teuluoedd i roi cefnogaeth ychwanegol fuddiol iddynt.

Mae arweinwyr wedi sefydlu gweledigaeth hynod gadarn ar gyfer datblygu ymwybyddiaeth ymarferwyr ar bob lefel o bwysigrwydd bod yn ystyriol o drawma, ac effaith trawma ar blant a phobl ifanc. Mae swyddogion wedi gweithio'n ddygn iawn er mwyn cydlynu hyfforddiant ar sawl lefel i athrawon a chymorthyddion mewn ysgolion a lleoliadau. Mae hyn yn eu harfogi'n llwyddiannus i fod yn ymwybodol o effaith profiadau niweidiol ar ddatblygiad, hunanddelwedd a hyder unigolion. Mae cydblethiad effeithiol gyda gwaith y seicolegwyr addysg o fewn gwasanaeth anghenion dysgu ychwanegol a chynhwysiad yr awdurdod gan fod datblygiad proffesiynol y gweithlu wedi adeiladu cynhwysedd ysgolion i ymateb yn effeithiol i anghenion disgyblion.

**Pa mor effeithiol yw ymagwedd yr awdurdod lleol tuag at foderneiddio ysgolion gan gynnwys cryfhau darpariaeth cyfrwng Gymraeg?**

Mae gweledigaeth glir ar gyfer ad-drefnu a moderneiddio ysgolion, sy'n seiliedig ar sicrhau bod yr ysgolion yn addas ar gyfer yr unfed ganrif ar hugain ac yn gwneud y defnydd gorau o dechnoleg fodern. Rhoddir sylw blaenllaw i ddatblygu'r ddarpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Cymraeg a dwyieithog o fewn y strategaeth moderneiddio. Mae rhai elfennau o'r weledigaeth ar waith, ac yn cael effaith gadarnhaol, er enghraifft ehangu darpariaeth canolfannau iaith a lleihau llefydd gweigion ysgolion. Mae rhai agweddau o'r weledigaeth, er enghraifft moderneiddio addysg ôl 16 ar yr ynys, yn eu dyddiau cynnar.

Mae arweinwyr a swyddogion ar draws yr awdurdod yn cydweithio'n llwyddiannus i wireddu amcanion y strategaeth foderneiddio addysg. Erbyn hyn, mae arweinwyr a swyddogion yn defnyddio ystod dda o ffynonellau gwybodaeth, er enghraifft am gyflwr a maint adeiladau, natur ieithyddol ardaloedd a'r gwasanaethau sydd ar gael neu sydd angen ar gymunedau penodol. Maent yn ymgysylltu'n effeithiol gyda rhanddeiliaid gan gynnwys athrawon, llywodraethwyr a rhieni er mwyn canfod eu barn am gynlluniau moderneiddio ysgolion. Mae hyn yn sicrhau bod eu llais yn cael eu hystyried sy'n cynnig cyfleoedd buddiol i'r awdurdod addasu eu cynigion yn ôl yr angen. Nodwedd gadarnhaol o'r trefniadau ymgysylltu hyn yw'r cydweithio rhwng yr awdurdod a grwpiau penodol fel Fforwm Iaith Môn, Mudiad Meithrin a Dechrau'n Deg i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cyfateb â gofynion yr ardal. Mae'r gwaith hwn yn helpu'r awdurdod i fodloni ei ddyhead o sicrhau bod ysgolion yn rhan annatod o'u cymunedau ac yn helpu bodloni anghenion lleol.

Mae'r awdurdod wedi buddsoddi mewn ystod o brosiectau cyfalaf yn ystod camau cyntaf rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif Llywodraeth Cymru. Maent yn gwneud cynnydd da o ran sicrhau bod yr ysgolion addas o'r math priodol yn y lleoedd priodol i fodloni anghenion ei ddysgwyr. Maent wedi adeiladu tair ysgol newydd, diweddaru ac ymestyn dwy ysgol a chau 11 o ysgolion. Er bod hyn wedi lleihau'r nifer o lefydd gweigion mewn ysgolion ar draws y sir, mae'r canran yn parhau'n gymharol uchel ar

gyfer y sector uwchradd. Mae gan yr awdurdod gynlluniau addas ar fynd i'r afael â hyn yn y dyfodol agos, er bod yr amserlen ar gyfer cyflwyno'r rhaglen hon wedi'i ohirio rhywfaint oherwydd y pandemig.

Mae Cynllun Strategol Cymraeg Mewn Addysg (CSGA) 2022-32 yn cydblethu'n briodol gyda gweledigaeth, nodau ac amcanion y rhaglen moderneiddio. Mae'r cynllun wedi ei gyd-gynllunio â phartneriaid, a gydag adrannau'r awdurdod lleol, ysgolion a lleoliadau yn ogystal â phartneriaid ehangach fel y consortiwm rhanbarthol a Phrifysgol Bangor. Mae'n cynnwys dyhead uchelgeisiol o ran sicrhau bod pob disgybl yn ddwyieithog erbyn 16 oed. Mae pwyslais cryf ar gynnig cyfleoedd buddiol i blant a phobl ifanc Ynys Môn i gyflawni safonau uchaf er mwyn cynnal y Gymraeg, y diwylliant a'r economi yn lleol. Mae'r CSGA'n adeiladu'n llwyddiannus ar arferion da sydd eisoes yn bodoli, fel y gefnogaeth dda sydd ar gael i hwyr ddyfodiaid trwy'r canolfannau trochi yn yr iaith Gymraeg. Er nid yw'r gefnogaeth ar gael yn uniongyrchol i ddisgyblion ysgolion uwchradd hyd yn hyn, mae arweinwyr wedi manteisio ar gyllid ychwanegol yn ddiweddar i gefnogi'r disgyblion sy'n cyfranogi ym Mlynyddoedd 7 ac 8. Mae'r canolfannau iaith hefyd yn cynnig cyfleoedd buddiol i athrawon ac ymarferwyr i ddatblygu eu medrau ieithyddol a'u hymwybyddiaeth o ddulliau trochi'r iaith yn eu hysgolion a'u lleoliadau. Mae'r defnydd o dechnoleg ddigidol ynghyd a'r cydweithio agos o fewn a thu hwnt i'r sir yn elfen nodedig o waith yr awdurdod o ran datblygu'r Gymraeg a dwyieithrwydd. Er enghraifft, mae arweinwyr yn cydweithio'n llwyddiannus gyda'r consortiwm rhanbarthol a Phrifysgol Bangor i greu adnoddau digidol a chefnogaeth i ddatblygu medrau llafar disgyblion trwy brosiect arloesol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth**

Mae Gwasanaeth Dysgu'r awdurdod wedi gwneud camau breision yn ystod y tair blynedd diwethaf dan arweinyddiaeth cyfarwyddwr a thîm rheoli effeithiol iawn. Maent wedi datblygu ethos a meddylfryd 'Tîm Môn' lle mae cydweithio a chyfraniad pawb yn cael ei werthfawrogi, ei feithrin a'i ddefnyddio er budd plant a phobl ifanc yr ynys. Mae'r cyfarwyddwr yn cynnig arweiniad a gweledigaeth egnïol a phwrpasol i'r gwasanaeth.

Mae arweinydd y Cyngor yn angerddol dros wella ansawdd addysg a bywyd trigolion yr ynys ac mae ganddi weledigaeth glir ar gyfer gwneud hynny. Mae'n barod i ysgwyddo cyfrifoldeb dros benderfyniadau anodd ac mae ganddi afael gadarn o waith y Cyngor ar draws y gwasanaethau.

Mae'r Prif Weithredwr, er yn newydd i'r rôl, wedi bod yn allweddol yn llywio'r weledigaeth yn ei rôl flaenorol ac mae'n cynnig sefydlogrwydd, parhad ac adnabyddiaeth gref o'r heriau sy'n wynebu'r ynys. Mae'r nod o ddatblygu 'ynys ddysgu gyda chymunedau sy'n dysgu' yn glir yn y cynlluniau strategol perthnasol. Mae'r weledigaeth honno wedi ei ddatblygu trwy ymgysylltu anffurfiol a ffurfiol ar lefelau gwahanol ar draws y Cyngor a chyda partneriaid. Mae ansawdd llywodraethu'r Cyngor wedi datblygu yn effeithiol dros y cyfnod diweddar a bellach mae perthnasoedd a'r diwylliant llawer yn fwy cadarnhaol ac aeddfed.

Trwy gydol pandemig COVID-19, cefnogodd arweinwyr addysg ysgolion yn egnïol ac effeithiol. Mae gwaith cefnogol yr awdurdod lleol yn ystod y pandemig wedi cryfhau perthnasoedd â'i chymunedau dysgu ac roedd hyn yn fuddiol o ran meithrin

ymddiriedaeth a hyder rhanddeiliaid. Mae gwell ymgysylltu gyda'r partneriaid yn golygu bod cyfle i wyntyllu a chaffael barn ar faterion sensitif, er enghraifft wrth adrefnu ysgolion ardal Llangefni pan wnaeth y trafodaethau esgor ar gynnig gwahanol i'r un a gyflwynwyd yn wreiddiol. Mae swyddogion yr awdurdod yn credu'n gryf mewn meithrin perthynas ac adeiladu pontydd lle mae anghydfod.

Mae'r Gwasanaeth Dysgu yn cydweithio yn effeithiol gyda nifer o bartneriaid eraill, er enghraifft gyda GwE (gwasanaeth effeithiolrwydd a gwella ysgolion gogledd Cymru). Mae'r berthynas yn gadarn ac yn elwa o staff sefydlog sy'n adnabod ysgolion yr awdurdod yn dda.

Ar ei orau, mae prosesau craffu ffurfiol y Cyngor yn briodol, lle gwelir aelodau etholedig yn perchnogi'r adroddiadau ac ymateb yn hyderus i'r cwestiynu. Mae'r Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion yn drefn craffu anffurfiol lle gwahoddir cynrychiolwyr o ysgolion penodol i gyflwyno gwybodaeth, sy'n aml yn arwain at ymholi pwrpasol er mwyn nodi'r hyn sy'n dda a meysydd datblygu. Gwahoddir arweinwyr ysgol yn ôl os oes angen, a cheir ymweliadau pwrpasol i ysgolion er mwyn atgyfnerthu dealltwriaeth y panel.  Mae'r gefnogaeth i'r panel, sy'n ffocysu ar ddatblygu dealltwriaeth aelodau etholedig, o ansawdd da a chaiff aelodau gyfleoedd i gyfrannu at sesiynau gwerthuso gwaith y panel ac adnabod meysydd ffocws pellach. Ers y pandemig, maent wedi ystyried meysydd fel llesiant, y Gymraeg a dysgu o bell. Ceir cyfle i godi materion allweddol gyda swyddogion a darparwyr gwasanaethau a chymeradwyo materion allweddol i'w cyflwyno yn y sesiynau briffio aelodau.

Mae adroddiadau ar waith y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio. Er hynny, prin yw cyfleoedd ar hyn o bryd i graffu'n benodol, ffurfiol a chyhoeddus ar effeithiolrwydd gwaith y ddarpariaeth addysg. Yn unol â'u dyhead i wella'n barhaus, mae'r Cyngor wedi adnabod yr angen i gryfhau a gwella'r broses graffu gyda'r bwriad i ffocysu ar safonau, ansawdd darpariaeth ac arweinyddiaeth addysg.

Mae ymrwymiad corfforaethol cryf i hunanwerthuso agored, rheolaidd a thrylwyr i gefnogi cynllunio ar gyfer gwella.  Mae hyn yn cynnwys ffocws pendant tuag at werthuso blaenoriaethau strategol y Gwasanaeth Dysgu.  Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth dda o'r ddarpariaeth addysg ac yn adnabod y cryfderau a'r meysydd i'w gwella. Mae gwerthusiad y Gwasanaeth Dysgu ei hun o gynnydd yn erbyn ei blaenoriaethau yn cytuno â rhan fwyaf o ganfyddiadau'r arolygiad hwn, ac mae cynlluniau a phrosiectau yn barod ar gychwyn mewn sawl agwedd ble mae angen gwella.

At ei gilydd, mae'r awdurdod yn ymgysylltu'n dda â rhanddeiliaid i lywio, gwerthuso a chynllunio gwasanaethau addysg. Maent wedi cryfhau'r dulliau ble y gall rhanddeiliaid, ac yn enwedig rhai a chysylltiadau ag ysgolion fel llywodraethwyr a phenaethiaid, gyfrannu eu barn. Un o gryfderau'r awdurdod yw'r modd y maent yn cynnwys penaethiaid mewn fforymau gwahanol er mwyn canfod eu barn, ac er mwyn dylanwadu, siapio a chynllunio darpariaeth newydd, er enghraifft wrth greu meicrowefanau pwrpasol i rannu gwybodaeth yn fwy llyfn yn dilyn y pandemig. Er bod y gwasanaeth dysgu wedi blaenoriaethu cryfhau eu dulliau cyfathrebu â rhanddeiliaid o fewn eu cynlluniau gwella'r llynedd, mae rhai rhieni yn nodi nad ydynt yn cael digon o gyfleoedd i gyfleu eu barn er mwyn dylanwadu ar rai elfennau o'r ddarpariaeth.

Ers ei harolygiad blaenorol gan Estyn yn 2012, mae gwelliant pendant yn y modd y mae'r awdurdod yn cynllunio'n strategol ar gyfer gwella. Mae diwylliant cryf o gynllunio gwasanaethau sydd yn cyfateb yn dda â'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Wrth feddwl am y tymor hir a chydweithio'n effeithiol gyda phobl a phartneriaid, mae'r awdurdod yn parhau i gryfhau sut mae'n gweithio fel sefydliad o ddydd i ddydd. Mae arweinwyr yn teilwra eu darpariaeth yn synhwyrol, fel dyletswyddau swyddogion a phenodiadau newydd, ac wrth i adrannau gwahanol yr awdurdod weithio'n llawer mwy llyfn ac effeithlon gyda'i gilydd. Mae hyn yn cyfrannu'n dda tuag at, er enghraifft, gallu'r awdurdod i gydweithio er mwyn cynnal a gwella lles trigolion yr ynys, gan gynnwys plant a phobl ifanc.

Yn dilyn etholiadau lleol ychydig o wythnosau cyn yr arolygiad, mae arweinydd y Cyngor ac uwch swyddogion yn cychwyn ar eu taith o lunio amcanion newydd ar gyfer cyfnod y Cyngor rhwng 2022 a 2027. Mae hanes da o roi amcanion synhwyrol yn eu lle a'u gwireddu yn ystod cyfnod y Cyngor blaenorol, rhwng 2017 i 2022. Mae hyn yn cynnwys gweithredu pendant gan arweinwyr wrth iddynt deilwra cynlluniau corfforaethol er mwyn ymateb ar fyrder i heriau'r pandemig. Rhoddwyd cynllun trosiannol yn ei le a roddai ffocws amlwg, er enghraifft, a'r gynnal llesiant a sicrhau bod bron bob disgybl yn cwblhau eu haddysg yn yr ysgol uwchradd hyd at ddiwedd Blwyddyn 11.

Ar y cyfan, mae cysondeb a chydlyniant clir rhwng cynllun y Cyngor 2017-2022 a chynlluniau'r Gwasanaeth Dysgu. Er bod mynd i'r afael ag amddifadedd a thlodi yn flaenoriaeth amlwg i'r Cyngor a'r Gwasanaeth Dysgu, nid yw cynlluniau'r awdurdod, fel y Strategaeth Wrthdlodi yn amlygu yn ddigon clir cyfraniad y Gwasanaeth Dysgu i'r gwaith hwn er mwyn gwerthuso effaith y ddarpariaeth.

Mae gan arweinwyr a thimau oddi fewn y Gwasanaeth Dysgu ddealltwriaeth gadarn o'r hyn y mae angen iddynt ei gyflawni. Mae cynllun gwella'r gwasanaeth yn nodi blaenoriaethau allweddol perthnasol, gan gynnwys darparu cymorth gref ar gyfer cefnogi lles emosiynol a meddyliol plant a phobl ifanc. Yn ogystal, mae amcanion gweithredu bwrpasol gan y gwasanaeth archifdy ac Oriel Môn ar gyfer cefnogi dysgu a'r cwricwlwm newydd mewn ysgolion. Mae gan bob blaenoriaeth ddangosyddion cynnydd perthnasol a chamau clir ar gyfer gwella, er bod lle i ambell un o'r rhain fod yn fwy mesuradwy.

Mae trefniadau rheoli perfformiad yn gadarn. Mae ystod o brosesau ar waith drwy'r flwyddyn sy'n sicrhau y caiff gwasanaethau addysg eu monitro'n ofalus, gan mwyaf. Mae'r awdurdod yn ymwybodol o'r angen i deilwra nifer o ddangosyddion perfformiad a gafodd eu gohirio oherwydd y pandemig neu ble nad yw data cenedlaethol yn cael eu hadrodd bellach. Mae'r awdurdod yn rheoli'r risgiau sy'n effeithio ar wasanaethau addysg yn dda, ac yn eu huwch gyfeirio at y gofrestr risg gorfforaethol os oes angen.

Mae'r awdurdod yn rhoi sylw bwriadus i hyrwyddo dysgu proffesiynol ar gyfer ei staff trwy gynllun hyfforddi a datblygu corfforaethol. Mae staff yn derbyn cyfleoedd buddiol i drafod eu hanghenion dysgu proffesiynol personol mewn cyfarfodydd rheolwr llinell reolaidd ac adolygiadau rheoli perfformiad. Mae hyn yn arwain at gyfleoedd dysgu proffesiynol megis mynychu cyrsiau, rhwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol a chyflawni cyrsiau wedi eu hachredu. Mae'r awdurdod yn ystyried olyniaeth o fewn y gwasanaeth yn ofalus. Mae staff yn cael cyfleoedd buddiol i fentora a chysgodi eraill er mwyn cydweithio a datblygu eu harbenigeddau. Yn ogystal, mae staff yn derbyn

cyfleoedd gwerthfawr i fynychu cyrsiau arweinyddiaeth a chymryd cyfrifoldeb dros arwain prosiectau trawsadrannol i ddatblygu eu medrau a phrofiad arwain. Er bod cynnig dysgu proffesiynol eang, nid yw arweinwyr pob amser yn ystyried effaith y dysgu proffesiynol ar wella ansawdd darpariaeth y Gwasanaeth Dysgu.

Mae'r Gwasanaeth Dysgu yn arddel diwylliant cryf o ddiogelu ac yn gosod disgwyliadau cadarn ac uchel ar draws y gweithlu. Ar lefel strategol a gweithredol, mae'r gwasanaeth wedi adeiladu perthnasau gwaith cynhyrchiol ac effeithiol gyda'r holl wasanaethau sy'n gweithio gyda phlant a theuluoedd ar draws y Cyngor. Yn ogystal, trwy ail strwythuro synhwyrol, mae cyfraniad y Gwasanaeth Dysgu tuag at ddiogelu plant a phobl ifanc yr ynys wedi cryfhau dros amser.

Mae'r polisi diogelu corfforaethol yn rhoi cyfarwyddyd clir i ysgolion a lleoliadau ar sut i weithredu eu dyletswyddau i warchod lles disgyblion. Mae uwch swyddog addysg yn gweithredu fel swyddog dynodedig ar gyfer diogelu ac mae effaith ei gwaith strategol a gweithredol ar ystod eang o weithdrefnau'r awdurdod yn nodedig. Mae'r swyddog yn cadeirio'r Panel Gweithredol Diogelu Corfforaethol. Mae hyn yn golygu bod gan addysg lais blaenllaw ym mhenderfyniadau'r Cyngor o ran ei strategaeth i ddiogelu plant a phobl ifanc.

Mae trefniadau cyflogaeth ddiogel yn gadarn ac yn eglur, ac mae swyddogion y Gwasanaeth Dysgu yn cynnal awdit blynyddol o drefniadau penodi staff er mwyn sicrhau bod gweithdrefnau recriwtio diogel yn cael eu dilyn. Yn ogystal, mae trefniadau cadarn i fonitro prosesau diogelu ysgolion trwy graffu ar adroddiadau diogelu blynyddol i'w cyrff llywodraethol. Mae'r trefniadau hyn yn sicrhau bod gan yr awdurdod wybodaeth gyfoes am brosesau diogelu mewn ysgolion ac yn gallu cyflwyno adroddiadau manwl arnynt i'r Panel Diogelu Corfforaethol.

O ganlyniad i arweinyddiaeth gydlynus, mae cyswllt cryf rhwng blaenoriaethau corfforaethol ynghylch llesiant a'r gwaith ymarferol ac ataliol sy'n digwydd mewn lleoliadau nas cynhelir ac ysgolion ar draws yr awdurdod. Er enghraifft, mae'r strategaeth gorfforaethol o ddarparu hyfforddiant i wella dealltwriaeth ymarferwyr o effaith trawma a phrofiadau niweidiol mewn plentyndod ar gyflawniad a lles disgyblion yn cael effaith gadarnhaol ar ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r Gwasanaeth Dysgu wedi buddsoddi'n sylweddol i gryfhau'r ddarpariaeth ar gyfer diogelu yn yr holl ysgolion a lleoliadau trwy greu 'Pencampwyr Diogelu' ymhob dalgylch. Dros y tair blynedd diwethaf, mae gwaith y Pencampwyr Diogelu wedi cael effaith gadarnhaol ar ansawdd gwaith amddiffyn plant a diogelu.  Er enghraifft, mae'r grŵp Pencampwyr yn trafod a chyd-drefnu gwaith ataliol buddiol ac yn ystyried ac ymateb i waith ymchwil perthnasol wrth gynllunio eu cwricwlwm lles.

Mae'r Gwasanaeth Dysgu yn chwarae rhan flaenllaw mewn gwaith ataliol lleol a chenedlaethol. Er enghraifft, roedd ychydig o ysgolion cynradd ac uwchradd Ynys Môn yn rhan o gynllun peilot cenedlaethol i ddatblygu adnoddau ar thema troseddau casineb.  Yn ogystal, mae'r awdurdod yn rhan o grŵp cenedlaethol tasg a gorffen sy'n diweddaru polisi cyd berthnasedd a rhywioldeb i gyd-fynd â'r gofynion newydd o fewn Cwricwlwm i Gymru. Yn ddiweddar, cyfrannodd y gwasanaeth at waith pwysig i adolygu adnodd hyfforddiant Atal (Prevent) y Swyddfa Gartref.

Mae gan yr awdurdod ddealltwriaeth dda o'i sefyllfa ariannol oddi fewn y Gwasanaeth Dysgu. Ers 2018-19 mae'r awdurdod wedi cynyddu ei gyllideb addysg o

fan cychwyn isel i lefel sy'n agosach i'r disgwyl. Mae ei chyllideb addysg net fesul disgybl yn y chwartel uchaf o awdurdodau Cymru. Mae'r awdurdod wedi ariannu setliadau cyflog staff ysgolion yn llawn, ac mae cyllidebau addysg wedi eu gwarchod rhag toriadau o gymharu ag adrannau eraill o fewn yr awdurdod.  Yn dilyn sefyllfa o orwariant yn 2018-19, bellach dros y tair blynedd ddiwethaf mae gwasanaethau dysgu wedi eu darparu oddi fewn i'r gyllideb.

Mae'r awdurdod yn ymwybodol o'r risgiau ariannol presennol a'r rhai sydd ar y gorwel. Maent yn adnabod y bydd angen ymateb i heriau cynyddol, gan gynnwys potensial cynnydd mewn costau staff, gwres a thrydan, trafnidiaeth ac atgyweirio ac adnewyddu. Tra bod newidiadau bychain wedi bod i'r fformiwla ariannu ysgolion, nid ydyw wedi adolygu'n llawn ers 2007, ac mae cyfle i'r awdurdod sicrhau ei hun bod y fformiwla yn parhau'n addas o ystyried newidiadau i ddarpariaeth gwasanaethau addysg.

Mae balansau ysgolion, fel mewn awdurdodau eraill, wedi cynyddu'n sylweddol o £198k yn 2019-20 i £7.9miliwn ar ddiwedd 2021-22.  Yn 2019-20 roedd 10 o 46 ysgol yr awdurdod â diffyg ariannol, serch hynny, erbyn 2020-21 roedd llawer o'r rhain â gwarged. Mae cynlluniau ar y gweill i fynd i'r afael â'r tair ysgol sydd â diffyg yn 2021-22. Mae'r awdurdod wedi derbyn cynlluniau gan ysgolion o ran sut y byddant yn defnyddio'r balansau ychwanegol ac yn adnabod bod angen cryfhau rhai o'r cynlluniau.

Mae'r awdurdod a'r fforwm cyllid ysgolion yn ymgysylltu'n effeithiol, agored ac yn adeiladol â'r materion allweddol sy'n effeithio ar ariannu ysgolion a'r gwasanaethau a ddarperir gan yr awdurdod i ysgolion.  Mae arweinwyr ysgolion yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth sydd iddynt gan dîm cyllid ac adnoddau dynol yr awdurdod.

Mae bron pob ysgol yn manteisio ar ystod o gytundebau lefel gwasanaeth a gynigir. Mae'r trefniadau gosod a rheoli cytundebau addysg wedi cryfhau dros y tair blynedd ddiwethaf, ac mae bwriad eu hadolygu yn rheolaidd gan hefyd edrych am gyfleoedd i gefnogi ysgolion gyda phwrcasu o'r newydd. Mae'r awdurdod yn datblygu prosesau gwerthuso ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir yn allanol a'r rhai a darperir yn fewnol i roi sicrwydd am eu heffeithiolrwydd.

## Sail dystiolaeth ar gyfer yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn ymgynghori â'r awdurdod lleol ar y cwestiynau arolygu lleol i'w defnyddio yn ystod yr arolygiad, ar sail hunanwerthusiad yr awdurdod, ei gynlluniau strategol a data perthnasol y mae Estyn yn ei gadw
- yn dadansoddi'r deilliannau o holiaduron agored, gan gynnwys barn dysgwyr, rhieni, staff a llywodraethwyr ysgol, staff yr awdurdod lleol, staff y consortiwm rhanbarthol, aelodau etholedig a'r cyhoedd
- yn cynnal ymweliad rhagarweiniol â'r awdurdod lleol i gyfarfod ag amrywiaeth o bartneriaid perthnasol i wasanaethau addysg, fel cynrychiolwyr dysgwyr, penaethiaid a llywodraethwyr, ac arweinwyr o asiantaethau statudol a thrydydd sector sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cyfarfod ag arweinydd y cyngor, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am wasanaethau addysg, aelodau etholedig sy'n gyfrifol am graffu ar wasanaethau addysg, y prif weithredwr, y cyfarwyddwr addysg, arweinwyr a rheolwyr eraill mewn gwasanaethau addysg, staff perthnasol eraill yn yr awdurdod lleol, rheolwr gyfarwyddwr y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion a staff perthnasol eraill o'r consortiwm rhanbarthol
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso'r awdurdod lleol
- yn ystyried cynlluniau strategol a gweithredol yr awdurdod lleol ar gyfer gwella
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau, gan gynnwys gwybodaeth am ddeilliannau dysgwyr, gwybodaeth am berfformiad ysgolion a lleoliadau addysg eraill, gan gynnwys gwybodaeth gan y consortiwm rhanbarthol ar gyfer gwella ysgolion, cofnodion o amrywiaeth o gyfarfodydd, adroddiadau a gyflwynir i'r cyngor neu'r swyddogaeth graffu, gwybodaeth am ddiogelu dysgwyr ac unrhyw wybodaeth arall sy'n berthnasol i wasanaethau addysg yr awdurdod lleol y mae Estyn yn ei chadw

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi'r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau'r arolygiad ochr yn ochr â'r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad
- rhoi copi drafft o'r adroddiad i'r awdurdod lleol er mwyn iddo nodi unrhyw bryderon ynghylch cywirdeb ffeithiol, a gwneud diwygiadau lle bo'r angen

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr awdurdod lleol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 38 Deddf Addysg 1997, Deddf Plant 2004 a Deddf Dysgu a Sgiliau 2000.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/07/2022

# Adroddiad Arolwg Estyn – Cyngor Sir Ynys Môn

# Cynllun ôl-arolwg drafft



**Argymhelliad 1 - Cryfhau prosesau ar gyfer gwerthuso effaith gwaith y Gwasanaeth Dysgu**

**Cyd-destun o Arolwg Estyn**

Mae'r awdurdod yn rhoi sylw bwriadus i hyrwyddo dysgu proffesiynol ar gyfer ei staff trwy gynllun hyfforddi a datblygu corfforaethol. Mae staff yn derbyn cyfleoedd buddiol i drafod eu hanghenion dysgu proffesiynol personol mewn cyfarfodydd rheolwr llinell reolaidd ac adolygiadau rheoli perfformiad. Mae hyn yn arwain at gyfleoedd dysgu proffesiynol megis mynychu cyrsiau, rhwydweithiau rhanbarthol a chenedlaethol a chyflawni cyrsiau wedi eu hachredu. Mae'r awdurdod yn ystyried olyniaeth o fewn y gwasanaeth yn ofalus. Mae staff yn cael cyfleoedd buddiol i fentora a chysgodi eraill er mwyn cydweithio a datblygu eu harbenigeddau. Yn ogystal, mae staff yn derbyn cyfleoedd gwerthfawr i fynychu cyrsiau arweinyddiaeth a chymryd cyfrifoldeb dros arwain prosiectau trawsadrannol i ddatblygu eu medrau a phrofiad arwain. Er bod cynnig dysgu proffesiynol eang, nid yw arweinwyr pob amser yn ystyried effaith y dysgu proffesiynol ar wella ansawdd darpariaeth y Gwasanaeth Dysgu, na'r effaith ar ddeilliannau i ddysgwyr.

| Deilliant | Gweithred | Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad Cwblhau | Adnoddau | Statws Monitro |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Prosesau cadarn ar gyfer gwerthuso effaith gwaith y Gwasanaeth Dysgu yn weithredol.** | Adnabod anghenion a blaenoriaethau ar gyfer y gwasanaeth drwy ymgysylltu gyda rhanddeiliaid. | AFfJ | Medi 2022 | Tachwedd 2022 | Amser | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Creu cynllun hyfforddiant/datblygiad proffesiynol sy’n alinio ag anghenion a blaenoriaethau’r gwasanaeth | AFfJ | Tachwedd 2022 | Ionawr 2023 | Amser a mewnbwn Adnoddau Dynol | |
| | Adnabod pa staff canolog sydd angen mynychu pa hyfforddiant yn ystod y sgyrsiau blynyddol. | UDA | Chwefror 2023 | Chwefror 2023 | | |
| | Cymeradwyo’r broses/model ar gyfer ystyried effaith y dysgu proffesiynol. | UDA | Chwefror 2023 | Chwefror 2023 | | |
| | Adnabod a datblygu systemau/deunyddiau/trefniadau ar gyfer gweithredu’r model. | AFfJ | Mawrth 2023 | Mawrth 2023 | Amser staff y Tîm Busnes | |
| | Darparu hyfforddiant i reolwyr llinell ac unigolion allweddol tu allan i’r gwasanaeth, ar y model adolygu newydd. | AFfJ | Mawrth 2023 | Mawrth 2023 | | |
| | Defnyddio’r systemau/deunyddiau/trefniadau er mwyn adolygu’r hyfforddiant. | UDA | Ebrill 2023 | Ionawr 2024 | Amser UDA | |
| | Adolygu’r model am addasrwydd ac effeithiolrwydd yn erbyn blaenoriaethau ac anghenion y gwasanaeth. | AFfJ | Ionawr 2024 | Ionawr 2024 | | |

| **Deilliant** | **Gweithred** | **Swyddog Cyfrifol** | **Dyddiad Cychwyn** | **Dyddiad Cwblhau** | **Adnoddau** | **Statws Monitro** |
|---|---|---|---|---|---|---|

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Gwerthuso effaith gwaith y Gwasanaeth Dysgu ar ddysgwyr** | Cydweithio â chonsortia i adnabod dulliau effeithiol i werthuso ansawdd ac effaith dysgu proffesiynol ar ddeilliannau disgyblion. | ACE/OTD | Medi 2022 | Gorffennaf 2023 | | |
| | Defnyddio'r cyfarfodydd BAS a'r Cynllun Busnes i werthuso a herio ansawdd ac effaith dysgu proffesiynol ar ddeilliannau disgyblion. | ACE/AFfJ | Rhagfyr 2022 | Gorffennaf 2023 | | |
| | Cydweithio â Rheolwr Gwasanaeth Addysg Plant Mewn Gofal, Ieuenctid a Lles Plant a Phobl Ifanc i greu strategaeth fwy cydlynus ar gyfer gwaith cefnogi dysgwyr sy'n agored i niwed. | ACE/ShW | Medi 2022 | Gorffennaf 2023 | | |
| | Adolygu a gwella'r system o gasglu a monitro gwybodaeth am ddisgyblion bregus (dadgofrestru, gwaharddiadau, presenoldeb) i fod yn fwy cydlynus. | ShW/KN | Rhagfyr 2022 | Gorffennaf 2023 | | |
| | Sefydlu bwrdd llywodraethiant ar gyfer hybiau cynhwysiad i werthuso effaith yr ymyrraeth hon ar ddisgyblion bregus, gyda'r ysgolion uwchradd yn cyfrannu adroddiadau ar y gwaith. Bydd y bwrdd yn adrodd i'r BAS a'r Panel Sgriwtini Addysg. | ACE/ER | Medi 2022 | Gorffennaf 2023 | | |
| | Sicrhau bod Cynllun Darparu Gwasanaeth (CDG) y Gwasanaeth Dysgu'n rhoi ystyriaeth i strategaethau'r Cyngor. | AFfJ | Medi 2022 | Ebrill 2023 | | |
| | Adroddiadau chwarterol yn cynnwys gwybodaeth am gyfraniadau ac effaith gwaith y gwasanaeth ar strategaethau'r Cyngor. | AFfJ | Medi 2022 | Ebrill 2023 | | |

**Argymhelliad 2 - Datblygu a chryfhau trefniadau craffu ffurfiol**

**Cyd-destun o Arolwg Estyn**

Mae adroddiadau ar waith y Panel Adolygu Cynnydd Ysgolion yn cael eu cyflwyno i'r Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio. Er hynny, prin yw cyfleoedd ar hyn o bryd i graffu'n benodol, ffurfiol a chyhoeddus ar effeithiolrwydd gwaith y ddarpariaeth addysg. Yn unol â'u dyhead i wella'n barhaus, mae'r Cyngor wedi adnabod yr angen i gryfhau a gwella'r broses graffu gyda'r bwriad i ffocysu ar safonau, ansawdd darpariaeth ac arweinyddiaeth addysg.

| Deilliant | Gweithred | Swyddog Cyfrifol | Dyddiad Cychwyn | Dyddiad Cwblhau | Adnoddau | Statws Monitro |
|---|---|---|---|---|---|---|
| **Proses graffu gadarn ar waith ar gyfer craffu ar waith y Gwasanaeth Dysgu.** | Adolygu'r broses gyfredol a sefydlu proses graffu newydd. | AD/RHH | Gorffennaf 2022 | Medi 2022 | | |
| | Penderfynu ar aelodaeth ar gyfer y cyfarfodydd a phwyllgorau craffu. | Aelodau Etholedig | Gorffennaf 2022 | Gorffennaf 2022 | | |
| | Creu cylch gorchwyl a chadarnhau pwrpas ac amlder cyfarfodydd a phwyllgorau. | AD | Gorffennaf 2022 | Gorffennaf 2022 | | |
| | Ymgysylltu a chytuno ar raglen waith i'r panel craffu addysg. | RHH/MBH ac aelodau y panel craffu | Gorffennaf 2022 | Hydref 2022 | | |
| | Sicrhau bod blaen raglen wedi ei gosod gyda mewnbwn UDA'r Gwasanaeth Dysgu a Gwasanaethau Plant, ynghyd ac awdurdodi gan Tîm Arweinyddiaeth y Cyngor. | AD/MBH | Gorffennaf 2022 | Hydref 2022 | | |
| | Sicrhau bod proses mewn lle sy'n cryfhau gallu Aelodau Etholedig i uchafu, blaenoriaethu ac yna chraffu eitemau Addysg o bwys strategol yn gyhoeddus. | AD/MBH | Gorffennaf 2022 | Hydref 2022 | | |

# Panel Sgriwtini Addysg

CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.llyw.cymru
www.anglesey.gov.wales

## Dydd Iau, 22 Medi 2022

# *Education Scrutiny Panel*

## *Thursday, 22 September 2022*



**Adroddiad Arolwg Estyn – Cyngor Sir Ynys Môn**

i. Prif gasgliadau
ii. Argymhellion – ffordd ymlaen

***Estyn Inspection Report – Isle of Anglesey County Council***

*i. Main conclusions*
*ii. Recommendations – way forward*

1) Trosolwg o Adroddiad Arolwg Estyn – Cyngor Sir Ynys Môn

2) Ymateb y gwasanaeth i'r arolwg
- Cyflwyno cynllun ôl-arolwg drafft
- Crynodeb o astudiaethau achos

Yr Arolwg

- Mehefin 6ed – 10fed
- 9 arolygydd
- Enwebai – Aaron C. Evans
- Cyhoeddiad yr adroddiad 22/07/022

*1) Overview of Estyn Inspection Report – Isle of Anglesey County Council*

*2) The service's response to the survey*
- *The draft post inspection plan*
- *Summary of case studies*

*The Inspection*

- *June 6th-10th, 2022*
- *9 inspectors*
- *Nominee – Aaron C. Evans*
- *Publication of the report – 22/07/2022*

## Yr Adroddiad

1) Deilliannau

2) Pa mor dda mae'r awdurdod lleol a'r gwasanaeth rhanbarthol yn cefnogi ysgolion i wella ansawdd addysgu ac arweinyddiaeth?

3) Pa mor effeithiol yw darpariaeth yr awdurdod lleol i gefnogi dysgwyr bregus sydd mewn perygl o ymddieithrio?

## *The Report*

*1) Outcomes*

*2) How well do the local authority and the regional service support schools to improve the quality of teaching and leadership?*

*3) How effective is the local authority's provision for supporting vulnerable learners at risk of becoming disengaged?*

4) Pa mor effeithiol yw darpariaeth yr awdurdod lleol ar gyfer hybu lles yr holl blant a phobl ifanc?

5) Pa mor effeithiol yw ymagwedd yr awdurdod lleol tuag at foderneiddio ysgolion gan gynnwys cryfhau darpariaeth cyfrwng Gymraeg?

6) Arweinyddiaeth a rheolaeth

*4) How effective is the local authority's provision for promoting the well-being of all children and young people?*

*5) How effective is the local authority's approach towards modernising schools, including strengthening Welsh-medium provision?*

*6) Leadership and management*

## Trosolwg Cyffredinol

- Mae ansawdd ac effeithiolrwydd cadarn arweinwyr y Gwasanaeth Dysgu o fewn awdurdod Ynys Môn yn cyfrannu'n effeithiol iawn tuag at sicrhau gwasanaethau addysg o safon uchel.

- Maent wedi datblygu ethos a meddylfryd 'Tîm Môn' lle mae cydweithio a chyfraniad pawb yn cael ei werthfawrogi, ei feithrin a'i ddefnyddio er budd plant a phobl ifanc yr ynys.

| | | | |
|---|---|---|---|
| Effeithiol | 26 | Buddiol | 8 |
| Llwyddiannus | 7 | Cydweithio | 24 |
| Cadarn | 18 | Cryf | 18 |
| Da | 21 | cydlynys | 4 |
| Clir | 4 | Nodwedd gref | 4 |

## *General Overview*

- *The robust quality and effectiveness of the Learning Service leaders within Isle of Anglesey authority contribute very effectively towards ensuring high quality education services.*

- *They have developed the 'Team Môn' ethos and mindset where everyone's co-operation and contribution are valued, nurtured and used for the benefit of the island's children and young people.*

| | | | |
|---|---|---|---|
| *Effective* | *26* | *Beneficial* | *20* |
| *Successfully* | *7* | *Co-operate* | *22* |
| *Robust* | *8* | *Strong* | *32* |
| *Good* | *17* | *Coordinated* | *2* |
| *Clear* | *14* | *Notable* | *4* |

**Argymhellion**

- Cryfhau prosesau ar gyfer gwerthuso effaith gwaith y Gwasanaeth Dysgu.
- Datblygu a chryfhau trefniadau craffu ffurfiol.

Astudiaethau achos ar y gwaith cydlynus o:

- Warchod a gwella lles dysgwyr.
- O ran y gwaith i gryfhau'r Gymraeg.

***Recommendations***

- *Strengthen processes for evaluating the effect of the Learning Service's work.*
- *Develop and strengthen formal scrutiny arrangements.*

*Case studies on the coordinated work to:*

- *Protect and improve the well-being of learners.*
- *In terms of the work to strengthen the Welsh language*.

# Cwestiynau / *Questions*

# Ymateb i'r arolwg – Templed cynllun ôl-arolwg

## *Responding to the inspection – Post-inspection template*



| Argymhelliad - *Recommendation* | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyd-destun o Arolwg Estyn<br>*Context from Estyn Inspection* | | | | | | |
| Deilliant<br>*Outcome* | Gweithred<br>*Action* | Swyddog Cyfrifol<br>*Responsible Officer* | Dyddiad Cychwyn<br>*Start Date* | Dyddiad Cwblhau<br>*Completion Date* | Adnoddau<br>*Resources* | Statws Monitro<br>*Monitoring Status* |
| | | | | | | |
| | | | | | | |
| | | | | | | |

**Argymhelliad 1 - Cryfhau prosesau ar gyfer gwerthuso effaith gwaith y Gwasanaeth Dysgu**

***Recommendation 1 – Strengthen processes for evaluating the effect of the Learning Service's work***

Deilliant 1 - Prosesau cadarn ar gyfer gwerthuso effaith gwaith y Gwasanaeth Dysgu'n weithredol.

*Outcome 1 - Robust processes for evaluating the effect of the Learning Service's work are operational*

Deilliant 2 - Gwerthuso effaith gwaith y Gwasanaeth Dysgu ar ddysgwyr

Outcome 2- Evaluate the effect of the Learning Service's work on learners

**Argymhelliad 2 - Datblygu a chryfhau trefniadau craffu ffurfiol**

***Recommendation 2 – Develop and strengthen formal scrutiny arrangements***

Deilliant - Proses graffu gadarn ar waith ar gyfer craffu ar waith y Gwasanaeth Dysgu.

Outcome - Robust scrutiny process in place to scrutinise the Learning Service's work.

## Astudiaeth Achos Lles Dysgwyr

- O fewn y Gwasanaeth Dysgu, penodir Uwch Swyddog i roi sylw penodol ar hyrwyddo llesiant.
- Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ganolog i'r gwaith.
- Mae'r rôl yn sicrhau bod gan y Gwasanaeth Dysgu lais i ddylanwadu ar ymyraethau llesiant ar lefel strategol yn lleol, yn rhanbarthol ac yn genedlaethol.
- Hyrwyddir cydweithio cynhyrchiol â phartneriaid gan gynnwys Gwasanaethau Cymdeithasol, swyddogion lles, Gwasanaeth Cynhwysiad Gwynedd a Môn a gwasanaethau ieuenctid ac eraill er mwyn ymateb i anghenion dysgwyr bregus ond hefyd er mwyn gweithio'n rhagweithiol i atal problemau'n gynnar.
- Mae'r egwyddor o weithio'n ataliol yn greiddiol ac yn gryfder yma ym Môn. Agwedd amlwg o'r egwyddor hon yw'r gwaith i godi ymwybyddiaeth o effaith trawma ar blant a phobl ifanc.
- Yn ei dro, mae'r weledigaeth wedi cryfhau gweithdrefnau Diogelu ar draws yr ysgolion yn llwyddiannus.



## *Well-being of Learners Case Study*

- *Within the Learning Service, a Senior Officer is appointed to pay particular attention on promoting well-being.*
- *The Well-being of Future Generations Act is central to the work.*
- *The role ensures that Learning Service has a voice to influence well-being interventions at a strategic level locally, regionally and nationally.*
- *Productive collaboration with partners such as Social Services, welfare officers, Gwynedd and Anglesey Inclusion Service, youth and other services is promoted to respond to the needs of vulnerable learners to work proactively to prevent problems early.*
- *The principle of preventive working is core and a strength here in Anglesey. A prominent aspect of this principle is the work to raise awareness of the impact of trauma on children and young people.*
- *In turn, the vision has successfully strengthened Safeguarding procedures across schools.*

## Astudiaeth Achos Y Gymraeg mewn Addysg

- O fewn y Gwasanaeth Dysgu, penodir Uwch Swyddog i roi sylw penodol i hyrwyddo'r Gymraeg mewn Addysg.
- Mae Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA) yn greiddiol i'r maes hwn ac rydym yn adrodd yn flynyddol ar gynnydd.
- Mae'r Gwasanaeth Dysgu'n llwyddiannus mewn ceisiadau Grant Trochi gan LlC. Golyga hyn bod dau aelod ychwanegol yn ymuno â'r tîm Canolfan Iaith (4→6).
- Mae'r ganolfan yn cynnal cyrsiau 12 wythnos i hwyrddyfodiaid ac yn cefnogi dysgwyr drwy adnoddau ac ymweliadau ôl-ofal.
- Yn fwy diweddar, cynhelir ymweliadau i ddalgylchoedd penodol a'r sector uwchradd. Mae'r gwaith yn cefnogi aelodau staff drwy rannu arferion da addysgeg trochi a thrwy hyn yn codi gwydnwch yn addysg drochi Cymraeg yr ynys.
- E.e. "mae arweinwyr yn cydweithio'n llwyddiannus gyda'r consortiwm rhanbarthol a Phrifysgol Bangor i greu adnoddau digidol a chefnogaeth i ddatblygu medrau llafar disgyblion trwy brosiect arloesol".

## Welsh in Education Case Study

- Within the Learning Service, a Senior Officer is appointed to pay particular attention to the promotion of Welsh in Education.
- The Welsh in Education Strategic Plan (WESP) is core to this area and we report annually on progress.
- The Learning Service is successful in Immersion Grant applications from WG. This means that two additional members have joined the Language Centre team (4 → 6).
- The centre runs 12-week courses for learners and supports learners through resources and aftercare visits.
- More recently, visits are made to specific catchment areas and the secondary sector. The work supports staff members by sharing the good practice of immersion pedagogy and hereby raises resilience in the island's Welsh immersion education.
- E.g. "leaders are successfully collaborating with the regional consortium and Bangor University to create digital resources and support to develop pupils' verbal skills through an innovative project".

# Cwestiynau / *Questions*

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **PWYLLGOR GWAITH** |
| Dyddiad: | **25 Hydref 2022** |
| Pwnc / Testun: | **Rhaglen ARFOR 2** |
| Deilydd(ion) Portffolio: | **Y Cynghorydd Carwyn Jones** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Christian Branch** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Tel:<br>E-bost: | **Dewi G Lloyd, Rheolwr Adfywio**<br>**01248 752483**<br>**dewilloyd@ynysmon.llyw.cymru** |
| Aelodau Lleol: | **Yn berthnasol i'r holl Aelodau Etholedig** |

## A – Argymhelliad / Argymhellion a rheswm / rhesymau

**A1 Cytuno y bydd Cyngor Sir Ynys Mon yn gweithredu ar y cyd efo awdurdodau sirol eraill perthnasol fel partner yn Rhaglen ARFOR 2;**

**A2 Awdurdodi'r Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economi i wneud y canlynol, gyda chytundeb y Pennaeth Cyllid o safbwynt penderfyniadau cyllidol, a Cyfreithiwr y Cyngor o safbwynt cytundebau cyfreithiol :-**

- **a) Derbyn telerau cytundeb(au) rhanbarthol yn ymwneud a rhaglen ARFOR 2;**
- **b) Derbyn cyllid ARFOR 2 a rheoli'r cyllid yma yn unol ag amodau'r cyllid;**
- **c) Gweinyddu cynlluniau a grantiau ARFOR 2 sy'n gyfrifoldeb arnom;**
- **d) Cynrychioli'r Cyngor mewn gweithgareddau rhanbarthol ARFOR 2, yn cynnwys cytuno manylion y rhaglen sy'n berthnasol i Ynys Mon.**

**RHESYMAU**

**1. CYLLID ARFOR 2**

Mae £11 miliwn mewn cyllid refeniw wedi ei ymrwymo gan Lywodraeth Cymru i wedd bellach o'r Rhaglen Arfor hyd at Fawrth 2025. Mae Cynghorau Gwynedd, Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr wedi bod yn cyd-drafod defnydd y gyllideb a rheolaeth y Rhaglen, a bu cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru am y Rhaglen newydd ar y 10fed Hydref 2022

**2. RHAGLEN ARFOR 1 (2019-21)**

2.1 Dyfarnwyd £2m mewn refeniw ar gyfer rhaglen Arfor gan Adran Economi LLC yn y cyfnod 2019/20 a 2020/21 i siroedd Mon, Gwynedd, Ceredigion a Sir Gar "***beilota dulliau a prosiectau gwahanol i hybu entrepreneuriaeth, twf busnes a cydnerthedd cymunedol gyda ffocws ar hybu defnydd y Gymraeg***" ac **"..** ***i hwyluso dulliau newydd ac arloesol o hybu datblygiad economaidd yn y rhanbarth***."

2.2 Gosodwyd pedwar targed gan LC – dau yn ymwneud a'r economi a dau yn ymwneud a'r Gymraeg.

| | **Targedau wedi eu gosod gan Lywodraeth Cymru yn y Llythyr Cynnig** |
|---|---|
| 1 | Hybu mentrau a chefnogi twf busnes mewn ardaloedd lle mae canran uchel o'r bobl yn siarad Cymraeg |
| 2 | Sicrhau swyddi gwell sy'n talu'n well i gadw pobl leol yn yr ardaloedd hyn ac annog pobl sydd wedi gadael i ddod yn ôl |
| 3 | Hyrwyddo gwerth dwyieithrwydd a'r Gymraeg mewn busnesau |
| 4 | Annog busnesau a phobl sy'n symud i ardaloedd gwledig i werthfawrogi a defnyddio'r Gymraeg |

2.3 Adroddwyd ar y bwriad i'r Pwyllgor Gwaith ar y 15.07.2019 ble penderfynwyd cefnogi a gweithredu Rhaglen Arfor ar Ynys Mon, ac i awdurdodi y Pennaeth Gwasanaeth Rheoleiddio a Dablygu Economaidd i :-

a) dderbyn y cyllid Arfor gan Lywodraeth Cymru trwy Gyngor Gwynedd a'i ddefnyddio ar weithgaredd cymwys;
b) weithio mewn partneriaeth efo Cyngor Gwynedd neu gynghorau eraill ardal Arfor er mwyn gweithredu'r rhaglen;
c) weithio mewn partneriaeth efo Menter Mon er mwyn gweithredu'r rhaglen Arfor;
d) weithredu rhaglen grantiau o'r gronfa Arfor i gynlluniau cymwys.

Mae'r adroddiad newydd yma yn gofyn am awdurdod tebyg i weithredu'r rhaglen newydd.

2.4 Ar Ynys Mon, gwireddwyd y cynlluniau canlynol gyda £468k o gyllid refeniw:-

- **Grantiau Busnes**– rhoddwyd cyngor a grantiau i 22 o fusnesau oedd am fentro i fuddsoddi a sefydlu neu dyfu busnes;
- **Grantiau Iaith mewn Busnes** – rhoddwyd cyngor a grantiau bach i 48 busnes oedd am wneud mwy o ddefnydd o'r Gymraeg;
- **Llwyddo'n Lleol 2050** – cefnogwyd 14 o bobl ifanc lleol i fentro o fewn eu cymunedau, a bu gwaith hyrwyddo i eraill ddilyn eu hesiampl (ar y cyd efo Gwynedd);
- Creu llyfryn hybu'r Gymraeg yn gyffredinol ac un penodol i fusnesau, a sbarduno gwella adran gwybodaeth am y Gymraeg ar wefan y Cyngor.

2.5 Cyngor Gwynedd oedd yn arwain y rhaglen a'r broses cydlynu rhanbarthol, yn cynnwys cynnal cyfarfodydd Bwrdd Arfor a Grwp Swyddogion Arfor, a hawlio'r cyllid gan Lywodraeth Cymru. Comisiynwyd strategaeth ac adolygiad allanol, a cynllun marchnata Bwrlwm Arfor i hyrwyddo enghreifftiau o lwyddiant lleol. Fe arweiniodd Gwynedd hefyd ar gais cyllid 'Arfor Cyfalaf' ar ran Gwynedd a Mon, a derbyniodd Ynys Mon £160k i roi grantiau Arfor pellach i gefnogi pump cynllun buddsoddi cyfalaf sylweddol gan fusnesau a mudiadau ar yr Ynys.

2.6 Gweinyddwyd elfenau o'r gwaith ar Ynys Mon gan Menter Mon. Roedd panel grantiau Mon yn cynnwys swyddogion o'r Cyngor Sir, Busnes Cymru, Hwb Menter, a Menter Iaith Mon. Adroddwyd cynnydd hefyd drwy stwythurau adolygu prosiectau'r gwasanaeth, ac i Fforwm Iaith Mon.

2.7 Ar gyfer Mon, dyfarnwyd cyfanswm o 75 grant i gefnogi: 42 busnes yn bodoli, 18 busnes newydd, 60.5 swydd newydd, 108.5 swydd yn bodoli, 36 cynnyrch neu wasanaeth newydd, £750k+ o fuddsoddi preifat. Dyma oedd yr allbynau manwl ar gyfer Ynys Mon :-

| Mesur | Nifer | Mesur | Nifer |
|---|---|---|---|
| Grant Busnes Arfor | 22 | Lleoliad Gwaith | 8 |
| Grant Iaith Arfor | 48 | Codi Trosiant | 42 |
| Grant Arfor Arall | 12 | Cynnyrch Newydd | 36 |
| Swm Grant Arfor | £551,463 | Gwella Eiddo | 36 |
| Swm Prosiect Cyfan | £1,392,833 | Gwella arwyddion | 34 |
| Swm Gwario Preifat | £763,219 | Codi Defnydd Iaith | 48 |
| Busnes yn Ehangu | 42 | Cymwyster Iaith | 5 |
| Busnes Newydd | 18 | Cymwyster Arall | 3 |
| Creu Swyddi | 60.5 | Cadw Swyddi | 108.5 |
| Allbynau Eraill | Ehangu cynulleidfa radio cymunedol, Creu stiwdio teledu ar Ynys Mon, Ehangu cynllun Wifi cymunedol / Lorawan | | |

2.8 Amharwyd yn sylweddol ar gyfnod gweithredu'r Rhaglen gan y pandemig coronfeirws. Er gwaetha hyn a'r gyllideb gymedrol, adroddodd y gwerthusiad rhaglen ei fod wedi gwneud gwahaniaeth yn cynnwys cefnogi nifer sylweddol o fusnesau a swyddi newydd, a sefydlu'r arfer o gydweithio rhwng aelodau a swyddogion y bedair sir.

**3.0 BWRIAD RHAGLEN ARFOR 2 (2022-2025)**

3.1 Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi £11 miliwm pellach i gynnal ail wedd i'r Rhaglen hyd at Fawrth 2025. Y proffil blynyddol sydd wedi ei roi ydi hyn : 2022/23: £3M, 2023/24: £4M, 2024/25: £4M.

3.2 Yn Ebrill 2022, cyflynodd Bwrdd ARFOR (sef Arweinyddion y pedair Sir) 'Gynnig Amlinellol' ar gyfer ail wedd y Rhaglen i Lywodraeth Cymru yn gosod allan rhesymeg, pwrpas, amcanion strategol ac egwyddorion ar gyfer ARFOR 2. Amgeir y Cynnig Amlinellol yn Atodiad 1.Cadarnhawyd dymuniad i barhau i gydweithio ar sail y pedair sir, i'r pwrpas canlynol: "***Cefnogi'r cymunedau sy'n gadarnleoedd y Gymraeg i ffynnu drwy ymyraethau economaidd fydd hefyd yn cyfrannu at gynyddu cyfleoedd i weld a defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol."***

3.3 Mewn ymgynghoriad gyda swyddogion Llywodraeth Cymru (yr Adran Economi a'r Uned Iaith Gymraeg) mae swyddogion y pedair sir wedi datblygu cynigion ar gyfer trosi'r amcanion strategol yn brosiectau i'w cyflawni. Mae ymarferoldeb gwario £3M yn ystod 2022/23 yn fater sy'n cael ei drafod efo Llywodraeth Cymru.

**4.0 ELFENAU ARFOR 2 ARFAETHEDIG**

**4.1 Llwyddo'n Lleol 2050**

Esblygiad o'r prosiect i gefnogi pobl ifanc i fentro o fewn eu cymunedau cynhenid oedd yn weithredol yng Ngwynedd a Môn yn unig yn ystod gwedd gyntaf y Rhaglen ARFOR ar draws y pedair sir. Bydd y cynllun yn parhau i gefnogi pobl ifanc i fentro drwy gyfuniad o gefnogaeth a chymorth ariannol ond hefyd yn ymestyn i gefnogi teuluoedd ifanc i aros neu

ddychwelyd i'r ardal ynghyd â cheisio newid canfyddiadau'r grwpiau targed ynglŷn â'u gallu i gyflawni eu dyheadau yn lleol. Bydd y cynllun yn weithredol ar draws y pedair sir ac yn cael ei wireddu'n rhanbarthol drwy gomisiwn wedi ei reoli gan yr awdurdod arweiniol.

**4.2 Cymunedau Mentrus**

Adeiladu ar y cronfeydd cefnogi busnes llwyddiannus oedd ar gael gan y pedair sir yn ystod gwedd gyntaf y Rhaglen Arfor drwy ddarparu cefnogaeth ariannol ac ymarferol i fentrau masnachol, cymdeithasol a chymunedol i sefydlu a datblygu. Bydd y gweithgaredd yn canolbwyntio ar fentrau sydd yn manteisio ar rinweddau unigryw eu cymunedau (yn cynnwys y Gymraeg) ac/neu sydd yn cylchdroi arian o fewn eu hardal er mwyn cynyddu faint o gyfoeth sydd yn cael ei gadw'n lleol. Bydd y cynllun yn weithredol ar draws y pedair sir ond yn cael ei wireddu'n lleol gan y siroedd unigol (er gyda phwyslais ar gydlynu a chysoni'r ddarpariaeth) gyda cyllideb drafft fesul sir o £1.25M dros y cyfnod.

**4.3 Cronfa Her Arfor**

Sefydlu cronfa strategol i ganiatáu sefydliadau (yn cynnwys y Cynghorau) i sicrhau adnoddau i ddatblygu a threialu gweithgareddau o fewn ardal ARFOR fydd yn cyflawni amcanion strategol y Rhaglen. Bydd y Gronfa yn ymateb i'r casgliadau yng ngwerthusiad gwedd gyntaf y Rhaglen Arfor fod angen cynnig cyfle i ystod ehangach o sefydliadau gyda diddordeb yn y maes i gyfrannu ac yn caniatáu i weithgaredd newydd gael ei gomisiynu yn ystod oes Arfor. Bydd y cynllun yn weithredol ar draws y pedair sir ac yn cael ei reoli'n rhanbarthol gan yr awdurdod arweiniol gyda mewnbwn yr holl siroedd.

**4.4 Cryfhau hunaniaeth cymunedau Arfor**

Bydd y cynllun yn adeiladu ar waith blaenorol i hyrwyddo arfer da a'r defnydd o'r Gymraeg. Bydd y gwaith yn hyrwyddo hunaniaeth cymunedau gyda dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg ac yn sbarduno teyrngarwch trigolion lleol drwy ledaenu negeseuon cadarnhaol am eu hardal a Gorllewin Cymru yn ei gyfanrwydd. Bydd y cynllun yn weithredol ar draws y pedair sir ac yn cael ei wireddu'n rhanbarthol drwy gomisiwn wedi ei reoli gan yr awdurdod arweiniol.

**4.5 Dysgu o'r Rhaglen Arfor**

Rhinwedd allweddol o'r Rhaglen Arfor yw sbarduno cydweithio a rhaeadru dysgu ynglŷn â'r maes. Bydd y cynllun yn sicrhau fod monitro a gwerthuso canlyniadau ac ardrawiad Arfor yn ganolog i'r Rhaglen, ynghyd â sicrhau fod strwythurau i rannu'r gwersi o'r Rhaglen a'i weithgaredd yn cael eu sefydlu o'r cychwyn. Bydd y cynllun yn weithredol ar draws y pedair sir ac yn cael ei wireddu'n rhanbarthol drwy gomisiwn wedi ei reoli gan yr awdurdod arweiniol.

**5.0 RHEOLI ARFOR 2**

5.1 Y bwriad ydi y bydd ail wedd y Rhaglen ARFOR yn parhau i gael ei arwain gan Fwrdd yn cynnwys Arweinyddion y pedair sir, ac yn cael ei gefnogi gan Grŵp Swyddogion yn cynnwys swyddogion uwch yn cynrychioli'r pedair sir, ynghyd â chynrychiolwyr o Lywodraeth Cymru a Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru. Mae siroedd Ynys Môn, Ceredigion a Sir Gâr wedi datgan dymuniad i Gyngor Gwynedd barhau i gydlynu / arwain y rhaglen ar ran y pedair sir.

5.2 Mae cytundeb cyfreithiol rhwng y siroedd eisoes wedi ei greu ar gyfer gwedd gyntaf y Rhaglen ARFOR, ble gwariwyd mwyafrif y gyllideb gan y siroedd unigol. Mae'r prif wahaniaethau yn yr ail wedd yn cynnwys cyllideb sylweddol uwch a'r bwriad ar gyfer cyd-gomisiynu gllawer o weithgaredd rhanbarthol a llawer o'r gyllideb drwy'r corff arweiniol. Mae risciau posib wrth fod yn rhan o drefniadau rhanbarthol fel hyn, ond ystyrir bod y tebygrwydd o oblygiadau negyddol yn codi yn isel. Bydd y cytundeb newydd ac ynrhyw gomisiynau ar y cyd angen eu adolygu yn ofalus i sicrhau bod y risciau i Gyngor Sir Ynys Mon yn dderbyniol.

5.3 Bydd Cyngor Gwynedd yn penodi Rheolwr Rhanbarthol i'r Rhaglen. Bwriedir rhoi cyfraniad i bod sir unigol at gostau cyfwerth 0.5 swyddog am y cyfnod. Eglurwyd bod tua 5% o'r gwariant sirol yn cyd-fynd a cyfradd gallu hawlio costau staffio rhaglenni eraill gan LC, a tra'n gyfyngedig mae'n fwy na'r costau staffio Cyngor ellid ei hawlio dan Arfor 1.

**6. RHESYMAU AM YR ARGYMHELLION**

6.1. Mae modd i Ynys Mon elwa yn sylweddol drwy fod yn rhan o'r rhaglen newydd a derbyn y cyllid / buddion perthnasol, gyda lefel tebygol y cyllid sirol yn £1.125M;

6.2 Mae'r gweithgaredd arfaethedig yn esblygiad o waith blaenorol y rhaglen gan roi sylw penodol i'r gwersi a ddysgwyd, ond mae rhai agweddau newydd, ac mae angen sicrhau gwarchod buddiannau'r Ynys a'r Cyngor mewn unrhyw drefniadau newydd ar y cyd a siroedd eraill a Llywodraeth Cymru.

**7. CAMAU NESAF AC AMSERLEN**

7.1 Bu cyhoeddiad gan Lywodraeth Cymru am y rhaglen newydd ar y 10fed Hydref 2022, a bydd Cyngor Gwynedd yn hysbysebu'r cynlluniau rhanbarthol ar wefan gwerthwchigymru.llyw.cymru ac yn hysbysebu swydd y rheolwr rhaglen rhanbarthol.

7.2. Bydd Llywodraeth Cymru yn anfon llythyr cynnig cyllid i Gyngor Gwynedd, a bydd Cyngor Gwynedd yn anfon cytundeb efo'r llyrthyr cynnig i'r siroedd eraill ei gytuno.

7.3. Bydd gwaith yn cymeryd lle i sefydlu'r Grant Cymunedau Mentrus sirol a rhoi trefniadau a capasiti yn ei le i'w weinyddu, gyda'r bwriad o'i lansio o fewn y flwyddyn ariannol gyfredol.

7.4 Bydd cyfleon i Ynys Mon elwa o'r cronrfeydd rhanbarthol hefyd, a bydd rol i'r Cyngor sicrhau hynny.

| B – Pa opsiynau eraill bu i chi ystyried a beth oedd y rhesymau am eu gwrthod ac/neu am ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Yr opsiwn arall fyddai dewis peidio ymuno yn y rhaglen newydd – nid ydym wedi adnabod rheswm na risciau fyddai yn cyfiawnhau argymell hynny. |

| C – Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Er mwyn rhoi awdurdod ffurfiol i ymuno mewn rhaglen newydd sylweddol a derbyn a gweinyddu cyllid newydd sylweddol |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Bydd – os oes cefnogaeth i'r amcan perthnasol yng nghynllun y Cyngor |

| D – A yw'r penderfyniad hwn oddi fewn i'r gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor? |
|---|
| Mae'r penderfyniad yn ymwneud a sicrhau a defnyddio cyllid allanol. Fel gyda rhaglenni grant eraill tebyg, bydd sefydlu/ rheoli/ cau y rhaglen yn rhoi rhai galwadau ar adnoddau staffio'r Cyngor sydd o fewn cyllidebau presennol. |

| Dd – Asesu'r effeithiau posibl (os yn berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad yma'n effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae gweithredu'r rhaglen ARFOR newydd yn is-amcan penodol yng nghynllun newydd y Cyngor |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad a ragwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod i'r dyfodol? Os felly, sut? | Na, ond bydd y rhaglen yn cyllido gweithgareddau ychwanegol sy'n cyfrannu i amcanion yr Awdurdod |
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn? Os felly, rhowch wybod gyda phwy. | Do – Cynghorau Sir Gwynedd/ Ceredigion/ Sir Gar a Llywodraeth Cymru |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rheini y byddai'r penderfyniad yn cael effaith uniongyrchol arnynt? Esboniwch sut. | Mae adborth busnesau a mentrau cymunedol a cynghorwyr busnes wedi ei ystyried wrth greu'r rhaglen newydd |
| 5 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan y Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Ni ragwelir effaith negyddol |

| | | |
|---|---|---|
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad yn ei gael ar y rhai sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Ni ragwelir effaith negyddol, a gallai fod sgil effeithiau cadarnhaol ee creu swyddi newydd |
| 7 | Nodwch unrhyw effeithiau posibl y byddai'r penderfyniad hwn yn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg a pheidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Mae amcanion y rhaglen yn cynnwys creu buddion o safbwynt defnydd y Gymraeg |

| E – Gyda phwy yr ymgynghoroch? | Beth oedd eu sylwadau? | |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | Gofynwyd bod adroddiad hefyd i'r Pwyllgor Sgriwtini, a cynnwys mwy o wybodaeth am Arfor 1 yn yr adroddiad |
| 2 | Cyllid / Swyddog 151 (gorfodol) | Bydd angen ystyriaeth gofalus i unrhyw gais i dderbyn 'joint liability' ar gyfer prosiectau mae sir arall yn ei arwain. Bydd angen i grantiau fodloni rheoliadau sybsidi newydd y DU. O ystyried yr amserlu yn hwyr yn y flwyddyn ariannol, efallai na fydd yn bosib gwario'r gyllideb rhanbarthol a ddangosir ar gyfer Blwyddyn 1. |
| 3 | Swyddog Cyfreithiol / Monitro (gorfodol) | Sylwadau ynglyn a mater 'joint liability' a defnyddio geiriad o adroddiad Gwynedd – wedi adlewyrchu yn y fersiwn terfynol |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | |
| 5 | Eiddo | |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth (TG) | |
| 7 | Caffael | |
| 8 | Sgriwtini | Pwyllgor Sgriwtini Partneriaeth ac Adfywio i ystyried Rhaglen Arfor |
| 9 | Aelodau Lleol | |

F - Atodiadau:

ARFOR Gwedd II (2022/23 – 2024/25)

# CYNNIG AMLINELLOL

## Rhesymeg

Yn Sir Gâr, Gwynedd, Ceredigion ac Ynys Môn ceir y mwyafrif llethol o'r cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg. Mae'r cymunedau hyn yn allweddol i gynnal bywiogrwydd y Gymraeg a'i barhad yn iaith beunyddiol.

Mae heriau economaidd y bedair sir – megis cyflogau isel, tan-gyflogaeth a gweithlu sy'n crebachu - yn gyffredin i llawer o ardaloedd gwledig ac ymylol yng Nghymru a thu hwnt; ond mae ardrawiad yr heriau hyn ar y Gymraeg yn unigryw ac yn bellgyrhaeddol.

Mae ffyniant cadarnleoedd y Gymraeg yn amodol ar fwy na gwaith a thâl, ond gellir rhesymu fod anallu'r economi i gefnogi trigolion i gyflawni eu dyheadau - a cynnal llefydd llewyrchus - yn andwyol.

## Pwrpas

Cefnogi'r cymunedau sy'n gadarnleoedd y Gymraeg i ffynnu drwy ymyraethau economaidd fydd hefyd yn cyfrannu at gynyddu cyfleoedd i weld a defnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol.

## Amcanion strategol

1. **Creu cyfleoedd i bobl a teuluoedd ifanc (≤ 35 oed) i aros neu i ddychwelyd i'w cymunedau cynhenid** - gan eu cefnogi i lwyddo'n lleol drwy fentro neu ddatblygu gyrfa a sicrhau bywoliaeth sydd yn cyflawni eu dyheadau.
2. **Creu cymunedau mentrus o fewn y fro Gymraeg** - drwy gefnogi mentrau masnachol a chymunedol sy'n anelu i gadw a chynyddu cyfoeth lleol gan fanteisio ar hunaniaeth a rhinweddau unigryw eu hardaloedd.
3. **Uchafu budd gweithgaredd drwy gydweithio** - drwy sefydlu meddylfryd dysgu drwy wneud a gwella parhaus, dysgu o weithgaredd o fewn ardaloedd unigol ac yna ei ymestyn, ond gyda teilwra i amgylchiadau lleol.

4. **Cryfhau hunaniaeth cymunedau sydd â dwysedd uchel o siaradwyr Cymraeg** - drwy gefnogi defnydd a gwelededd y Gymraeg, annog naws am le a theyrngarwch lleol, ynghyd â chynyddu ymwybyddiaeth o'r hyn sy'n gyffredin ar draws y rhanbarth.

Egwyddorion gweithredu

- Cydweithio, cyd-gynllunio a rhannu gwersi.
- Cynyddu dealltwriaeth o'r broblem a gwella'n barhaus gan adeiladu ar yr hyn gyflawnwyd yn ystod gwedd gyntaf ARFOR.
- Sicrhau fod gwerthuso yn rhan integredig o'r rhaglen.
- Ychwanegu gwerth ac ategu gweithgareddau prif ffrwd (datblygu ieithyddol a datblygu economaidd) neu cyfarch blychau yn y darpariaeth.
- Canolbwyntio ymdrech ar nifer bach o themâu craidd fel bo modd mesur effaith ond parhau i dorri tir newydd a threialu syniadau.
- Gweithredu ar sail pedair sir gyda golwg ar wersi i ardaloedd eraill a'r sgôp i ymestyn ffiniau daearyddol yn y dyfodol.
- Cyfrannu'n gadarnhaol i themâu llorweddol; lleihau ôl troed carbon, sgiliau, arloesedd a'r defnydd o dechnoleg.

Ff – Papurau Cefndir (cysylltwch ag awdur yr Adroddiad am ragor o wybodaeth):

Gwefan rhanbarthol rhaglen Arfor https://www.rhaglenarfor.cymru/

Tudalen Arfor sirol gwefan y Cyngor Sir
https://www.ynysmon.llyw.cymru/cy/Busnes/Adfywio/ARFOR-ar-waith.aspx

Cyhoeddiad Llywodraeth Cymru ar y 10fed Hydref 2022
Cymraeg: https://llyw.cymru/rhaglen-arfor-2-gwerth-11-miliwn-i-hybu-ffyniant-economaidd-mewn-cymunedau-cymraeg

Gwerthusiad Rhaglen Arfor 1 gan gwmni Wavehill –ar www.rhaglenarfor.cymru

Gwerthusiad Rhaglen Arfor 1 Ynys Mon gan CSYM

This page is intentionally left blank

| Cyngor Sir Ynys Môn | |
|---|---|
| Adroddiad i: | **Pwyllgor Gwaith** |
| Dyddiad: | **24 Hydref 2022** |
| Pwnc: | **Cais Porthladd Rhydd Caergybi** |
| Aelod(au) Portffolio: | **Y Cynghorydd Carwyn Jones (Datblygu Economaidd, Hamdden a Thwristiaeth)** |
| Pennaeth Gwasanaeth / Cyfarwyddwr: | **Christian Branch**<br>**Pennaeth Gwasanaeth – Rheoleiddio a Datblygu Economaidd** |
| Awdur yr Adroddiad:<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Tudur H. Jones**<br>**2146**<br>**tudurjones@ynysmon.gov.uk** |
| Aelodau Lleol: | **Perthnasol i bob Aelod Etholedig** |

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

**Argymhellion –**
**1) Oherwydd y terfyn amser ar gyfer cyflwyno cais, bod y Pwyllgor Gwaith yn dirprwyo awdurdod i'r Prif Weithredwr gyflwyno'r Cais Porthladd Rhydd terfynol, mewn ymgynghoriad â'r Arweinydd a'r Aelod Portffolio Datblygu Economaidd.**
**2) Bod y Pwyllgor Gwaith yn cytuno fod galw i mewn yn cael ei eithrio ar sail brys a niwed i ddiddordeb y cyhoedd.**

### 1.0 Beth yw Porthladd Rhydd?

Mae Llywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru wedi gwahodd cynigwyr i gyflwyno cynlluniau am Borthladdoedd Rhydd yng Nghymru (https://www.gov.uk/freeport). Agorodd y broses ymgeisio ar 1 Medi a bydd yn cau am 6pm ar 24 Tachwedd 2022 ac mae disgwyl penderfyniad yng Ngwanwyn 2023. Felly mae'r amserlen yn heriol.

Mae porthladdoedd rhydd yn ardaloedd dynodedig lle mae ystod o gymhellion economaidd ar gael i ysgogi'r economi leol ac annog twf a buddsoddiad. Maent yn cynnwys cymhellion yn gysylltiedig â threthi, tollau, cyfraddau busnes, cynllunio, adfywio, arloesi a masnach a chymorth i fuddsoddi.

### 2.0 Y Broses Ymgeisio

Mae'r Prosbectws Ymgeisio yn debyg i'r un ar gyfer Lloegr a arweiniodd at ddyfarnu statws Porthladd Rhydd i wyth ymgeisydd yn 2021 (gan gynnwys Porthladd Lerpwl). Serch hynny, mae cynnwys Llywodraeth Cymru yn y broses benderfynu wedi ehangu'r meini prawf asesu i gynnwys polisïau blaenoriaeth megis Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, polisïau Sero Net, yn ogystal â safonau amgylcheddol a safonau llafur.

Mae'r ddwy Lywodraeth wedi nodi eu bod yn agored i'r posibilrwydd o ganiatáu mwy nag un Porthladd Rhydd yng Nghymru, pe byddent yn derbyn achos busnes digon cryf.

## A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

Mae £26m o gyllid sbarduno ar gael i'r cais/ceisiadau llwyddiannus - £1m o gyllid refeniw a £25m o gyllid cyfalaf ar ôl i'r achosion busnes amlinellol a llawn gael eu cymeradwyo.

Gall ceisiadau gael eu cyflwyno gan gynghrair ac mae'n rhaid i'r gynghrair gynnwys gweithredwr porthladd a'r awdurdod lleol 'lletyol'. Bydd partneriaid eraill yn cynnwys busnesau lleol a rhyngwladol; sefydliadau academaidd; Partneriaethau Economaidd Rhanbarthol ac awdurdodau lleol eraill.

Mae'n rhaid i ymgeiswyr gynnwys o leiaf un safle tollau. Mae safle tollau Porthladd Rhydd (a elwir hefyd yn 'barth rhydd') yn barth tollau amgaeedig, diogel lle nad yw rhai o'r rheolau treth a thollau arferol yn berthnasol. Mae'n rhaid iddynt gael eu gweithredu gan sefydliad sydd wedi'i awdurdodi i wneud hynny gan Gyllid a Thollau ei Mawrhydi (CThEM).

Dylai cynigwyr anelu am safle treth sengl er mwyn manteisio ar y cynnig treth. Os oes achos economaidd dros wneud hynny, gall ymgeiswyr ddiffinio hyd at dair ardal unigol fel lleoliad y safleoedd treth. Mae'n rhaid i'r safleoedd hyn fod:

- yn safleoedd heb eu datblygu
- yn safle sengl neu'n safleoedd lluosog o hyd at 600ha (gydag isafswm o 20ha ac eithrio o dan amgylchiadau eithriadol)
- gallant fod ym mherchnogaeth nifer o berchnogion
- wedi eu lleoli mewn ardaloedd sydd â chyfraddau cynnyrch domestig gros (GDP) y pen sy'n is na chyfartaledd y DU a chyfraddau diweithdra uwch na chyfartaledd y DU

Mae tri phrif amcan y mae'n rhaid eu bodloni:

1. Hyrwyddo adfywio a chreu swyddi o ansawdd uchel – dyma'r prif faen prawf;
2. Sefydlu'r Porthladd Rhydd fel hyb cenedlaethol ar gyfer masnach fyd-eang a buddsoddiad ar draws yr economi;
3. Meithrin amgylchedd arloesol.

Mae ceisiadau'n cael eu hasesu ar sail eu gallu i gyflawni'r tri amcan uchod – yn ogystal â:

1. Y gallu i gyflawni'r cynnig yn effeithiol ar gyflymder
2. Lefel ymwneud y sector preifat yn y cynnig

Rhoddir sgôr isel, canolig neu uchel i bob un o'r meini prawf hyn ac er mwyn i fidiau fynd ymlaen i'r broses lle bydd gweinidogion yn gwneud penderfyniad bydd rhaid iddynt:

- dderbyn sgôr "canolig" neu well ar y prif faen prawf ("hyrwyddo adfywio a chreu swyddi o ansawdd uchel");
- derbyn dim mwy nag un sgôr "isel" ar draws y pum maen prawf.

Felly mae'n bwysig dangos y gallai Porthladd Rhydd yng Nghaergybi gyflawni pob un o'r pum maen prawf – ac yn arbennig y gall hyrwyddo adfywio a chreu swyddi o ansawdd uchel.

| A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|
| **3.0 Risgiau a'r hyn sy'n anhysbys ar hyn o bryd am y Prosbectws Porthladdoedd Rhydd**<br>Mae ansicrwydd yn bodoli ynghylch gwerth a manteision Porthladdoedd Rhydd gan y cred rhai eu bod yn disodli gweithgarwch economaidd sy'n bodoli'n barod o un ardal i ardal arall; ac y gellid edrych ar ddynodi Porthladdoedd Rhydd fel cam cyntaf mewn proses ehangach o ddadreoleiddio. Serch hynny, dylid nodi fod gwahaniaethau sylfaenol rhwng Porthladdoedd Rhydd yng Nghymru a Lloegr ac mae'r trothwy ar gyfer dadreoleiddio yn fwy caeth yng Nghymru ac mae'n cael ei asesu a'i rheoleiddio'n llawer llymach (gweler isod).<br><br>Cydnabyddir y bydd angen eglurder a sicrwydd pellach ynghylch y materion a ganlyn wrth i'r cais gael ei ddatblygu a chyn ei gyflwyno ar 24 Tachwedd:<br>1. Rheoli risg, rheoli rhanddeiliaid a rheoli disgwyliadau.<br>2. Perthynas i'r dyfodol / perthynas ffurfiol gyda Stena a rheoli a dyrannu'r arian cyfalaf o £25m.<br>3. Adnoddau a chapasiti yn y Cyngor i reoli statws Porthladd Rhydd pe byddai'r cais yn llwyddiannus.<br>4. Yr angen am lywodraethiant cadarn, a rôl y Cyngor Sir yn y tymor hir, a'r adnoddau fydd eu hangen i gyflawni'r rôl honno yn effeithiol a chydymffurfio ag unrhyw ofynion.<br>5. Y risg posib o ddadleoli economaidd yn ogystal ag agosrwydd Porthladd Lerpwl.<br>6. Effeithiau posib y Porthladd Rhydd ar gymunedau lleol, yr iaith Gymraeg a diwylliant Cymreig.<br><br>Wrth ystyried yr uchod, dylid nodi na fydd y Cyngor Sir ond yn cyflwyno cais sydd yn sicrhau fod y pryderon uchod yn cael eu bodloni a'i fod yn gwella swyddi, cyfleoedd a ffyniant ar Ynys Môn.<br><br>**4.0 Y Gwahaniaeth rhwng Porthladdoedd Rhydd Cymru a Lloegr**<br>Mae gwahaniaeth pendant rhwng y disgwyliadau sydd ynghlwm â Phorthladdoedd Rhydd yng Nghymru a Phorthladdoedd Rhydd yn Lloegr.<br><br>Mae lefel y dadreoleiddio yn y cynigion am Borthladdoedd Rhydd yn gymharol gyfyngedig (ac yn fwy fyth yng Nghymru). Er bod gan y DU fwy o ryddid i ddadreoleiddio yn awr ar ôl gadael yr Undeb Ewropeaidd, mae'n rhaid iddi gydymffurfio o hyd â rheoliadau Sefydliad Masnach y Byd a'r cytundeb masnach rhwng y DU a'r Undeb Ewropeaidd (mewn perthynas â rheoli cymorthdaliadau er enghraifft).<br><br>Yng Nghymru bydd rhwystrau a gwrthbwysau ar waith, er enghraifft mewn meysydd megis:<br>1. Cynllunio – cyfrifoldeb y Cynghorau fydd "ystyried" caniatáu cyflwyno Gorchmynion Datblygu Lleol, ac mae hyn yn rhoi hyblygrwydd i'r Cyngor ynghylch pa mor bell y mae'n dymuno mynd;<br>2. Safonau Amgylcheddol – mae gostwng safonau amgylcheddol (a safonau llafur) wedi cael ei ddiystyru'n benodol gan Lywodraeth Cymru; |

A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau

3. Safonau Llafur – dywed Gweinidog Cymru ei fod yn chwilio am fidiau fydd yn arddangos y safonau llafur uchel a geir yn y Contract Economaidd a Phrosbectws Cymru.
4. Sero Net a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol - Bydd angen i unrhyw Borthladd Rhydd yng Nghymru weithredu oddi mewn i fframwaith deddfwriaethol Cymru mewn perthynas â chynaliadwyedd a llesiant - Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - ac ymrwymiadau sero net Llywodraeth Cymru.

Oherwydd dymuniad Llywodraeth Cymru i gynnal safonau uchel, mae'r cyfrifoldebau sydd wedi eu datganoli yn llai tebygol o weld hyblygrwydd yn y dyfodol na'r meysydd y mae Llywodraeth y DU yn gyfrifol amdanynt a dylai hyn gynnig y cysur angenrheidiol.

**5.0 Y Sefyllfa Bresennol**
Mae'r Prif Weithredwr wedi bod yn arwain trafodaethau gyda Stena (a'u cynghorwyr) ynglŷn â'r gwaith i ddatblygu cais wedi'i ganoli ar Borthladd Caergybi.

Bydd angen lefel sylweddol o ddadansoddi technegol a gwaith mireinio er mwyn bod mewn sefyllfa i gyflwyno cais ffurfiol i Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cymru.

Er bod nifer o agweddau yn parhau i fod yn anhysbys o ran ymarferoldeb sefydlu Porthladd Rhydd yng Nghaergybi (byddant yn dod yn fwy eglur drwy gydol y broses), nodwyd yn glir fod gan y Cyngor rôl ganolog holl bwysig i'w chwarae ac y bydd yn atebol i Lywodraeth Cymru am y cyllid o £26m.

**6.0 Y Camau Nesaf**
Os bydd yr argymhelliad yn cael ei gymeradwyo, y cam nesaf fydd cyflwyno'r cais i Lywodraeth y DU erbyn **dim hwyrach na 6pm ar 24 Tachwedd 2022**.

Oherwydd yr amserlen gaeth, ni fydd yn bosib cyflwyno'r cais terfynol i'r Pwyllgor Gwaith ei gymeradwyo'n derfynol oherwydd y gwaith paratoi fydd angen ei wneud cyn y dyddiad cau ac nid yw cyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith yn cael ei gynnal tan 29 Tachwedd 2022.

Disgwylir i'r safle llwyddiannus gael ei gyhoeddi yn ystod y gaeaf a disgwylir iddo ddod yn weithredol yn 2023.

Os bydd cais yr Ynys yn llwyddiannus, bydd rhagor o waith yn cael ei wneud i ddatblygu rhaglen gyflawni a chofrestr risg cynhwysfawr, yn ogystal ag amlinellu trefniadau llywodraethiant cadarn rhwng y Cyngor, Stena a phartneriaid/rhanddeiliaid ehangach.

Os yw'r cais yn llwyddiannus, a phan fydd y ddwy Lywodraeth wedi rhannu'r cytundeb cyllido gyda'r Cyngor Sir, bydd Swyddogion yn rhoi diweddariad i'r Pwyllgor Gwaith a fydd yn cynnwys manylion pellach mewn perthynas â:

a) Rôl y Cyngor wrth gyflawni'r Cais
b) Nodi a lliniaru risgiau
c) Strwythurau llywodraethu

| A –Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau |
|---|
| d) Monitro ac adrodd |

| B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod a/neu ddewis yr opsiwn hwn? |
|---|
| Nad yw'r Cyngor Sir yn cyflwyno cais am Borthladd Rhydd. Nid ystyrir fod hwn yn opsiwn realistig gan y gallai greu cyhoeddusrwydd negyddol a chael effaith andwyol ar uchelgais y Cyngor i greu swyddi a chyfleoedd. |

| C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith? |
|---|
| Mae sicrhau cymeradwyaeth angenrheidiol a chefnogaeth gan y Pwyllgor Gwaith yn bwysig oherwydd gwerth y cais arfaethedig, a lefel uchel o ddiddordeb gan randdeiliaid lleol. |

| Ch – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisïau a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn? |
|---|
| Ydi. Mae'n alinio a Chynllun y Cyngor, yn yr ystyr:<br>*Byddwn yn hyrwyddo Ynys Môn er mwyn annog datblygwyr mawr i fuddsoddi yn yr Ynys ac yn defnyddio hyn fel catalydd ar gyfer datblygu busnesau a swyddi ar yr Ynys.*<br>…ac…<br>*Gwneud ein gorau glas i greu amodau sy'n golygu y gall busnesau lleol ddatblygu a chreu swyddi o safon yn Ynys Môn. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod gwariant y Cyngor yn cefnogi busnesau lleol.* |
| **D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?** |
| Na – ni ragwelwyd y gweithgaredd hwn ac efallai y bydd y Cyngor yn ysgwyddo costau ychwanegol wrth ddatblygu'r cais. |

| Dd – Asesu'r effaith posib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 1 | Sut mae'r penderfyniad hwn yn effeithio ar ein hanghenion tymor hir fel Ynys? | Mae ardaloedd yng Nghaergybi'n dioddef amddifadedd sydd ymysg yr uchaf yng Nghymru. Gallai sicrhau statws Porthladd Rhydd gyflawni gwelliannau gwirioneddol a fyddai o fudd i'r Dref a chreu swyddi a chyfleoedd. |
| 2 | A yw hwn yn benderfyniad y rhagwelir y bydd yn atal costau / dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol. Os felly, sut?- | Mae ganddo'r potensial i atal costau/dibyniaethau ar yr Awdurdod yn y dyfodol trwy ysgogi twf economaidd a ffyniant yng Nghaergybi ac ar Ynys Môn. |

| Dd – Asesu'r effaith posib (os yw'n berthnasol): | | |
|---|---|---|
| 3 | A ydym wedi bod yn cydweithio â sefydliadau eraill i ddod i'r penderfyniad hwn, os felly, rhowch wybod gyda phwy: | Ydym – gweithio gyda chydweithwyr o Lywodraeth y DU a sefydliadau tu allan i'r Cyngor Sir megis Stena. |
| 4 | A yw dinasyddion Ynys Môn wedi chwarae eu rhan wrth ddrafftio'r ffordd hon ymlaen, gan gynnwys y rhai hynny y mae'r penderfyniad hwn yn cael effaith uniongyrchol arnynt. Esboniwch sut:- | Na – dim eto. |
| 5 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar y grwpiau a warchodir o dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010. | Rydym yn rhagweld y gallai hyn gael effeithiau cadarnhaol posib ar bob dinesydd trwy greu swyddi a chyfleoedd. |
| 6 | Os yw hwn yn benderfyniad strategol, nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad ei gael ar y rhai hynny sy'n profi anfantais economaidd-gymdeithasol. | Rydym yn rhagweld y gallai hyn gael effeithiau cadarnhaol ar bob dinesydd, yn arbennig o ystyried fod Caergybi'n dioddef amddifadedd ac mae nifer o'r preswylwyr yn wynebu anfantais economaidd-gymdeithasol. |
| 7 | Nodwch unrhyw effaith y gallai'r penderfyniad hwn ei gael ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac ar beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. | Bydd unrhyw fid llwyddiannus posib yn cael ei gyflwyno yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn sicrhau fod Gymraeg yn cael ei thrin union yr un fath â'r Saesneg. |

| E – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA) (gorfodol) | |
| 2 | Cyllid / Adran 151 (gorfodol) | |
| 3 | Cyfreithiol / Swyddog Monitro (gorfodol) | |
| 4 | Adnoddau Dynol (AD) | Amherthnasol |
| 5 | Eiddo | Amherthnasol |
| 6 | Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh) | Amherthnasol |
| 7 | Caffael | Amherthnasol |
| 8 | Sgriwtini | Amherthnasol |
| 9 | Aelodau Lleol | Amherthnasol |

| F - Atodiadau: |
|---|
| Sleidiau Cyflwyniad Llywodraeth Cymru ar Borthladdoedd Rhydd |

| |
|---|
| |

| Ff – Papurau cefndir (cysylltwch ag awdur yr adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach): |
|---|
| |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UK Government
Llywodraeth y DU

# Rhaglen Porthladd Rhydd yng Nghymru

Sesiwn Ymgysylltu gyda Rhanddeiliaid
5ed o Hydref 2022

# Freeport Programme in Wales

Stakeholder Engagement Session
5 October 2022

# Lansio

- Mae Gweinidog yr Economi Llywodraeth Cymru a'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ffyniant Bro, Tai a Chymunedau wedi lansio'r prosbectws ar gyfer ymgeiswyr y Rhaglen Porthladd Rhydd yng Nghymru ar 1 Medi

- *"Bydd Porthladd Rhydd newydd yn rhoi hwb aruthrol i bobl Cymru, ac rwy'n hynod falch o gychwyn y broses ymgeisio wrth i ni barhau â'n gwaith gyda Llywodraeth Cymru i ddod â swyddi a ffyniant i'r wlad*"– Greg Clarke

- "*Rwy'n edrych ymlaen at ystyried cynigion arloesol sy'n sicrhau buddion economaidd a chymdeithasol ystyrlon i Gymru"* – Vaughan Gething



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

# Prosbectws

- Cyd-destun Polisi:
  - 8 Porthladd Rhydd mewn gweithrediad yn Lloegr
  - Bwriad Llywodraeth y DU (UKG) i gael Porthladdoedd Rhydd ledled y DU
  - Ymrwymiad i weithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru (LlC) a llywodraethau datganoledig eraill i gyflawni'r rhaglen Porthladdoedd Rhydd

- Bydd y Rhaglen Porthladdoedd Rhydd yn cyfrannu at wireddu deilliannau: Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015

- Dogfennau allweddol:
  - Papur Gwyn Ffyniant Bro
  - Y Rhaglen Lywodraethu
  - Cynllun i Gymru
  - Genhadaeth i gryfhau ac ailadeiladu'r economi



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

# Amcanion

***Mae Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU wedi cydweithio i ddylunio model Porthladdoedd Rhydd a fydd yn cyflawni tri phrif amcan y mae'n rhaid i ymgeiswyr eu bodloni***

- **Sefydlu canolfan genedlaethol ar gyfer masnach a buddsoddi byd-eang ar draws yr economi;**

  *cynhyrchu mwy o weithgarwch economaidd ledled Cymru, a'r DU yn ehangach, ac elwa o fewnfuddsoddi da.*

- **Hyrwyddo adfywio a chreu swyddi o ansawdd uchel;**


  *ysgogi twf net mewn swyddi ar draws diwydiannau arloesol a sectorau o'r economi, gan greu cyfleoedd swyddi o ansawdd uchel, sicrhau Gwaith Teg a thwf econmaidd cynhwysol cynaliadwy.*


- **Meithrin amgylchedd arloesol;**

  *Creu amgylcheddau dynamig sy'n dod ag arloeswyr at ei gilydd i gydweithredu mewn ffyrdd newydd, gan gefnogi diwydiannau a gwasanaethau'r dyfodol, cefnogi datgarboneiddio, addasu hinsawdd a chynnal amgylchedd naturiol ffyniannus.*

# Daearyddiaeth

Tudalen 116




d.s. Nid yw ffiniau safleoedd tollau a threth wrth raddfa

# Llywodraethu

Gall ymgeiswyr amlinellu'r strwythur llywodraethu y maent yn ei ffafrio ond dylai'r cynnig:

- A) ddarparu cyfiawnhad clir am lefel y strwythur llywodraethu sy'n ofynnol i gyflawni'r cais Porthladd Rhydd
- B) dangos tystiolaeth o ymrwymiadau clir a chymesur gan y sectorau preifat a chyhoeddus i dalu costau gweithredu Porthladd Rhydd
- C) cynnwys strwythur gwneud penderfyniadau sy'n cadw gallu'r awdurdod lleol i fod yn atebol yn ystyrlon am wario arian cyhoeddus
- CH) bodloni ein tair safon graidd o ran:
    - i. strwythur effeithiol
    - ii. personél effeithiol
    - iii. swyddogaethau effeithiol

# Cais

- Eitemau allweddol y disgwyliwn iddynt gael eu cynnwys:
  - Mapiau a sail resymegol economaidd ar gyfer terfyn allanol, safleoedd treth, a safleoedd tollau
  - Cyflwyniad 5000 o eiriau yn nodi manylion sut bydd 5 amcan y Porthladd Rhydd yn cael eu bodloni
  - Cynllun gweithredu mewn cyd-destun
  - Fframwaith Rheoli Risg
  - Cynnig buddsoddi
  - Amlinelliad o ffocws sectoraidd y Porthladd Rhydd
  - Tystiolaeth o'r galw masnachol
  - Ymagweddau at liniaru allanoldebau negyddol a bodloni safonau amgylcheddol
  - Cymeradwyaethau partneriaid lleol

# Cynllun Marcio (Atodiad A)

| Porth Asesu | |
|---|---|
| **Marc** | Testun |
| **Llwyddo** | Mae'r ymgeisydd wedi cyflwyno'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani ac mae'r ymateb yn amlwg yn bodloni'r manylebau a amlinellwyd yn y prosbectws, gan gynnwys darparu tystiolaeth o sail resymegol gryf lle mae'r cynnig yn mynd y tu hwnt i'r terfynau rhagosodedig (e.e. ar gyfer unrhyw safleoedd tollau y tu allan i'r Terfyn Allanol). |
| **Methu** | Nid yw'r ymgeisydd naill ai wedi cyflwyno'r holl wybodaeth y gofynnwyd amdani, nid yw'r ymateb yn bodloni'r manylebau a amlinellwyd yn y prosbectws, neu nid oes tystiolaeth ddigonol o sail resymegol gryf lle mae'r cynnig yn mynd y tu hwnt i'r terfynau rhagosodedig (e.e. ar gyfer unrhyw safleoedd tollau y tu allan i'r Terfyn Allanol). |



| Bydd gwybodaeth fanwl y cais y gofynnwyd amdani gan ymgeiswyr yn cael ei marcio yn unol â'r sgema canlynol | |
|---|---|
| **Marc** | Testun |
| **Isel** | Ymateb gwael gyda phryderon sylweddol na fydd y cynnig yn cyflawni safon a fynnir i fodloni'r maen prawf. |
| **Canolig** | Ymateb da sy'n bodloni'r gofynion gyda thystiolaeth ategol gadarn. Mae'n dangos dealltwriaeth dda o'r ysgogiadau, allbynnau ac amcanion. |
| **Uchel** | Ymateb arbennig sy'n bodloni'r gofynion. Mae'n dangos dealltwriaeth ragorol o'r ysgogiadau, allbynnau ac amcanion gyda thystiolaeth ategol fanwl a dim gwendidau, gan arwain at lefel uchel o hyder y bydd y cynnig yn cyflawni safon a fynnir i fodloni'r maen prawf. |

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

# Asesiad

| Bydd ymgeiswyr yn cael eu hasesu yn erbyn pob un o'r pum maen prawf | Bydd ceisiadau ond yn cael eu cyflwyno i weinidogion fel rhai y gellid eu penodi os ydynt yn cyflawni'r ddau isod, man lleiaf: |
| --- | --- |
| A) gallu i gyflawni'r amcan "hyrwyddo adfywio a chreu swyddi o ansawdd uchel".<br><br>B) gallu i gyflawni'r amcan "sefydlu canolfannau ar gyfer masnach a buddsoddi byd-eang".<br><br>C) gallu i gyflawni'r amcan "meithrin amgylchedd arloesol".<br><br>CH) gallu i gyflawni'r cynnig yn effeithiol yn ddi-oed.<br><br>D) lefel ymglymiad y sector preifat yn y cynnig. | A) "canolig" o leiaf ar faen prawf arweiniol y llywodraeth, "hyrwyddo adfywio a chreu swyddi o ansawdd uchel";<br><br>B) dim mwy nag un "isel" ar draws y pum maen prawf |

# Asesiad a Gwneud Penderfyniad

| Gweithredu | Arwain |
|---|---|
| Asesiad | Asesiad ar y cyd gan LlC a Llywodraeth y DU<br><br>Meysydd polisi neilltuedig (h.y. tollau) Llywodraeth y DU yn arwain<br>Meysydd polisi datganoledig (h.y. cynllunio) LlC yn arwain |
| Adolygiad | Bwrdd Uwch Wasanaeth Sifil ar y Cyd LlC a Llywodraeth y DU i gwblhau'r rhestr o'r rhai y gellid eu penodi |
| Gwneud penderfyniad | Penderfyniad ar y cyd gan weinidogion LlC a Llywodraeth y DU<br><br>Cyhoeddi enillwyr ar y cyd gan weinidogion LlC a Llywodraeth y DU |



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

# Llinell amser

| Dyddiad | Gweithredu |
|---|---|
| **13 Hydref 2022** | Terfyn amser ar gyfer cyflwyno holl gwestiynau cadarnhau o ran y prosbectws i Freeports@llyw.cymru erbyn y dyddiad hwn |
| **27 Hydref 2022** | Terfyn amser ar gyfer cyhoeddi crynodeb o'r ymatebion i gwestiynau cadarnhau y prosbectws – gweler yr enghraifft o'r Alban: Holi ac Ateb Porthladdoedd Gwyrdd |
| **24 Tachwedd 2022** | 6pm – dyddiad cau ar gyfer ceisiadau |
| **Gaeaf 2023** | Asesu'r ceisiaadau a phenderfyniad ar y cyd rhwng y llwyodraethau |
| **Gwanwyn 2023** | Cyhoeddi'r cynnig llwyddiannus |
| **Haf 2023** | Porthladd Rhydd yn dod yn weithredol |

# Rhanddeiliad H&A

- Gallwch e-bostio unrhyw gwestiynau i Freeports@llyw.wales

**Sylwer, bydd yr holl gwestiynau ac atebion yn cael eu cyhoeddi fel rhan o'r broses**

- Dogfen allweddol - Green Freeport clarification Q&A

- Diolch



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UK Government Wales
Llywodraeth y DU Cymru

This page is intentionally left blank

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

**Datblygiad tai newydd safle cyn Ysgol Gynradd, Niwbwrch**

**New housing development old Newborough Primary School site**

| Paragraff(au) 12 ac 13<br>Paragraph(s) 12 and 13 | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Schedule 12A Local Government Act 1972 |
|---|---|
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd /<br><br>There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae disgwyliad am dryloywder mewn achosion yn ymwneud efo prosesau a phenderfyniadau'r Cyngor.<br><br>There is an expectation of transparency in respect of matters relating to the decision making process of the Council. | Y budd y cyhoedd wrth beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion am werth ariannol datblygiad o dai cyngor newydd. Wrth ddatgelu beth mae'r Cyngor yn ystyried ac yn fodlon dalu am dai newydd a gwerth ariannol posibl contract adeiladu tai mai'n bosibl y byddai hyn yn medru effeithio tendrau a ddychwelir am y gwaith a gallu'r Cyngor i negydu prisiau cystadleuol am waith adeiladu yn y dyfodol.<br><br>Byddai cyhoeddi'r wybodaeth yn gosod cynsail o ran faint mae'r cyngor yn fodlon dalu am waith adeiladu.<br><br>This report contains details regarding the value of a new housing development. Disclosing how much the Council is considering, and is willing to pay for new council houses and the possible value of a building contract could affect tenders returned for the work in the future and the Council's ability to negotiate competitive prices for building work.<br><br>Publishing this information would set a precedent as regards how much the Council is willing to pay for building work. |
| **Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.<br><br>**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. | |

Document is Restricted

This page is intentionally left blank

# PRAWF BUDD Y CYHOEDD
# PUBLIC INTEREST TEST

**Datblygiad tai newydd safle cyn Ysgol Parch. Thomas Ellis, Caergybi**

**New housing development old Parch. Thomas Ellis Primary School site**

| Paragraff(au) 12 ac 13<br>Paragraph(s) 12 and 13 | Atodlen 12A Deddf Llywodraeth Leol 1972<br>Schedule 12A Local Government Act 1972 |
|---|---|
| Y PRAWF – THE TEST | |
| Mae yna fudd y cyhoedd wrth ddatgelu oherwydd /<br><br>There is a public interest in disclosure as:-<br><br>Mae disgwyliad am dryloywder mewn achosion yn ymwneud efo prosesau a phenderfyniadau'r Cyngor.<br><br>There is an expectation of transparency in respect of matters relating to the decision making process of the Council. | Y budd y cyhoedd wrth beidio datgelu yw / The public interest in not disclosing is:-<br><br>Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys manylion am werth ariannol datblygiad o dai cyngor newydd. Wrth ddatgelu beth mae'r Cyngor yn ystyried ac yn fodlon dalu am dai newydd a gwerth ariannol posibl contract adeiladu tai mai'n bosibl y byddai hyn yn medru effeithio tendrau a ddychwelir am y gwaith a gallu'r Cyngor i negydu prisiau cystadleuol am waith adeiladu yn y dyfodol.<br><br>Byddai cyhoeddi'r wybodaeth yn gosod cynsail o ran faint mae'r cyngor yn fodlon dalu am waith adeiladu.<br><br>This report contains details regarding the value of a new housing development. Disclosing how much the Council is considering, and is willing to pay for new council houses and the possible value of a building contract could affect tenders returned for the work in the future and the Council's ability to negotiate competitive prices for building work.<br><br>Publishing this information would set a precedent as regards how much the Council is willing to pay for building work. |
| **Argymhelliad** - Mae budd y cyhoedd wrth gadw'r eithriad o bwys mwy na budd y cyhoedd wrth ddatgelu'r wybodaeth.<br><br>**Recommendation** - The public interest in maintaining the exemption outweighs the public interest in disclosing the information. | |

Document is Restricted